


Deryn Dierth

gan
Ieuan Griffiths



Ni ellir perfformio'r Ffars hon heb ganiatâd swyddogol. Fe geir hwnnw a phob manylion gan Wasg Aberystwyth, 33, North Parade, Aberystwyth.

*Ai graffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion,
Gwasg Gomer, Llandysul*

CYMERIADAU

WALTER MORGAN—	siopwr o Lundain, wedi reteirio.
SARA MORGAN—	ei wraig.
JANE OLIVER—	chwaer Mrs. Morgan.
GEINOR—	nith i'r ddwy chwaer.
CARNOLYN R. REES—	Americanwr.
DEMETRIUS JONES—	pregethwr cynorthwyol.
MRS. POWELL-PRYCE—	un o wragedd pwysig yr ardal.
FFLORRI OWEN—	barmaid yn y "Prince of Wales."
JOHN EDWARDS—	Cynghorwr Lleol.
SALI—	y forwyn.
DET. SERG. THOMAS.	

*Cymeriadau a digwyddiadau dychmygol
sydd yn y ddrama hon.*

DERYN DIERTH

ACT I

GOLYGFA :—“Drawing room” ty Mr. a Mrs. WALTER MORGAN. Gan mai pobl wedi reteirio o fusnes laeth yn Llundain ydynt a chan mai uchelgais MRS. MORGAN ydyw bod yn rhywun ym mywyd cymdeithasol y pentref a'r ardal, “drawing room” yw'r enw iawn ar yr ystafell. Y mae ffenestr ffrensh fawr yn y cefn yn agor i'r lawnt a'r ardd a dyna'r unig ffenestr y mae'n rhaid wrthi at amcanion y chwarae. Un drws sydd i'r ystafell ac y mae hwnnw ar y chwith (o safbwynt y chwaraewyr).

Prynhawn braf yng nghanol yr haf yw hi a thywynna'r haul y tu allan i'r ffenestr ffrensh.

Ychydig o ddodrefn sydd yn yr ystafell fel y gweddai i “drawing room” fodern. Y mae “settee” ar y chwith rhwng y ffenestr ffrensh a'r drws ac y mae desg fechan neu “bureau” ar y dde. Yma a thraw ceir tua phedair o gadeiriau ac y mae un gadair freichiau, partner y “settee,” ar y dde i'r ffenestr. Yn y canol y mae “pouf” a symudir o le i le fel y bo'i angen.

Pan gyfyd y llen gwelir rhan o WALTER, dyn tua 55 oed, yn cysgu ar y “settee,” a'i draed (heb esgidiau amdanynt) ar y “pouf”. Mae'r rhan anweledig, y rhan uchaf, o dan bapur newydd. Gwelir hwnnw yn codi ac yn disgyn ychydig fel yr anadla.

Daw GEINOR i mewn drwy'r drws,—merch ifanc, tua'r ugain oed, yn llawn bywyd. Edrych o gwmpas am eiliad neu ddwy ac yna â ymlaen yn ddistaw a chogleisio un o draed WALTER. Nid yw ef yn diuno ond rhwbia wadn y droed honno yn erbyn cefn y llall ac ymdawela eilwaith. Gwna GEINOR yr un peth eto a'r tro hwn gwelir cyffro dan y papur a daw ei wyneb i'r amlwg.

WALTER : O'r andras ! A oedd yn rhaid i ti ddod i mewn i'r ystafell hon a minnau wedi cael tipyn o lonyddwch am dro ?

GEINOR : Oeddech chi'n breuddwydio ?

WALTER : Nawr y cysgais i a dyna tithau . . .

GEINOR : Breuddwydio am y cornel clyd yna sydd yn y “Prince of Wales” yn Nhre-cyll.

WALTER : E ! Beth ddwedaist ti ?

GEINOR : A'r *barmaid* yna sy'n bowdwr a lipstic i gyd yn dod a pheth yfed i chi.

WALTER : Dwn i ddim am beth yr wyt ti'n siarad.

GEINOR : Ydych chi'n drwm eich clyw y pnawn yma. [*Yn codi'i llais*]. Am danoch chi'n llymeitian yn y "Prince . . .

WALTER : Geinor, Geinor, rwy'n dymuno arnat . . .

GEINOR : Rydw i wedi cael siom fawr ynoch chi, Nwncwl—fedrai i ddim dweud faint o siom.

WALTER : Celwydd yw'r cwbl, dim ond celwydd. Pobl y lle yma'n llunio stori fy mod yn yfed oherwydd fy mod yn mynd i Dre-cyll ambell waith.

GEINOR : Wel, does dim gwahaniaeth gen i—fe ellwch droi i mewn i bob tafarn yn y lle o'm rhan i. Ble mae modryb? Allan yn yr ardd? [*Symud at y ffenestr ffrensh*].

WALTER : Geinor, aros, aros ferch. [*Chwilio am ei esgidiau*].

GEINOR : Beth sy'n bod?

WALTER : Ond dwyt ti ddim yn *credu'r* storïau yma am dy Nwncwl, wyt ti?

GEINOR : Fe fyddai'n anodd iawn gen i eu chredu onibai i mi eich gweld trwy ffenestr y "Prince of Wales" neithiwr â'm llygaid fy hun.

WALTER : Fy ngweld i! Doeddwn i ddim yn agos i'r lle nei hiwr.

GEINOR : O! O'r gorau! Gwadwch chi. Fel y dywedais i, does dim gwahaniaeth gen i. Dwedwch, ydy modryb yn yr ardd?

WALTER : Pa amser oedd hyn?

GEINOR : Beth? Pryd y gwelais i chi? O, rywbryd rhwng chwech a saith.

WALTER : Ond, doeddwn i ddim yno rwy'n ei ddweud wrthyf.

GEINOR : Dyna ddiwedd arni ynte.

WALTER : Wyt ti ddim yn fy nghredu?

GEINOR : Nac ydw, Nwncwl. Peidiwch ag edrych mor ofidus. Ddweda i ddim wrth modryb. Dim ond fi ac Arthur sy'n gwybod.

WALTER : Oedd crwt Mari'r Siop gyda thi?

GEINOR : Oedd.

WALTER : Dyna ddiwedd arni, nawr. Mae Mari yn sicr o ddweud wrth dy fodryb.

GEINOR : Na ofidiwch, Nwncwl bach, ni ddywed Arthur air

wrth neb. Rydych yn ddiogel eto. Ond gwyliwch chi eich camre o hyn allan. Beth petai modryb wedi digwydd edrych i mewn drwy ffenestr y bar neithiwr.

WALTER : Paid, paid a dychmygu'r fath beth.

GEINOR : Wel, meddylwch chi am hynny y tro nesaf y trowch i mewn yno. Fe fyddai'n ddigon o sioc i modryb ddod i wybod eich bod chi'n mynd i mewn i'r "Prince of Wales" heblaw . . .

WALTER : Cadw di'r peth yn ddistaw, ac fe gofia i amdanat ti, Geinor.

GEINOR : Reit. Fe'ch atgofia i chi am yr addewid yna eto. Ond, dwedwch, ble mae pawb? Ble mae modryb

WALTER : Mae hi a dy fodryb Jane wedi mynd i weld Ann, Tŷ-gwyn—fe aethant â thipyn o gawl a rhyw lintach o gig iddi. Fe fyddai'n well gan Ann druan beidio â gweld eu hwynebau, ond y mae'n rhaid iddynt gael meddwl eu bod yn fenywod mawr yn y lle.

GEINOR : Ble mae'r Ianci?

WALTER : Ust. Ddylet ti ddim galw hynna arno. Dydy e ddim yn leicio'r enw Ianci.

GEINOR : O'r gorau. Ble mae Carnolyn R. Rees, Ysw., Chicago?

WALTER : Mae rhyw fusnes ymlaen ganddo yntau hefyd. Ddwedodd e'r un gair amdano, ond mae rhyw haearn ganddo yn y tân y pnawn yma.

GEINOR : Wel, gobeithio y gall e wneud y lle hwn yn debycach i Chicago, beth bynnag. Mari Jones yn dweud bod Arthur wedi mynd am dro, chi yn cysgu yn nhraed eich sanau, Modryb Sara a Modryb Jane yn cario cawl ar hyd y lle, Carnolyn R. Rees yn meindio ei fusnes ei hun a neb yn barod i'm helpu i i dreulio'r pnawn braf yma.

WALTER : Ble mae Demetrius? Ydy e ddim yn y golwg yn rhywle? Fe dreuliai fe brynhawn yn dy gwmni gyda phleser.

GEINOR : Gwnâi, efallai, ond chaiff e mo'r cyfle.

WALTER : Fe wnait wraig dda i bregethwr, Geinor—Mrs. Demetrius Jones!

GEINOR : Os ydych chi yn mynd i siarad felna, fe af innau i sôn am y "Prince of Wales."

WALTER : Nawr, rwy'n begian arnat, Geinor. Rhaid i ti beidio â meddwl amdano. Mae clustiau gan y muriau.

GEINOR : Rhaid i chithau beidio â sôn am Demetrius bach, hefyd. Rwy'n fodlon i chi fy mhryfocio am bopeth arall, ond nid amdano ef.

WALTER : Dydw i ddim am dy wneud yn wraig pregethwr, os nad wyt ti am fod.

GEINOR : Dydw i ddim am fod, a dyna ddigon ar y pwnc yna. Nawr, dim gair yn rhagor. Mae'r cadoediad wedi dechrau ; ond i chi beidio â sôn am Demetrius fe gadwaf innau oddi wrth bwnc y "barmaid."

WALTER : Diolch am hynny.

GEINOR [*yn gweld drôr yn y ddesg ag allweddau ynddo*] : Hylo ! Mae'r allweddau yn y drôr yna—rwyf wedi bod eisiau gwybod pa gyfrinach sydd gennych ynddo ers oesoedd a dyma gyfle. [*Yn symud at y drôr*].

WALTER : Hei ! [*Yn codi'n wyllt, esgid am un droed yn unig ac yn ceisio rhedeg i rwystro GEINOR i gael yr allweddau i'w dwylo*]. Hei ! Fy nrôr i ydy hwnna. Aros. [*Sgrech. Mae'n hercian i dynnu'r allweddau o'i dwylo gan gloi'r drôr ac yna yn codi'r droed sydd heb esgid gan dynnu tintac allan ohoni*]. Pwy ddiawl adawodd hon [*yn dal y tintac i fyny*] . . .

[*Daw MRS. MORGAN i mewn yn sydyn drwy'r drws. Benyw ganol oed wedi cadw'n dda ac yn gwisgo'n dda yw hi. Sieryd yn ddistaw ond gan ddisgwyl gwerandawiad a wedi hen arfer â chael ufudd-dod*].

MRS. MORGAN : Walter ! Rydw i wedi dweud digon wrthyhych am beidio ag iwsio iaith felna.

WALTER : Iaith ! Fe fyddai unrhyw angel yn defnyddio'r un iaith petai e'n rhoi ei droed ar ben tintac.

MRS. MORGAN : Beth oeddech chi'n ei wneud yn droed-noeth ?

WALTER : Beth ydych chi'n peidio ag edrych ar ôl y tŷ yma'n iawn yn lle cario cawl ar hyd y pentre ? Colli tintacs ar hyd yr holl le gynnu !

MRS. MORGAN : Does dim eisiau'r holl sŵn am rywbeth bach felna.

WALTER : Peth bach, ddwetsoch chi ! Mae blaen y tintac yna wedi mynd hanner modfedd i mewn i'n nhroed i. Synnwn i fawr na aeth hi a thipyn o'r hosan i mewn gyda hi a dyna "blood-poisoning." Ie, peth bach fydd e pan fydd fy nhroed i wedi chwyddo fel casgen.

MRS. MORGAN : Tynnwch eich hosan. Geinor, cerdd i ymofyn yr iodin. Rwyf yn gwybod lle . . .

WALTER : Dydych chi ddim yn mynd i gael rhoi iodin arno. Beth gwell fyddwch chi ? Mae'r drwg hanner modfedd i mewn, a faint o les fydd iodin ar y croen.

GEINOR : A gaf i ymofyn yr iodin, modryb ?

WALTER : Na chei. Does arna i ddim o'i eisiau.

MRS. MORGAN : O'r gorau. Gwisgwch eich esgid. Cerdd allan i'r ardd am dro, Geinor. Rydw i am siarad â'th ewyrth, ond paid â mynd ymhell.

[*Â GEINOR drwy'r ffenestr ffrensh. Eistedd WALTER ar y dde gan baratoi i wisgo'i esgid*].

MRS. MORGAN : Walter, a fuoch chi yn Nhre-cyll, neithiwr ? [*Syrth yr esgid i'r llawr o'i ddwylo. Caiff ei syfrdanu. Metha ddweud dim am ennyd, ond daw rhyw sŵn o'i wddf.*]

WALTER : Fi ! Fi ! Yn Nhre-cyll ! Ni fuais i'n agos i'r lle. Mae pwy bynnag a ddwedodd wrthyhych chi yn dweud celwydd. Celwydd noeth !

MRS. MORGAN : Ni ddwedodd neb wrthyf. Gofyn oeddwn i ?

WALTER : O, gofyn ai e ! Wel, beth oedd pwynt y gofyn ?

MRS. MORGAN : Eisiau cael gwybod a welsoch chi Geinor yno.

WALTER : Na welais i ddim ohoni. Sut gallwn i ? Doeddwn i ddim yno fy hunan.

MRS. MORGAN : Fe glywais y pnawn yma bod Geinor yno gyda mab Mari Jones, y Siop.

WALTER : Oedd. Yr oedd hi hefyd.

MRS. MORGAN : O ! Sut gwyddech chi ?

WALTER : E ! O . . . y . . . fe'i gwelais yn cerdded ar hyd y ffordd tua Thre-cyll.

MRS. MORGAN : Mae'n rhaid i ni roi stop ar y ffrenshibaeth yna. Rhaid i ni ofalu na wêl Mr. Jones hi yng nghwmni mab Mari Jones neu dyna ddiwedd ar y cwbl.

WALTER : Diwedd ar beth ?

MRS. MORGAN : Diwedd ar y matsh rhyngddi a Mr. Jones.

WALTER [*yn cofio ei fod yn ddyn wedi'r cwbl*] ; Sara, dydw i ddim yn mynd i'ch gadael chi a Jane i wneud i Geinor briodi Demetrius Jones na neb arall os nad yw hi am.

MRS. MORGAN : Gadewch chi i fi a Jane edrych ar ôl Geinor. Merch i'n chwaer ni yw hi—dydy hi ddim yn perthyn i chi. Ac er ei bod hi yn dewis byw gyda Jane, rydw i'n teimlo cyfrifoldeb amdani. Fe wna i yr hyn sydd orau er ei lles hi.

- WALTER : A dydy fy marn i yn cyfri dim ?
- MRS. MORGAN : Dim. Gwell i chi gadw'ch anadl at ryw-
beth arall. Ond y mae'n rhaid i chi ein helpu ni.
- WALTER : O ! rwy'n ddigon da i helpu, hefyd.
- MRS. MORGAN : Rydych chi'n cael mwy o berswâd arni na
neb arall. Fe wrendy arnoch chi lle na wrendy hi arna i
na Jane.
- WALTER : O, oes, y mae ganddi dipyn o olwg ar ei hen
Nwncwl.
- MRS. MORGAN : Wel, ceisiwch ganddi fod yn neis i Mr.
Jones pan fydd e'n galw a dwedwch wrthi nad yw hi
damaid gwell o geisio cael mynd i Lundain i fod yn actores—
na chaiff hi ddim—na fodlonwn i na Jane fyth i hynny.
Dwedwch wrthi y caiff hi eich arian chi i gyd yn eich
ewyllys.
- WALTER [*yn gweld cystle*] : Ond beth gwell fydda i i ddweud
hynny. Mae'n gwybod yn iawn nad oes gen i ddim hawl
ar yr arian. Mae'r holl bentre yn gwybod. Fi wedi safio
a chrafu i grynhoi arian yn Llundain a chithau wedi
mynnu'r hawl iddynt bob dimai. Rwy'n sport y pentre.
Dallaf i ddim seinio siec fy hunan.
- MRS. MORGAN : Nawr, Walter, dydyn ni ddim yn mynd
ar ôl hen stori felna eto.
- WALTER : Digon hawdd i chi siarad. Fi sy'n gorfod dioddef.
Fi sydd heb arian poced. A'r cwblw oherwydd i mi gael
un anlwc a cholli deucant ar y "Stock Exchange."
- MRS. MORGAN : Does yna'r un pwrpas i sôn am y peth . . .
- WALTER : Wyddoch chi nad oes gen i'r un geiniog yn fy
mhoced nawr. Dyn yn werth ei filoedd yn gorfod dibynnu
ar haelioni ei wraig am arian poced !
- MR. MORGAN : Os cewch chi berswâd ar Geinor fe godaf
eich lwans i chweugain yr wythnos.
- WALTER : Beth yw chweugain ?
- MRS. MORGAN : Mae'n fwy na hanner coron.
- WALTER : Hanner coron yr wythnos ! Dyna i gyd rwy'n ei
gael. Ac y mae Pensiwn Hen Bobol yn chweugain !
- MRS. MORGAN : Pwy sy'n talu am eich bwyd a'ch dillad ?
- WALTER : Pwy safiodd yr arian ? Dwedwch hynny. Pwy
fu'n slafio ac yn meddwl am ddim ond am reiteiro am
flynnydde. Ac i beth ? I dreio byw ar hanner coron yr
wythnos.

- MRS. MORGAN : Y chi achosodd y cwbl. Y chi gollodd yr
holl arian ac y chi seiniodd y weithred yn trosglwyddo'r
cwbl i mi. Onibai am hynny buasech wedi colli'r cwbl.
- WALTER : Ond feddyliais i erioed bod gen i wraig a fyddai
mor annynol â rhoi dim ond hanner coron yr wythnos i mi.
- MRS. MORGAN : Rwy'n cynnig chweugain i chi os gwnewch
chi'r hyn yr ydw i am.
- WALTER : Wna i ddim ohono dan bunt.
- MRS. MORGAN : O'r gorau, os gwnewch chi addo siarad â
hi y pnawn yma.
- WALTER : Pryd y mae'r codiad i ddechrau ?
- MRS. MORGAN : Pan fydd Geinor wedi addo bod yn wraig i
Mr. Jones.
- WALTER : A beth os na wnaiff hi addo ?
- MRS. MORGAN : Yna fe fydd yn rhaid i chi fyw ar eich
hanner coron. [*Yn mynd at y ffenestr ffrensh ac yn gweiddi*] :
Geinor, dere yma. [*Yn dod yn ôl.*] Dyma gyfle i chwi,
nawr. [*Daw GEINOR i mewn.*] Cerdd dtos lyfrau cyfrifon
y "Mother's Union," Geinor. Mae Mrs. Powell-Pryce
yn galw rhwng tri a phedwar ac yr wyf am i'r cyfrifon fod
yn barod. [*Allan drwy'r ffenestr.*]
- [*Ennyd.*]
- GEINOR : Buwyd yn trafod y sefyllfa ariannol, do fe, Nwncwl ?
- WALTER : E ! Sut gwyddost ti ?
- GEINOR : O, fe glywais y geiriau 'hanner coron yr wythnos'
yn fflotio allan drwy'r ffenestr.
- WALTER : Ydy pawb yn y pentre yn gwybod, Geinor ?
- GEINOR : Ydynt, bawb am wn i. Pam nad ewch chi ar
streic, Nwncwl ?
- WALTER : Haws dweud na gwneud. Fi wnaeth y cawl,
weld di.
- GEINOR : Ie, fe glywais ; gamblo !
- WALTER : Roeddwn ar y pryd yn ofni na wellwn i ddim o'r
dwymyn ac ar awr wan fe seiniais y weithred yn rhoi pob
hawl ar yr arian i'th fodryb, a dyma fi, hanner coron yr
wythnos.
- GEINOR : Wel, fe allai fod yn swllt, oni allai ? Byddai
hynny yn fwy nag yr ydw i'n ei gael.
- WALTER : Ond fe elli di wella pethau'n rhwydd.
- GEINOR : O ! Sut ?

- WALTER : Dwed di'r gair ac fe fyddi'n Mrs. Demetrius Jones cyn gynted ag y gellir cyhoeddi'r gostegion.
- GEINOR : Does gennyh chi ddim cof da, oes e, Nwncwl? Ydych chi wedi anghofio'r fargen ynglŷn â'r . . .
- WALTER [*yn gwneud arwyddion cyffrous iddi dewi ac yn gostwng ei lais*] : Oni ddwedais i wrthyt ti am beidio â sôn . . .
- GEINOR : Do, ac fe addawsoch chithau beidio â son am Demetrius bach, hefyd.
- WALTER : Dy les di oedd gen i mewn golwg.
- GEINOR : Ydych chiwi yn dweud y gwir i gyd, Nwncwl?
- WALTER : Wel, nac ydw, efallai ond . . .
- GEINOR : Onid dilyn ordors o H.Q. ydych chi?
- WALTER : Mae yn hen bryd i ti roi heibio'r syniad o fynd i Lundain.
- GEINOR : Dyna un pwnc arall nad yw i gael ei drafod rhyngom.
- WALTER : Os ei ymlaen fel hyn, ni fydd gennym yr un pwnc i sôn amdano—bydd yn rhaid i ni fod yn fud yng nghwmni'n gilydd.
- GEINOR : Fe allwn bob amser sôn am y cwestiwn mawr—y lwans wythnosol. Rwy'n addo un peth i chi, Nwncwl, pan fydda i wedi bod trwy'r "School of Dramatic Art" ac yn actores fawr a'm henw mewn goleuadau llachar uwchben drws theatr yn Llundain, rwy'n addo dwblu'ch lwans chi, o leiaf. Os bydda i'n cael deg punt yr wythnos, ac y mae llawer actores yn cael tipyn yn fwy na hynny, fe gewch chi bunt yr wythnos. Meddyliwch beth fydd hynny yn ei olygu i chi yn lle ceisio fy mherswadio i aros yn y pentre hwn dan wab modryb a phriodi gwidman sydd wedi reiteirio ar arian ei wraig gyntaf.
- WALTER : Rwy'n gweld na fydda i damaid gwell o siarad â thi.
- GEINOR : Dim un tamaid.
- WALTER : Rwy't wedi etifeddu penstiffurwydd dy fam ac elfen dy dad am actio. Ond cofia, welodd e druan erioed mo'i enw mewn llythrennau llachar. Digon tenau fu eu bywyd hwy a'th un dithau nes i ti ddod i fyw at dy fodryb Jane.
- GEINOR : Nid arian yw'r cwbl, Nwncwl.
- WALTER : Nage, efallai. Ond y mae arian yn llawer. Petait yn gorfod byw ar hanner coron yr wythnos o arian poced . . .

- GEINOR : Arian neu beidio, i Lundain i ddysgu bod yn actores yr wyf yn mynd beth bynnag a ddywed modryb a phawb arall.
- WALTER : Rwy't yr un ffunud â'th fam; rwy'n cofio fel petai ddoe am dy fodryb yn pregethu wrthi cyn iddi briodi—roedd y cwbl fel dŵr ar gefn hwyad.
- GEINOR : Y peth sy'n fy ngwneud yn ynfyd yw bod Demetrius bach yn gwneud i modryb garu drosto. Buasech yn disgwyl bod gwidman fel efe, wedi cael profiad, yn gallu gwneud ei garu ei hunan.
- WALTER : Fe wnâi ond i ti roi hanner cyfle iddo.
- GEINOR : Rydw i wedi rhoi digon o gyfle iddo. Rwyf am siawns i ddweud wrtho ble mae e'n sefyll i orffen y peth am byth. Ond wnaiff e ddim. Mae'n rhaid cael Modryb Jane fel rhyw fath o "chaperone" bob amser. Os mynd am dro yn ei gar rhaid mynd yn dri. Os mynd i'r sinema, ni'n tri. Rwyf wedi cael digon ar ei garu ac am gyfle i roi stop arno am byth.
- WALTER : Ust, gwrando. Mae rhywun yn siarad â'th fodryb. Pwy sydd yna?
- GEINOR [*yn mynd i'r ffenestr i edrych*] : Dim ond Modryb Jane. Na, mae Demetrius yna hefyd. Dwedwch wrthyf i, rydw i wedi meddwl gofyn i chi sawl gwaith, a fu rhywbeth rhwng Modryb Jane a'r Ianci cyn iddo fynd i'r America.
- WALTER : Da thi, paid â'i alw wrth yr enw yna.
- GEINOR : Beth alwaf i arno? Mae Carolyn R. Rees yn ormod o lond pen, a rywsut nid yw Rees Chicago, yn swnio'n reit. Ond, dwedwch, a fu rhywbeth rhyngddynt?
- WALTER : Roeddent yn dipyn o gyfeillion.
- GEINOR : Wel, os yw e wedi dod yn ôl yma i'w hymofyn, mae'n rhaid i mi edrych i mewn i'w "gredentials." Mae Modryb Jane yn llawer rhy neis i briodi pob un sydd wedi gwneud arian yn America.
- WALTER : Gwylia di dy gamre. Nid dyn i chwarae ag ef yw Rhys. Un gwyllt iawn oedd e cyn mynd i America.
- GEINOR : A oedd e'n siarad ac yn bragio cymaint yr amser hwnnw?
- WALTER : Ddim cymaint efallai, ond ni ellid ei alw yn grwt distaw, diymhongar o bell ffordd.
- GEINOR : Dwedwch, Nwncwl, beth achosodd i Modryb Sara i ofyn iddo aros yma?

WALTER : Wel, roedd e'n eitha cyfeillgar â'i theulu hi pan oedd yn fachgen. Ac, wrth gwrs, mae dy fodryb yn hoffi cwmni dynion ariannog.

GEINOR : Nid eisiau ei gadw yn weddol agos at Modryb Jane, ai e?

WALTER : Beth wn i? Dydw i ddim yn gwybod ei chyfrinachau. Gofyn iddi—dyma hi'n dod.

[*Daw MRS. MORGAN i mewn a MISS JANE OLIVER a MR. DEMETRIUS JONES yn ei dilyn. Mae JANE yn hollol wahanol i'w chwaer o ran corff ac ysbryd. Corff hytrach yn eiddil sydd ganddi ond y mae ei hwyneb wedi cadw yn syndod o ifanc. Digon hawdd deall paham y mae GEINOR yn hoff ohoni. Dyn tua hanner cant oed yw DEMETRIUS JONES. Mae yn arbennig o ofalus yng nghylch ei wisg a'i osgo.*]

MRS. MORGAN [*wrth ddod i mewn*] : Geinor, gad y cyfrifon yna yn awr. Mae Mr. Jones wedi galw i ddweud ei fod yn meddwl mynd i'r Eisteddfod Genedlaethol pythefnos i ddydd Iau ac y mae am wybod a hoffit fynd gydag e.

GEINOR : A fydd Modryb Jane yn dod hefyd?

DEM. : Wel, yr wyf am i chwi ddod eich dwy.

GEINOR : A ydych chi am fynd, modryb?

JANE : Fe hoffwn i fynd i'r Eisteddfod unwaith—chefais i ddim cyfle erioed c'r blaen.

DEM. : Diwrnod mawr y cadeirio yw dydd Iau ; dyna paham yr wyf am fynd y diwrnod hwnnw.

MRS. MORGAN : Fe fydd yn "education" i ti, Geinor, i weld cadeirio'r bardd. Dylit fod yn ddiolchgar iawn am y cyfle.

DEM. : Dyna'r peth wedi setlo, ynte. Rhaid i ni gychwyn yn weddol fore—tua naw yr oeddwn i'n ei feddwl. Byddwn ychydig yn dynn yn y car bach yn ddi, ond rhaid i ni wneud y gorau.

MRS. MORGAN : O, rwy'n siŵr y bydd popeth yn iawn, Mr. Jones ac yr wyf yn gwybod eich bod yn ddreifer gofalus dros ben.

DEM. : Wel, mae'n rhaid i mi beidio ag aros. Rwyf ar hanner ysgrifennu cwpwl o benillion bach i'r "Hysbysydd."

MRS. MORGAN : A oes yr rhaid i chi fynd? Rwyf am i chi gyfarfod â'r "visitor" enwog sydd gyda ni yma—bachgen o'r lle wedi gwneud arian yn America, Mr. Carnolyn Rees.

GEINOR : Mr. Carnolyn R. Rees, Modryb—rhaid i chi

beidio ag anghofio'r "R," ; John D. Rockefeller, nid John Rockefeller.

WALTER : Bedyddiwyd ef yn Rhys Rees—yn America yn rhywle y cafodd e afael ar yr enw Carnolyn.

MRS. MORGAN : Beth bynnag, mae'n fachgen sydd wedi gwneud yn dda iawn yno. Mae yn ddiddorol ei glywed yn siarad am ei fywyd yno ac y mae cymaint o "vitality" yndo.

DEM. : Roeddwn wedi clywed ei fod yma, a hoffwn yn fawr iawn gwrdd ag ef.

MRS. MORGAN : Fe all fod yn gaffaeliad mawr i'r pentre yma—dyn mor ariannog. Digwydd cwrdd ag ef a wnes i pan ddaeth i roi tro am ei hen ardal. Roedd yn aros yn Nhre-cyll ac fe wnes iddo addo dod i aros atom ni yma tra roedd yn y cylch. Roeddwn yn gyfeillgar iawn ag e cyn iddo fynd i America.

GEINOR : Wrth ei glywed yn siarad gellwch feddwl ei fod yn adnabod gangsters Chicago i gyd.

DEM. : "Dear me," mae'n rhaid i mi ddod i'w adnabod. Faint o amser mae e'n fwriadu aros yn yr ardal?

MRS. MORGAN : Dydy e ddim yn siŵr. Chi'n gweld, mae e'n ddyn â digon o arian ac y mae amser ei hunan ganddo.

WALTER : Mae rhyw fusnes neu'i gilydd ymlaen ganddo y pnawn yma. Fe wrthododd ddweud ble'r oedd yn mynd?

GEINOR [*wrth y ffenestr*] : Fu e ddim yn hir, beth bynnag. Dyma fe'n dod.

MRS. MORGAN : Rwy'n falch nad aethoch chi cyn iddo ddod. Mr. Jones.

[*Daw CARNOLYN R. REES i mewn drwy'r ffenestr ffrensh. Dyn tua hanner cant oed ydyw wedi gwisgo fel Americanwr. Hynodion ei olwg a'i wisg ydynt—dant aur, spectol gorn fawr, esgidiau swêd, het Panama, a dillad goleuach eu lliw na'r rhai a welir yn gyffredinol yng Nghymru. Y mae'n siarad Cymraeg llithrig, eithr gyda rhyw gymaint o acen a goslef yr Americanwr. Y mae morthwyl y "Geclogist" yn ei law*].

REES : Wel, wel, dyma'r teulu bach yn gryno. Rwyf wedi bod am dro ar hyd llwybrau ieuenctid.

WALTER : Dwed wrthyf i, Rhys, ydy hi yn arfer yn America i gario morthwyl yn lle ffon wrth gerdded?

REES : Na, na, ond yr ydw i wedi cerdded llawer â hwn yn fy llaw—hwn ddaeth â ffortiwn i mi.

GEINOR : Ydych chi'n bwriadu gwneud ail ffortiwn y ffordd hyn eto? Os ydych, yr wyf am fod yn bartner.

REES : Wel, efallai, pwy a wŷr?

WALTER : Ond beth yw amcan y morthwyl?

MRS. MORGAN : Peidiwch â holi rhagor o Mr. Rees. Rwyf am eich introduwsio chi i Mr. Demetrius Jones : mae e wedi rcteirio ond ei fod e'n pregethu'n achlysurol ac wedi dod i fyw yn ein plith ni yn y lle bach di-nod hwn.

REES [*wrth siglo dwylo*] : Falch iawn i gwrdd â chi. Mae llawer o fobl nad ydw i'n eu hadnabod yn y lle nawr. Mae'n rhyfedd faint o wahaniaeth a wna pum mlynedd ar hugain.

DEM. : Rwyf innau yn falch iawn o'r cyfle i'ch cyfarfod chi. Roeddwn wedi clywed sôn amdanoch ar hyd y pentre ; fedr dyn sydd wedi gwneud ffortiwn yn America ddim bod yn anadnabyddus yn hir mewn lle bach fel hwn.

MRS. MORGAN : Mae Mr. Jones, yn garedig iawn, yn rhoi llawer liff i'r merched yma [*cyfeiria at GEINOR a JANE*] yn ei gar. Mae e'n mynd â nhw i'r Eisteddfod Genedlaethol yr wythnos ar ôl y ncsaf.

REES : Wel, nawr, dyna beth rhyfedd. Roeddwn i'n meddwl am yr Eisteddfod y pnawn yma. A oes yna ddim gorsedd neu ryw "Syndicate" neu'i gilydd yn perthyn i'r Eisteddfod?

DEM. : Oes, siwr! Gorsedd Beirdd Ynys Prydain. Rwy'n aelod ohoni.

REES : Dyma fy mhrynhawn lwcus i! Chi yw'r dyn yr wyf am siarad ag ef. Beth yw'r "procedure" i ddod yn aelod? Faint mae'n gostio?

DEM. : Mae'n rhaid pasio arholiadau . . .

REES : Fe fu dyn o Chicago draw yma rai blynydde nôl ac fe'i gwnawd e'n aelod ac yr wyf yn siŵr na phasiodd e "exam" o unrhyw fath ond mewn gwybodaeth am sut i werthu "shares" di-werth. Roedd wedi tynnu ei lun mewn rhyw wisg laes fawr ynghanol lot o fobl eraill wedi'u gwisgo run fath a bu'r llun hwnnw ym mhob papur yn Chicago. Chredwch chi ddim faint o help a fu'r llun hwnnw iddo wrth werthu "shares" wedyn. Na, na, mae'n rhaid bod yna ryw ffordd heblaw pasio "exam."

DEM. : Mae rhai pobl yn cael eu hethol yn Aelodau.

REES : Dyna rywbeth nawr. Wel, faint mae hynny'n gostio?

DEM. : Dydy e'n costio dim . . .

REES : Pwy sy'n ethol yr Aelodau hyn?

DEM. : Dydw i ddim yn siŵr . . .

REES : Wel, sut mae cael gafael ar eu henwau a dod i wybod eu pris?

DEM. [*yn dechrau torri i lawr o dan y ffrydlif cwestiynau*] : Dydw i ddim yn siŵr . . . Beth ydych chi'n ei feddwl wrth bris?

REES : Beth yw eu pris? Faint o arian sydd raid ei roi i bob un i brynu ei fôt? Mae pris gan bob dyn.

DEM. : Nid felny . . .

REES : Wrth gwrs bod pris gan bob dyn. Rwy'n gweld yn iawn nawr sut y daeth "Welsh Willie," y dyn yr oeddwn yn sôn amdano wrthy, yn Aelod o'r Orsedd. Does yna ddim na wŷr e am y gwahanol ffyrdd o roi arian cil-dwrn. Pwy yw'r bobol yma?

DEM. : Fe . . . fe . . . fe fydd yn rhaid i mi edrych ar ôl mynd adre.

REES : Dewch chi â'u henwau i mi ac yr wyf yn barod i fentro can delar y bydda i'n Aelod cyn mynd yn ôl i Chicago.

MRS. MORGAN : Mae'n hawdd gweld eich bod chi yn ddyn sy'n arfer cael eich ffordd eich hun Mr. Rees.

REES : Ydw, os bydd dyn yn fy rhwystro, rwy'n ei brynu. Dyna ffordd Chicago. Faint bynnag fydd ei bris, fe dâl y ffordd yn y pen draw. Dewch chi â gwybod i mi pwy yw'r dynion yna, Mr. Jones, ac fe ddangosa i ffordd rwydd-ach i chi na phasio "exams."

DEM. : Fe af i edrych ar unwaith. Mae siŵr o fod gen i rywbeth yn y tŷ a fydd yn dweud. Rwy'n falch iawn fy mod wedi cyfarfod â chwi. Pnawn da, pnawn da.

MRS. MORGAN [*yn ei dywys at y ffenestr*] : Dewch allan ffordd hyn, Mr. Jones. Diolch yn fawr i chwi am eich gwahoddiad i Geinor a Jane. Pnawn da.

[*Â ef o'r golwg a daw hi yn ôl*].

REES : Yr hyn sydd ei eisiau ar y wlad yma yw Pep - P-E-P. A fedrwn i fod wedi gwneud fy ffortiwn wrth basio exams? "No, Sir."

GEINOR : Fedrwn ninnau ddim pasio "exams" hefyd, Mr. Rees. Ond fel y mae gwaetha'r modd, nid oes fawr o argoel y gwna i ffortiwn.

MRS. MORGAN : Mae gan Geinor ryw syniad gwyllt yn ei phen ; mynd i Lundain, i'r "School of Dramatic Art" a

dod yn actres enwog. Ond y mae gen i blan arall gogyfer â'i dyfodol.

REES : Mae arian mawr i'w gael yn Hollywood ond ychydig yw y rhai sy'n dod o hyd iddo. Ond does dim eisiau i chwi Geinor wneud ffortiwn : fe ddaw rhyw ddyn â'i lygad yn ei ben heibio i chi ryw ddiwrnod.

MRS. MORGAN : Mae wedi dod.

REES : Peidiwch fyth â gwrthod cyfle fel yna, Geinor,—os nad oes gwell un yn y golwg.

WALTER : Dydw i ddim yn gwybod faint gwell yw dyn i slafo a chrafu i wneud tipyn o arian ac edrych ymlaen at reteiro os nad yw e'n cael trafod yr arian wedyn.

REES : Ond fe sydd i fod i'w trafod nhw.

WALTER : Digon hawdd i ti Rhys siarad . . .

MRS. MORGAN [*yn gwneud ymdrech i newid y testun*] : Roeddwn i yn falch eich clywed chi'n dweud Mr. Rees, bod eisiau "pep" yn y lle yma. Rwy'n gobeithio y gwnewch chi aros digon hir i roi ychydig ohono ym mywyd yr ardal.

REES : Rwy'n bwriadu gwneud hynny.

MRS. MORGAN : Mae mor anodd i gael neb i gyffro i wneud dim. Dyna Walter, nawr. Mae lecsiwn y "Rural District Council" i fod yn y man. Fe fyddech yn meddwl y byddai'n fodlon sefyll ond wnaiff e ddim.

WALTER : Treiwch siarad synnwyr, Sara. Beth gwell fyddwn i o gynnig? Does neb a siawns yn erbyn John Edwards a dydw i ddim yn mynd i wneud ffwl ohonof fy hun i'ch plesio chi.

REES : Pa lythrennau roir ar ôl enw Aelod o'r "Rural District Council"?

GEINOR : Fe wn i hynny—D.C.

REES : Rwy'n addo i chi y bydd D.C. ar ôl enw Walter Morgan cyn y bydda i wedi gadael am Chicago.

WALTER : Nawr, da thi, paid â rhoi syniadau ym mhen Sara.

REES : Os oes un peth y gallaf ei wneud gydag arddeliad, rhedeg "candidate" mewn lecsiwn yw hwnnw. Pwy yw'r John Edwards yma? Ydw i'n ei adnabod?

MRS. MORGAN : Mae'n rhaid eich bod chi'n cofio'i deulu—roeddynt yn byw ym Mhenrallt. Cadw siop "ironmonger" y mae yn awr ac yn flaenllaw iawn yn y Capel.

WALTER : Dwyt ti damaid gwell o wastraffu dy amser, Rhys. Mae John Edwards yn rhy barchus yn y lle yma.

REES : Wyt ti wedi gofyn beth yw ei bris?

WALTER : Nac ydw. Ma peth synnwyr yn fy mhen i o hyd. Fedri di ddim prynu dyn fel John Edwards.

REES : Mae pris gan bob dyn.

JANE [*yn siarad y tro cyntaf*] : Dydw i ddim yn credu, Mr. Rees, eich bod chi'n sylweddoli sut ddyn yw John Edwards. Mae bod ar y "District Council" yn bwysicach iddo ef na dim. Byddai'n sicr o ffroni petaech yn mynd ato a siarad fel hyn.

REES : Wel, wrth gwrs, mae'n bosibl eich bod chi'n iawn. Yr unig beth amdani ynte yw chwilio ffordd arall dros yr anhawster. Rydw i wedi bod yn cynorthwyo ym mhob math o lecsiynau yn Chicago, ac os na alla i gael Walter i mewn i'r District Council mae'n well i mi reteiro a mynd i gadw hwyaid ar "Long Island."

WALTER : Dydw i ddim yn fodlon o gwbl i'r fusnes hyn, Sara.

MRS. MORGAN : Fe wna les mawr i chi gael bod ar y "District Council" yn lle cerdded ar hyd yr heolydd heb ddim i'w wneud. Rwy'n falch i mi sôn am y peth yng nghlyw Mr. Rees.

REES : Gellwch ddibynnu arna i, Mrs. Morgan. Rwy'n siŵr o feddwl am ryw blan neu'i gilydd.

GEINOR : Mr. Walter Morgan, D.C.—mae'n swnio'n dda, Nwncwl.

REES : Petawn i'n meddwl aros yma am flwyddyn neu ddwy fe awn ar y "District Council" fy hunan. Mae cymaint o bethau eisiau eu gwneud yn y lle yma. Does yma ddim moniwment i neb ar y sgwâr. Dyna un o'r pethau cyntaf a'm trawodd pan ddeuais i nôl i'r pentre. Ac yr wy'n addo i chi y gwelwch chi foniwment ar y sgwâr o fewn dau neu dri mis.

GEINOR : Moniwment i bwy, Mr. Rees?

REES : Moniwment i Carnolyn R. Rees, Chicago. "Yes, Sir," cof-golofn i'r crwt a aeth oddi yma heb ddim ond y dillad oedd amdano ac a ddaeth yn ôl â ffortiwn ganddo.

MRS. MORGAN : Dyna beth yw idea dda, Mr. Rees.

REES : Fe ddaeth Welsh Willie yn ôl o Gymru a rhywbeth a alwai'n "Illuminated Address" ganddo, wedi'i roi iddo, meddai ef, gan ei bentre genedigol. Wel, yr ydw i am allu dweud yn Chicago bod yna foniwment i mi ar sgwâr fy mhentre genedigol a rhoi ei lun yn y "Chicago Illustrated."

WALTER : Pwy sy'n mynd i dalu amdano ?

REES : Os bydd raid, fe dalaf i fy hun amdano. Ond, rwy'n golygu gwneud rhywbeth dros y pentre a'r ardal—rhywbeth sy'n achosi i mi gredu na fydd yn rhaid i mi dalu fy hun. [*Yn taro attitiwd ddramatig*]. A wyddoch chi beth fydd yn llaw y moniwment ?

GEINOR : Bwndel o ddoleri.

MRS. MORGAN : Geinor, paid â bod yn fflipant.

GEINOR : Meddwl oeddwn i ei fod yn gymaint campwr wrth brynu pobl.

REES : Yr wyf am hwn [*dangos y morthwyl*] yn fy llaw.

WALTER : Morthwyl !

REES : Ie, morthwyl y "prospector." A hwn y cefais i afael ar y wythien aur a wnaeth fy ffortiwn yng Nghaliffornia ac â hwn yr wyf yn mynd i wneud ffortiwn i'r pentre hwn.

MRS. MORGAN : Mr. Rees ! Dydych chi ddim yn dweud eich bod chwi wedi cael gafael ar aur yn yr ardal yma.

REES : Af i ddim mor bell â dweud fy mod yn sicr, eto. [*Yn tynnu darnau o graig allan o'i baced*]. Dyma fe ; wedi'r holl brofiad a gefais yng Nghaliffornia dydw i ddim yn credu fy mod yn gwneud mistêc. Roeddwn wedi meddwl drwy'r blynyddoedd fod y creigiau yn y man lle y cefais i hwn yn ddigon tebyg i'r rhai lle y cefais i'r aur yng Nghaliffornia.

WALTER : A ble mae'r creigiau hyn ?

REES : Ie, fe hoffai llawer gael gwybod yr ateb i'r cwestiwn yna.

MRS. MORGAN : Rhaid i chwi beidio â holi Walter.

REES : Rydw i am fod yn sicr cyn symud cam. Fe fydd y siampl hwn yn mynd i'r "assayer" heno, er mwyn cael gwybodaeth faint o aur sydd ynddo. Wedyn, os daw'r ateb yr wyf yn ei ddisgwyl, fe ffurfiaf gwmni i weithio'r aur ac fe gaiff pawb gyfle i brynu "shares." Ac, wrth gwts, fe gewch chi y cyfle cyntaf.

GEINOR : Ac fe fydd pawb ond y fi yn filionêr.

WALTER : Dydw i'n credu dim ohonot ti, Rhys. Ni fu sôn am aur y ffordd hyn erioed o'r blaen.

REES : O, Ie, [*"Oh Yeah," yr Americanwr*]. Fe gawn weld. Ni fydd yn rhaid i ti na neb arall i brynu "shares." Fe ffeindia i ddigon o arian i weithio'r aur.

MRS. MORGAN : Mae Mr. Rees yn gwybod beth y mae'n ei ddweud, Walter. Beth wyddoch chi am aur ! Dyma'r

digwyddiad pwysicaf a fu yn y lle yma erioed. Ac yr wyf yn falch meddwl mai rhywun yn aros yn y tŷ hwn a wnaeth y darganfyddiad.

REES : Ie, Mrs. Morgan. A dyna paham yr wyf yn dweud y bydd moniwment i mi ar y sgwâr cyn pen fawr o amser. Fe dyngais cyn dod o America fy mod yn mynd i wneud tri pheth cyn dychwelyd ; [*yn cyfri ar ei fyseidd*] cael fy ngwneud yn Aelod o'r Orsedd, yr un peth a "Welsh Willie," gwneud rhywbeth i'r ardal fel y bo cof-golofn i mi yn cael ei rhoi ar sgwâr, ac un peth arall, sy'n fater preifat hyd yn hyn ond a ddaw i'r amlwg yn y man.

GEINOR : A rhoi D.C. ar ôl enw Nwncwl, cofiwch.

REES : Mater rhwydd iawn fydd hwnnw.

MRS. MORGAN : A gobeithio y bydd eich esiampl chwi yn codi cywilydd ar Walter ac yntau yn gwneud dim ond gorweddach ar hyd y lle a meddwl am ddim ond am ei gysur ef ei hun.

WALTER : Rydw i wedi reteirio ; wedi bod yn slafo fore a hwyr am flynyddoedd i grafu tipyn o arian . . .

MRS. MORGAN : Dyna ddigon ar y pwnc yna . . .

GEINOR [*er mwyn osgoi storom*] : Mae'n dipyn wedi tri, modryb. A ydych chi'n cofio bod Mrs. Powell-Pryce yn dod i'ch gweld rywbryd rhwng tri a phedwar ?

MRS. MORGAN : Roeddwn wedi anghofio'n llwyr. Mae'ch clywed chi, Mr. Rees, yn siarad yn gyrru popeth arall o'm meddwl. Ond rhaid i mi fynd yn awr. Chredwch chi ddim mor falch ydw i bod Walter yn cael cwmni dyn â chymaint o "vitality" â chi. Fe awn i y menywod allan i'r ardd. Dere â'r cyfrifon yna gyda thi, Geinor. Cawn eich gweld amser te. Fe geisiaf gan Mrs. Powell-Pryce aros iddi gael cyfle i gwrdd â chi, Mr. Rees. "Au revoir." [*Ond yn anffodus nid ces ganddi lawer o syniad sut y mae ynganu'r geiriau*].

[*Â allan a JANE a GEINOR yn ei dilyn*].

GEINOR [*wrth fynd*] : Ar y rât yma, fe fyddwch chi yn M.P. cyn diwedd, Nwncwl.

REES : Mae'n rhyfedd gymaint y mae Mrs. Morgan wedi newid oddi ar yr amser hynny yr wyf yn ei chofio yn cario bwyd i'r lloi yn ei chloc.

WALTER : Rhysyn bach, paid, er mwyn popeth, â'i hatgoffa o'r amser hwnnw. Mae'r bennod honno o'i hanes wedi'i

gloi a'i selio a does dim agor i fod arni. Ond dydy hi wedi newid yr un rhithyn yn fwy na thi oddi ar pan oeddit yn tynnu eithin yn dy glocs ar frest y Garn.

REES : Pam na fuasai Jane wedi piodi ? Rhaid ei bod wedi cael digon o gynigion.

WALTER : Disgwyl amdanat ti yn ôl o America, efallai.

REES : Wyt ti'n meddwl hynny ?

WALTER : Mae'n rhaid ei bod hi'n disgwyl am rywun.

REES : Sut mae'n gallu byw ? A oes tipyn o arian ganddi ?

WALTER : Fe gafodd swm gweddol a. ôl ei brawd—hi gafodd y cwbl, weld di. Ond ddaethost ti ddim yn ôl ffordd hyn i chwilio menyw ag arian, do fe ?

REES : Mae fy ffortiwn gen i. Dydw i ddim yn un o'r rhai sy'n cymysgu arian a chariad. Lawer gwaith yng nghanol mynyddoedd Califfornia, ddegau o filltiroedd oddi wrth y dyn agosaf, y cofiais i amdanaf yn hebrwng Jane adre o Eisteddfodau ac y cenais wrthyf fy hunan dan y sêr—
[canu neu adrodd]

“Cyfoeth nid yw ond oferedd,
Glendid nid yw yn parhau,
Ond cariad pur sydd fel y dur
Yn para tra bo dau.”

“Yes, Sir.” Does dim byd tebyg i gariad. A welaist ti Greta Garbo a Ronald Colman yn caru ?

WALTER : Naddo fi, wir.

REES : Wyddost ti, rwy'n llefain fel plentyn bob tro y gwelaf i nhw—cofio am y nosweithiau hynny y bûm i a Jane yn cerdded gyda'n gilydd adre o Eisteddfod. A minnau wedi mynd mor bell oddi wrthi, dros y môr ac i ganol y mynyddoedd, a meddwl fy mod wedi'i cholli am byth.

WALTER : Wel, mae Jane yma o hyd. Mae'n well i ti gadw yr areithiau yna iddi hi—gwastraff yw eu dweud o'm blaen i. Ond fe fyddai'n dda gen i petait ddim wedi sôn wrth Sara am y lecsiwn.

REES : Mae'n gyfle rhy dda i'w golli ; cyfle i ddangos i'r lle yma beth allaf i ei wneud mewn lecsiwn.

WALTER : Ond beth wyt ti'n olygu ei wneud ?

REES : Rhaid cael amser i feddwl am hynny. A wyt ti'n hollol siŵr nawr na allwn ni brynu John Edwards ? Rwy'n credu o hyd y byddai'n werth i roi cynnig da iddo.

WALTER : Rwy't yn siarad am brynu dyn fel prynu moehyn. Gorau i gyd po cyntaf y cei di'r syniad yna o dy ben.

REES : Rhaid i mi roi fy meddwl ar waith, ynte [*yn rhoi ei law ym mhoced ei hip ac yn tynnu allan fflasc*]. A'r peth cyntaf yw rhoi oil ar y whils. [*Yn gweld nad oes dim ar ôl yn y fflasc*]. Dim diferyn ar ôl. Fe af i fyny i'm hystafell. Mae gen i ddigon yno yn y bag. Mae'r “lubricant” yn siŵr o weithio a dangos rhyw gynllun i mi. A dyna'r peth cyntaf mewn lecsiwn—plan. Aros di yma ; fe ddof i i lawr yn y man ac fe gei di weld y bydd gen i gynllun yn barod.

[*Â allan drwy'r drws*].

[*Cyfyd WALTER ac â i'r drws i weld bod REES wedi mynd i fyny'r grisiau. Yna â i'r ffenestr i edrych allan i weld a oes perygl o gyfeiriad yr ardd. Daw yn ôl i ganol yr ystafell a thynn allan y bwndel allweddau o welwyd ar y dechrau yn nrôr y ddesg. Â at y ddesg ac y mae yn rhoi un o'r allweddau yn y drôr pan agorir y drws a daw SALI i mewn. Merch tuag ugain oed wedi'i gwisgo fel morwyn tŷ yw SALI. Clyw WALTER hi ar unwaith a thry ar ei sodlau yn gyflym gan geisio edrych yn ddiniwed iawn ond er ei holl ymdrech, golwg bachgen wedi'i ddal yn y cwprdd jam sydd ar ei wyneb*].

WALTER [*yn ddiamynedd*] : Beth sy'n bod ? Beth sy'n bod ? Beth wyt ti'n ymofyn y ffordd hyn yn awr ?

SALI : Mae yna ferch ddiertth wrth y drws eisiau eich gweld chi.

WALTER : Merch ddiertth eisiau fy ngweld i ! Paid â siarad dwli. Eisiau gweld dy feistres sydd arni. Defnyddia dy synnwyr, yn lle dod a neges ddwl felna i fi. Cerdd â hi at dy feistres.

SALI : Peidiwch â meddwl fy mod i am i chi ei gweld hi. Dydy hi ddim credit i neb.

WALTER : Sut ferch yw hi ?

SALI : Pen o wâl't cwrls a digon o bowdwr a lipstic.

WALTER [*wedi sylweddoli pwy yw hi*] : Ble mae hi ? Ble mae hi ? Adewaist ti ddim ohoni i'r tŷ, do fe ? Y Nefoedd a fo'n drugarog wrthyf ! Ble mae hi ?

SALI : Mae yn yr “hall.”

FFLORRI [*yn ymddangos yn y drws*] : Na, mae hi yn nes yma na'r “hall.” A dydy hi ddim yn bwriadu mynd o'r tŷ cyn cael “chat” fach â gŵr y tŷ.

[*Wedi dod i mewn ac wedi eistedd ar fraich y “Settee.”*]

WALTER [*wrth SALI.*]: Allan â thi! Allan â thi! A chaca'r drws yn ofalus.

[*SALI yn mynd er y rhoddai wythnos o gyflog am gael aros.*]

FFLORRI: Wel, wir, dyma beth yw tŷ braf. "French Windows" a chwbl.

WALTER: Beth ar wyneb y ddaear las a gododd yn eich pen chi i'm dilyn i y ffordd hyn . . .

FFLORRI: Feddyliais i erioed eich bod chi yn byw mewn tŷ mor grand.

WALTER: Os oes neges gennyh, dwedwch hi ar unwaith i chi gael mynd.

FFLORRI: O, oes, mae neges gen i, ond wedi gweld sut dŷ yr ydych yn byw ynddo, mae'n blino llai arnaf nag o'r blaen.

WALTER: Wel, dwedwch beth yw hi yn lle wastio amser fel hyn.

FFLORRI: Does fawr o frys arna i. [*yn codi ac yn eistedd ar y "Settee" a chroesi ei chliniau.*] Ac ystyried y croeso yr ydw i yn ei roi i chi yn y "Prince of Wales" fe fyddwn i'n disgwyl . .

WALTER: Y Nefoedd Fawr, beth wna i?

FFLORRI [*Yn cydio yng nghynffon ei got a cheisio ei dynnu i'r Settee. Mae yntau yn tynnu'r ffordd arall nes bod gwir berygl i'r brethyn rwygo.*]: Eisteddwch lawr fan hyn wrth fy ochr i am dipyn. Fe fydd yn llawer iawn mwy cysurus na phwyso ar far y "Prince of Wales."

WALTER [*Yn mynd yn rhydd o'i gafael*]: Y Nefoedd a'm gwaredo! Wyddoch chi ddim bod y ffenestr yna yn agored a bod y wraig yn yr ardd ac y gall hi ddod i mewn ar ein traws unrhyw funud?

FFLORRI: O! dyna beth sydd yn eich blino, ai e. Wel, pwy a wŷr, efallai y caf i "invitation" i aros i de ganddi.

WALTER: Beth wna i? Beth wna i? [*Bron â wylu.*] Miss Owen fach, gwrandewch arna i nawr. Ewch allan o'r tŷ ar unwaith heb i neb eich gweld chi.

FFLORRI: [*Yn tynnu "Cigarette Case" allan o'i bag.*]: Wel, gadewch i mi smocio un sigaret, beth bynnag. [*Yn rhoi'r sigaret yn ei cheg ac yn chwilio yn ei bag am fatsis.*]

WALTER [*Wedi colli ei dymwr ac yn tynnu'r sigaret o'i cheg a'i thafu i gornel y tu ôl i'r "Settee"*]: Edrychwch yma, ellwch chi ddim dod i'r tŷ hwn a gwneud fel y mynnwch—cerdded i mewn heb ofyn caniatâd . . .

FFLORRI [*Hithau wedi colli ei thymwr erbyn hyn*]: O'r gorau, fe af i

allan i'r ardd i ddweud wrth eich gwraig faint o arian sydd arnoch chi i'r "Prince of Wales." [*Wedi codi ac yn cerdded at y ffenestr.*]

WALTER [*Yn rhedeg o'i blaen ac yn ei gwrthio yn ôl i'r "Settee."*]: Peidiwch â siarad fel ynyd. Mae'n ddrwg gen i i mi golli fy nhymer yn awr.

FFLORRI: Fe allsw'n feddwl hynny, wir. [*Wedi gadael iddo ei gwrthio yn ôl i'r "Settee."*] Nid felna mae trin "lady visitor" yn eich tŷ.

WALTER: Ond, chi'n gweld eich hunan na ellwch chi ddim aros.

FFLORRI: Pam lai? Introdwswch fi i'ch gwraig fel rhywun y daethoch i'w hadnabod yn Nhre-cyll.

WALTER: Introdwsc chi . . .! Y Nefoedd a'm gwaredo!

FFLORRI: Beth fyddai o le yn hynny?

WALTER: A oes dim gronyn o synnwyr yn eich pen chwi! Beth ddaeth â chi yma?

FFLORRI: Rhywbeth y gall dyn sy'n byw mewn tŷ mor grand a hwn ei setlo yn rhwydd iawn. Mae'r bos wedi dweud bod bod eich bil chi wedi mynd yn rhy fawr a bod yn rhaid i chi ei setlo ar unwaith. A chan mai fi sydd wedi gadael i chi redeg bil mor fawr mae e'n fy nal i'n gyfrifol am yr arian.

WALTER: Dyna i gyd! Rydw i wedi rhoi fy ngair i chi y gwna i dalu pob dimai cyn gynted ag y gallaf i—fe ddwedais i hynny wrthych neithiwr ddiwetha.

FFLORRI: Do, neithiwr a'r wythnos ddiwetha a'r wythnos cyn hynny, ond nid oes dim argoel y gwelwn ni liw eich arian chi.

WALTER: Fe rois i hanner coron i chi neithiwr—dyna i gyd oedd gen i yn fy mhoced.

FFLORRI: Ydych chi'n disgwyl i mi gredu celwydd mor olau â hwnna—dyn yn byw mewn sut steil, mai dim ond hanner coron oedd ganddo yn ei boced.

WALTER: Roeddwn i'n dweud y gwir. Does gen i ddim ceiniog yn fy mhoced yn awr. Gellwch chwilio fy mhocedi.

FFLORRI: O'r gorau, eisteddwch ar y "Settee" fan hyn i mi gael gwneud hynny.

WALTER [*Yn tynnu'n ôl ar frys*]: Beth wnes i, beth wnes i, i orfod dioddef peth fel hyn?

FFLORRI: Mae'r bos yn dweud bod yn rhaid iddo gael yr arian

cyn diwedd yr wythnos, neu fe fydd yn rhaid i mi dalu o'm poked fy hunan. A dydw i ddim yn mynd i wneud hynny. Mae pymtheg swllt yn lot i mi, ond i ddyn sy'n byw mewn tŷ fel hwn dydy pymtheg swllt yn ddim. Dydw i ddim yn cyffro oddi yma hyd nes y caf i'r arian.

WALTER : Dwedwch wrtho fe y caiff e nhw cyn diwedd yr wythnos yn saff.

FFLORRI : Mae e wedi blino'n lân ar y stori yna. A ydych chi'n disgwyl i mi gredu na all dyn sy'n byw mewn tŷ fel hwn roi papur chweugain a dau bisyn hanner coron i mi heb wneud unrhyw ffys.

WALTER : Rydw i wedi dweud wrthyich, does gen i ddim dimai yn fy mhoced.

FFLORRI : Wel, rhowch siec i mi, ynte.

WALTER : Siec !

FFLORRI : Ie, siec. Chi'n gwybod beth yw siec. Mae'n siwr o fod llyfr siecs mewn tŷ fel hwn. [*Mae WALTER trwy'r holl olygfa yn mynd yn aml i'r ffenestr i edrych allan : wrth wneud hynny yn awr, gwél rywbeth a'i cynhyrfa yn ofnadiwy.*]

WALTER : Beth wna i ! Beth wna i !

FFLORRI : Gwnewch fel y mynnoch, ond yma rwy'n aros hyd nes y caf i'r arian neu siec.

WALTER : Rwy'n addo i chi y cewch chi nhw heno, neu yfory fan pellaf.

FFLORRI : Rydw i wedi clywed y stori yna mor aml fel nad yw hi'n tycio dim. [*WALTER yn rhoi un edrychiad trwy'r ffenestr eto.*]

WALTER : Does dim amdani, ynte. Arhoswch chi yma am funud ac fe af i geisio benthyca ; mae gen i ffrind ar y llofft. [*Rhed allan drwy'r drws. Eistedd FFLORRI yn dawel am ennyd Tynn allan sigaret arall ac y mae yn ei chynnau. Yna, cyfyd ac á i edrych allan drwy'r ffenestr ffrensh. Yn sydyn dengys ei bod wedi gweld rhywbeth diddorol ac yn y man, clywir lleisiau yn agosáu. Edrych FFLORRI o gwmpas ac ar ôl ennyd o synsfyrio rhed y tu ôl i'r "Settee" gan ddiffodd y sigaret wrth ei gwasgu yn erbyn ei sawdl. Daw MRS. MORGAN i'r golwg yn cael ei dilyn gan MRS. POWELL-PRYCE. Un o'r gwagedd hynny sy'n eu cyfrif eu hunain yn foneddigesau'r ardal. Y mae tua'r un oed â MRS. MORGAN.*]

MRS. MORGAN : Na, does neb yma, Mrs. Powell-Pryce. [*Deuant i mewn ill dwy.*] Ac eto, roeddwn braidd yn siŵr

fy mod wedi clywed lleisiau'n siarad i mewn yma. A gaf i ddanfôn y forwyn i chwilio amdano.

MRS. POWELL-PRYCE : Na, na, peidiwch â thrafferthu. Fel y dywedais, *rhaid* i mi fynd ymlaen i'r "Cedars." Rydw i wedi addo mynd yno i de.

MRS. MORGAN : Mae'n ddrwg iawn gen i. Mae e'n ddyn mor ddiddorol. Does dim munud anniddorol yn ei gwmi.

MRS. POWELL-PRYCE : O fe gaf i gyfle eto rywbryd.

MRS. MORGAN : *Rhaid* i mi drefnu iddo fe gwrdd â chi. Mae cymaint o "vitality" yn perthyn iddo ac y mae "vitality" yn "catching" wyddoch. Rwy'n credu y gall e ddylanwadu digon ar Mr. Morgan i'w berswadio i sefyll lecsiwn y "District Council."

MRS. POWELL-PRYCE : A ydych chi'n siŵr ei fod yn ddyn ariannog ?

MRS. MORGAN : O ydyw. Fe gafodd afael ar "gold mine" yn Chicago neu rywle. Mae'n rhaid ei fod yn filionêr ond ei fod e mor ddiymhongar ac yn ofni y daw p'bl i wybod hynny.

MRS. POWELL-PRYCE : Wel, mae'n rhaid i mi ei gyfarfod cyn yr aiff e nôl. Rydw i am "advice" dyn o'r fath yna ynglŷn â rhyw "shares" sydd gen i. Mae dynion felna yn gwybod pethau am y "Stock Exchange" na ŵyr neb arall, a rhaid i mi fanteisio ar y cyfle.

MRS. MORGAN : Dydw i ddim yn siŵr y dylaswn i ddweud wrthyich ond rwy'n siŵr na adewch chi ddim i'r peth fynd ymhellach. Rwy'n credu ei fod wedi cael gafael ar "gold mine" rywle yn yr ardal hon. Ddwedodd e ddim ym mhle ond fe addawodd y caem ni gyfle i brynu "shares" yn y Cwmni a fydd e'n ffurfio i'w weithio. Ccwiwch. cyfrinach fawr yw'r peth eto.

MRS. POWELL-PRYCE : Wel, os yw hyn yn wir, mae'n rhaid i minnau gael cyfle.

MRS. MORGAN : Fe roddaf i wybod i chi pan fydd e'n ffurfio cwmni. Fe fyddai'n drueni i chi golli siawns fel hyn,

MRS. POWELL-PRYCE : Diolch yn fawr. A *rhaid* i mi fynd yn awr. Rydw i wedi addo'n bendant i fynd i'r "Cedars"—ac fe gânt sut siom os nad af i—neu fe arhoswn i'w gyfarfod. Ond fe gaf i gyfle eto. [*WALTER yn rhuthro i mewn drwy'r drws ac wrth weld pwy sydd yn yr ystafell saif a'i geg yn agored. Mae ei lygaid yn chwilio'r ystafell ond y mae'r sioc wedi llwyr ddifodi ei allu i siarad.*]

MRS. MORGAN : Beth sy'n bod, Walter ?

WALTER : O ! A ! E !

MRS. MORGAN : A wyddoch chi ble mae Mr. Rees ?

WALTER : A . . . a . . . na . . . hynny yw . . .

MRS. POWELL PRYCE : Mae'n rhaid i mi fynd. Rwy'n ddiweddar iawn. Fe alwaf i eto yfory neu drennydd. Dewch i'm hebrwng, Mrs. Morgan. Prynawn da.

WALTER [*Yn gwneud ymdrech deg ond yn methu yngan "Prynawn da."*]

[*Ä'r ddwy allan drwy'r ffenestr.*]

[*Ä WALTER i'r ffenestr i edrych ar ei hól. Pan fo a'i gefn at y "Settee" cyfyd FFLORRI nes bo'i phen yn y golwg.*]

FFLORRI : A dyna feistres y tŷ, ai e ?

[*Try WALTER fel petai wedi clywed llais o'r bedd.*] Rwy'n deall nawr paham nad oeddech am i mi gwrdd â hi. [*Cyfyd a daw allan o flaen y "Settee"*]. Mae'r gobaith am "invitation" i de yn fach iawn, rwy'n ofni.

WALTER : Os dof i trwy'r prynawn yn fyw, fe seinia'r "pledge" am byth.

[*Clywir llais REES y tuallan.*]

REES : Ble'r wyt ti, Wat? Yn y "drawing room" ?

[*WALTER yn gwneud arwyddion cyffrous i FFLORRI i guddio y tu ôl i'r "Settee" eto. Hithau yn ufuddhau ond hytrach yn araf fel petai yn anfodlon. Daw REES i mewn trwy'r drws.*]

REES : Mae'r "oil" wedi gweithio fachgen. Fe ddwedais wrthyt y gwnâi. Scêm ardderchog—"dead cert." Daeth y syniad i mi fel fflach wedi i ti fy ngadael nawr—cyn i ti gyrraedd gwaelod y grisiau.

WALTER : Rwy'n erfyn arnat, Rhys, rho fenthyg y pymtheg swllt yna nawr i fi. Fe'u cei nhw nôl yfory, nesaf.

REES : Beth yw'r boddran sydd arnat yng nghylch pymtheg swllt a minnau wedi cael gafael ar rywbeth gwerth sôn amdano.

WALTER : Mae'r pymtheg swllt yna yn fwy i mi . . .

REES : Nawr, gwrando. Mae un rheol bendant gen i—dydw i byth yn ei thorri. Dim rhoi benthyg ceiniog i neb. Os oes eisiau arian arnat cerdd at y wraig neu rywun arall a phaid â'm boddran i pan fyddwyf wedi fy ysbrydoli, fel yr wyf yn awr. Daeth y scêm yma i mi fel fflach . . .

WALTER : Ond mae'n rhaid i mi gael yr arian . . .

REES : Nawr, anghofia rywbeth bach felna a gwrando arna i. Dyma sgêm orau'r greadigaeth—rwy'n teimlo'n falch mai i mi y daeth y syniad.

WALTER : Mae'r pymtheg swllt yna . . .

REES : Ydy'r John Edwards yna yn ddyn parchus ?

WALTER : Rydw i wedi dweud wrthyt nad ydw i'n hidio dim dimau'r delyn am y lecsiwn.

REES : Lecsiwn ! Fydd yna ddim lecsiwn. Dyna ogoniant y sgêm. Fe'i cnociwn ef allan heb lecsiwn. Nawr, dwed, a yw e'n ddyn parchus ?

WALTER : Ydy, ond . . .

REES : Yn briod ?

WALTER : Ydy, wrth gwrs, ond da thi gwrando . . .

REES : Yn byw gyda'i wraig ?

WALTER : Beth wyt ti'n feddwl ynte ? Gofyn cwestiynau dwl felna. Rydw i wedi cael . . .

REES : Dyna hi, ynte, mae'r scêm yn "watertight". Y cwbl sydd eisiau i ni ei wneud yw ei gompromeiso fe gyda rhyw fenyw o flaen rhywrai a fydd yn sicr o adrodd y stori amdano dros yr holl le a, ffyt, dyna fe allan ohoni gan adael y maes yn rhydd i ti. Fedr dyn sydd wedi'i gompromeisio ddim sefyll lecsiwn.

WALTER : Dwn i ddim beth ar ddaear Duw yr wyt ti'n glebran ond os na roi di fenthyg . . .

REES : Y cwbl sydd gyda ni i'w wneud yn awr yw cael gafael ar ferch a thipyn o ysbryd ynnddi i daflu ei breichiau yn dynn am ei wddf a dal ei gafael a gweiddi o flaen tystion ei fod ef wedi'i thwylo, a dyna ddiwedd ar John. Ddal e mo'i ben i fyny am chwe mis o leiaf. Wrth gwrs fe fydd yn rhaid talu'r ferch yn dda—yn dda iawn ac fe fydd yn rhaid i ti ofalu am yr ochr honno o'r fusnes, a chamgymeriad mawr a fyddai bod yn gybyddlyd mewn mater mor ddelicêt â hwn. Talu'n dda am wasanaeth da—dyna real Chicago.

WALTER : Petai ti'n stopio sôn am gael arian at ryw scêm felna a meddwl am ffordd i mi gael pymtheg swllt yn glau . . .

REES : Os na elli di ffeindio'r arian fe wna Mrs. Morgan mi wn, ar unwaith. Fe allwn ei alw'n "election expenses." Ond y cwestiwn pwysicaf sydd gennym i'w setlo yw lle cawn ni afael ar ferch dda at y gwaith.

FFLORRI [*Yn codi y tu ôl i'r "Settee."*] : Dyma un "candidate."

REES [*Yn troi ac yn cadw ei hunanfeddiant er gwaethaf y sioc.*] : Wel, wel, wel. A dyma'r esboniad am dy antics di Wat y prynhawn yma. Wel, wel, feddyliais i erioed dy fod ti'n gymaint o dderyn, bod digon o ysbryd ynot i hyn. Ond dyna fe, does dim posib adnabod dyn hyd nes y caiff e ei ddal. [*Mae FFLORRI wedi dod o'r tu ôl i'r "Settee" erbyn hyn.*] Sut ydych chi, Miss . . . ?

FFLORRI [*Yn hollol hunanfeddiannol*] : Owen.

REES : Wel, Miss Owen, Rees yw'n enw i.

FFLORRI : O does dim eisiau i chi introduiwso'ch hunan. Rydw i wedi clywed eich hanes chi i gyd. Byddai'n anodd i chi gredu faint o bethau a glywais o'r tu ôl i'r sofffa yna y prynhawn yma.

WALTER : Miss Owen, rwy'n erfyn arnoch i fynd nawr, cyn y daw'r wraig yn ôl. Fe ffeindia i bymtheg swllt i chi erbyn fory hyd yn oed petai'n rhaid i mi roi fy watsh mewn "pawn-shop."

REES : Na, na, arhoswch funud. Mae yna rywbeth llawer iawn pwysicach na'r pymtheg swllt yna i'w setlo. Fe gewch chi'r rheiny yn iawn—fe ofalaf i am hynny. Ond beth am eich help gyda'r sgêm arall yma ?

WALTER : Dwyt ti ddim o ddifri, Rhys, wyt ti ?

REES : Wyt ti'n meddwl yr awn i i'r holl drwbwl onibai fy mod i o ddifri ? Rydw i wedi addo rhoi'r llythrennau D.C. ar ôl dy enw ac yr wyf yn mynd i wneud hynny. Ni elli di na neb arall fy rhwystro yn awr. Beth amdani Miss Owen ? Dyma yr hyn yr wyf am i chi ei wneud.

FFLORRI : Fe glywais i'r cwbl. Mae'r sgêm yr un fath ag un a welais mewn ffilm rhyw bythefnos yn ôl. Beth oedd ei henw hi nawr ?

REES : Na hidiwch am y ffilm—fy syniad i fy hunan yw hwn ac nid o unrhyw ffilm y cefais i e—o fy mhen i fy hun y daeth. Y cwestiwn nawr yw, a ydych chiwi yn fodlon helpu ?

FFLORRI : Ydw, os caf i fy nhalu'n dda.

REES : Na ofidiwch am hynny. Fe gewch chi'ch talu'n dda.

WALTER : Rwy'n golchi fy nwylo o'r cwbl. Rhyngot ti, Rhys, a'r fusnes i gyd.

REES : Ie, ie, gad ti'r fusnes i mi a Miss Owen—ynte, Miss Owen.

[*Gwél DEMETRIUS yn sefyll yn y ffenestr a phan sylweddola hwnnw ei fod wedi'i weld daw ymlaen. Ni w'yr WALTER, yn iawn, beth a wna ond y mae REES a FFLORRI yn dawel iawn.*]

DEM. [*wrth ddod ymalen*] : Roeddwn yn digwydd pasio a meddyliais y daethwn a rhestr pobl yr Orsedd i chwi fel yr addewais. [*Yn ymestyn papur i REES.*]

REES : Diolch yn fawr. Diolch yn fawr.

DEM. : Fe ddylwn egluro nad wyf yn sicr iawn . . .

REES [*yn ei wthio tuag at y ffenestr.*] : Rywbryd eto, Mr. Jones, rywbryd eto. Rydym ni ein tri ar hanner "conference" pwysig ac felly ni allaf fynd i mewn i'r mater hwn yn awr. Ond diolch yn fawr i chwi am y rhestr—fe wnaif i o'r gorau yn awr. Pnawn da, Mr. Jones. [*Mae DEMETRIUS erbyn hyn y tu allan i'r ffenestr.*]

DEM. : Ie, wel, ie, pnawn da. [*A chan edrych yn syn ar FFLORRI diflanna.*]

REES [*yn dod yn ôl*] : Nawr, cyn bo neb arall yn dod ar ein traws, ble cawn ni afael arnoch chi, Miss Owen, i ni gael setlo popeth.

FFLORRI : Rwy y tu ôl i far y "Prince of Wales" yn Nhre-cyll yn ystod oriau agor, bob amser.

REES : Ardderchog. Nawr, fe fydda i i lawr yno heno i setlo'r manylion.

FFLORRI : Beth am y pymtheg swllt ?

REES : Peidiwch chi a phryderu ynghylch mater bach felna pan fo arian mawr i chi yn y gwynt.

WALTER : Faint o amser ydych chi eich dau yn mynd i aros man yna yn clebran a Sara yn debyg o ddod yn ôl unrhyw funud.

REES : Ie, gwell i chi fynd nawr, Miss Owen. Fe ddof i i'ch gweld chi heno neu bore fory.

FFLORRI : O'r gorau. Fedra i ddim dweud wrthyich sut yr wyf wedi mwynhau fy hun y pnawn yma—llawer gwell na thro i'r pictiwr. Gwdbei, neu, fel mae'n nhw'n dweud mewn ffilmiau, "I'll be seeing you." [*Allan drwy'r drws.*]

REES : Feddyliais i erioed bod digon o fynd ynot ti Wat i gael gafael ar ferch bert felna. Sut wyt ti'n gallu cadw'r peth yn ddistaw, fachgen. Mae'r hen ddywedriad yn eithaf gwir—"Ci distaw sy'n cnoi."

WALTER : Paid â siarad fel vnfyd.

REES : O ! O'r gorau, os wyt ti mor groen-denau ynghylch y peth, ddweda i ddim gair yn rhagor. Ond fe ddylit fod wedi mynd a fi i'r "Prince of Wales" neithiwr. Beth am yfed iechyd da i'r "District Councillor" newydd. Rwy'n haeddu diferyn, ond ydw i? [*Tynn fflasc allan o'i boced ei hip ac ar ôl dad-sgrivio'r top, mae'n ei hymestyn i WALTER.*] Fynnu di ddiferyn?

WALTER [*gyda theimlad*] : Ar ôl heddiw, dydw i ddim yn credu yr yfa i ddiferyn fyth eto.

REES : Fel y mynnot. Wel, iechyd da i Walter Morgan, D.C.

A thra bo'n yfed disgyn y Llen yn gyflym.

ACT II.

Yr un olygfa prynhawn ail-trannoeth i Act I. Daw GEINOR i mewn trwy'r drws, hytrach yn llechwraidd : â i'r ffenestr ac edrych allan cyn mynd at y ddesg. Cydia mewn darn o graig sydd ar ben y ddesg, edrych arno am eiliad ac yna, wrth glywed rhywun yn nesáu at y drws distanna mor ddistaw a llechwraidd a chath trwy'r ffenestr, â'r darn craig yn ei phoced. Yn syth daw REES i mewn drwy'r drws ac â yntau at y ddesg ac y mae'n amlwg ar unwaith ei fod yn chwilio am y darn craig sydd ym mhoced GEINOR. Ar ôl gweld nad yw ar y ddesg â ar ei liniau i chwilio'r llawr o'i chwmpas. Mae'n amlwg ei fod yn awyddus iawn i gael gafael arno. Cyfyd, chwilia ym mhob poced ac yna â ar ei liniau eto fel petai'n methu credu ei fod wedi'i golli. Pan fo ar ei liniau daw GEINOR i mewn drwy'r drws eto.

GEINOR : Hello ! Beth ydych chi'n ei wneud ? Gofyn bendith ar y Cwmni Aur newydd yma ?

REES [*yn codi*] : Geinor, mae rhywun neu rywrai wrth waith brwnt yn ceisio distrywio'r Cwmni eisoes.

GEINOR : Does yna neb yn gwybod am y Cwmni eto, oes e ?

REES : Wyddost ti ddim. Wyddost ti ddim. Mae rhywun wedi methu â dal ei dafod ac y mae'r hanes wedi mynd ar led. Ond fe setla i â nhw. Dydyn nhw ddim wedi sylweddoli eto yn erbyn pwy y maen nhw'n gweithio. Fe setla i â nhw.

GEINOR : Beth sy'n bod ? Beth oeddech chi'n ei wneud ar eich gliniau.

REES : Mae darn o fwyn aur yr oeddwn wedi'i adael ar y ddesg yma wedi diflannu ; fel petai wedi magu pâr o adennydd a hedfan allan drwy'r ffenestr.

GEINOR : Ni fyddwn i yn dweud ei bod yn hollol amhosibl i ddim a berthyn i chi wneud peth mor rhyfedd â magu adenydd. Ond, a bwrw nad hynny a ddigwyddodd y tro hwn, sut ydych chi mor siŵr mai ar y ddesg y gadawsoch chi e, a sut y gwnaeth dyn fel chi wneud peth mor ddiotal â'i adael ar y ddesg yna yn barod i ddwylo unrhyw un a ddoi i mewn drwy'r ffenestr.

REES : Dim ond ei roi am eiliad a wnes i wrth ysgrifennu llythyr yn y man hwn, ond anghofiais bopeth amdano pan ddaeth dy fodryb i mewn i 'ngalw i "lunch."

GEINOR : O, wel, os gwnaethoch beth mor ddiotal â hynny, roeddech yn haeddu ei golli.

REES : Rwy'n mynd i gael gafael ar bwy bynnag a aeth ag e, Geinor, hyd yn oed os bydd yn rhaid i mi dreulio wythnos i wneud hynny. A, wedyn, wel, fe gânt wybod ffordd Chicago i ddelio â phobl o'r fath.

GEINOR : Ond, os nad oes drwg gofyn, pam y mae'r darn craig mor werthfawr. Mae digon ar ôl yn y man lle cawsoch chi e, ond oes ?

REES : Dyna'r feri peth y mae pwy bynnag a aeth ag e yn disgwyl i mi ei wneud, eu harwain yn syth at y wythien aur. Dyna'r trap ond y mae'r bachgen hwn wedi codi'n rhy fore i syrthio i drap felna. Rydw i wedi bod yn chwarae'r gêm yng Nghalifornia. "Slippery Rees" oedden nhw'n fy ngalw i yno.

GEINOR : Wel, pam ydych chi'n gofidio ynte ?

REES : Oherwydd bod yna berygl bod y lleidr yn gwybod digon am greigiau i adnabod y man lle cefais i e. Dyna'r perygl a dyna paham y mae'n rhaid i mi wybod pwy yw'r dyn.

GEINOR : Neu fenyw.

REES : Beth wyt ti'n ei feddwl.

GEINOR : A ydych chi'n sicr na wnaethoch chi a Nwncwl roi gormod o ffrwyn i'ch tafodau yn y "Prince of Wales" neithiwr. Mae'r "barmaid" yna wedi codi cyn brecwast.

REES : Na, soniwyd yr un gair am y peth. Fe ofalais i am

hynny. Nawr, a welaist ti rywun diertth o gylch y tŷ yma heddiw, neu yn yr ardd neu rywle?

GEINOR : Na, dydw i ddim yn credu—do, rwy'n cofio nawr, bu dyn sy'n hogi cyllyll a siswrnau yn siarad am sbel â Sali.

REES : Wyt ti'n siŵr?

GEINOR : Do, fe'i gwelais yn siarad â hi am dipyn a wedyn, wrth fynd i ffwrdd, bu yn siarad â Nwncwl yn y lôn.

REES : Nawr, dyna rywbeth y mae'n rhaid holi amdano. A wyt ti'n meddwl y gellid breibio Sali i ddwyn y garreg yna?

GEINOR : Wel, fyddwn i ddim yn hoffi credu hynny, ond chwi wyddoch faint mae "perms" a sanau silc yn gostio y dyddiau hyn. A disgwylir i forwyn wisgo cystal, os nad yn well, na'i mesitres.

REES : Reit, "Suspect No. One," Sali. Nawr, beth am dy Nwncwl?

GEINOR : O, peidiwch â'i wneud ef yn "Suspect No. Two."

REES : Drwgdybio pawb, dyna fy moto i, Geinor, pawb.

GEINOR : Wel, beth amdana i?

REES : Roeddwn yn dy ddrwgdybio di, hefyd, ond wedi'r ffordd ddiniwed yr atebaist y cwestiynnau a ofynnais iti, mae'n amlwg na wyddost ti ddim am y fusnes. Rwy'n hen law ar y croesholi yma. Beth am dy Nwncwl?

GEINOR : Mae'n rhaid dweud ei fod e'n achwyn yn ofnadwy ar ei lwans wythnosol . . .

REES : Dyna fe, weld di! "Suspect No. Two." Os gelli di weld motif, Geinor, ac y mae digon o fotif gan Sali a Walter, dyna dri chwarter y peth. Dyna paham y mae'n rhaid chwilio am fotif yn gynta peth bob tro. Fe setlwn i'r fusnes yma nawr cyn pen chwarter awr.

GEINOR : Efallai bod y ddau ynddi, yn cyd-weithio.

REES : Dyna syniad "A.I." Geinor. Rwy't yn siwr o fod yn iawn. Mae defnydd detectif ardderchog ynot ti.

GEINOR : Wel, fe welais Nwncwl yn siarad yn ddistaw bach â Sali bore heddiw.

REES : Fuost ti'n gwrando?

GEINOR [*yn ffugio bod ar ei digniti*] : Mae hwnna'n gwestiwn rhy bersonol, Mr. Rees. Dydw i byth yn meindio busnes neb arall.

REES : Camgymeriad mawr, Geinor. Wrth feindio busnes pobl eraill y deui di ymlaen yn y byd yma. Chlywaist ti ddim o'r siarad?

GEINOR : I fod yn hollol onest, do. Fe glywais Nwncwl yn dweud wrth ymadael, "Cofia di, Sali, dim un gair with enaid byw."

REES : Nawr, dyna damaid o "evidence" sy'n ddigon i'w crogi. Rhaid i mi gael y ddau yma a'u rhoi nhw trwyddi. Fe wn i'r ffordd i gael y gwir allan ohonyn nhw.

GEINOR : W! "Third Degree," Mr. Rees.

REES : Ie, Geinor, fe gei di weld sut yr ydym yn gweithio yn Chicago.

GEINOR : Y ddau gyda'i gilydd?

REES : Ie, ie. Maent yn llawer mwy tebyg o ollwng y gath o'r cwd gyda'i gilydd. Fe wn i'r ffordd.

GEINOR : A oes sigâr gyda chi?

REES : Sigâr? I beth?

GEINOR : Mae'n rhaid i bwy bynnag sy'n holi gael sigâr yn ei geg. Wyddoch chi'r ffordd i'w throï o un cornel o'ch ceg i'r llall heb gwrdd â hi a'ch dwylo?

REES : Wrth gwrs. Fe gei di weld y "real stuff." Os na chaf i'r gwirionedd allan o'r ddau yna mewn pum munud . .

GEINOR : Ble byddan nhw'n eistedd? Rhaid i chi drefnu'r ystafell.

REES : Fan hyn. [*Yn gosod dwy gadair.*] Yn wynebu'r golau.

GEINOR : A chithau a'ch cefn at y golau, cofiwch.

REES : Nawr, cer di i'w hymofyn. A phaid â dweud gair beth yw'r rheswm. A chofia, dydyn nhw ddim i siarad â'i gilydd ar y ffordd. Dere â nhw un ar y tro.

GEINOR [*wrth redeg at y drws*] : Cofiwch, rhaid i chi beidio â bod yn rhy gas. [*Allan.*]

[REES yn tynnu sigâr allan o boced ei wasgod, yn edrych arni'n ofalus ac yna yn cnoi ei blaen i ffwrdd ac yn mynd i'r ffenestr ffrensh i boeri'r tamaid sydd yn ei enau allan. Yna, gesyd y sigâr yn ei geg gan ei rholio o un ochr i'r llall, fel petai'n practeisio. Erys am eiliad i stydio lleoliad y ddwy stól, symud hwy rhyw fymryn ac yna, fel petai yn fodlon ar eu sefyllfa, y mae'n cynnau ei sigâr.

Egyr y drws a gwelir GEINOR yn gwithio SALI i mewn, a honno'n protestio'n hyawdl. Y mae yn ei ffedog waith.]

SALI : Ond y mae llestri cinio ar hanner ei golchi . . .

GEINOR [*wrth gau'r drws a mynd allan*] : Dyma un, Mr. Rees.

SALI : A dydw i ddim wedi dechrau paratoi tē a mae Mrs. Powell-Pryce yn dyfod yma a phopeth.

[*Ni ddywed REES air. Eithr edrych arni o dan ei aeliau a'r sigâr ar slent yn ei geg, fel petai yn ceisio ei mwydro. Mae SALI wrth weld yr olwg ar ei wyneb yn dechrau sylweddoli bod rhywbeth rhyfedd yn y gwynt.*]

SALI : Beth sy'n bod ?

REES [*yn fygythiol*] : Eisteddwch fan hyn. [*Yn pwyntio at y stôl.*]

SALI : Ond does gen i ddim amser i eistedd. Beth ddwedai meistres petai'n gwybod bod llestri cinio . . .

REES [*yn fwy bygythiol.*] : Eisteddwch fan hyn.

SALI [*yn croesi at y stôl mor bell oddi wrtho ag y gall ac yn eistedd yn syth.*] A mae'r tê gen i i'w wneud.

[*Clywir llais WALTER y tu allan yn protestio. Egyr y drws a daw i mewn a GEINOR ar ei ôl.*]

WALTER : Wedi cael gafael ar un cornel tawel yn y tŷ yma ac wedi cael gafael ar hŷn esmwyth a dechrau cau fy llygaid, roedd yn rhaid i ti ddod a sbwylio'r cwbl. Rhysyn, beth yw'r dam nonsens hyn ? Dydw i ddim wedi cael hŷn ar ôl cinio wedi i ti ddod i aros yma. Rwy'n eitha bodlon i ti droi'r tŷ yn bendramwnwgl ond os na cha i nap ar ôl cinio dydy bywyd ddim gwerth ei fyw. [*Yn gweld REES yn llygadrythu arno.*] Beth sy'n bod ? Rwy't yn edrych yr un peth yn gwmws a Hitler yn un o'i hwyliau drwg.

REES : Eistedd fan hyn. [*Yn pwyntio at y stôl wag.*]

WALTER : A beth mae Sali yn ei wneud yma ?

REES [*yn uwch.*] : Eistedd fan hyn.

[*WALTER yn croesi ond er mwyn ceisio dangos nad oes ofn REES arno, y mae'n ei basio yn hollol ddihidio ac yn eistedd yn ymyl SALI. Eistedd GEINOR ar y "Settee" ac er ei bod yn cael ambell bwl o chwerthin, llwydda i'w lywodraethu yn syndod o dda gyda chymorth ei chadach poced. REES yn cerdded yn ôl a blaen am ennud gan rollo ei sigâr yn fygythiol. Yna, try yn sydyn gan dynnu'r sigâr o'i geg yr un pryd a phwyntio atynt â'r llaw sy'n dal y sigâr.*]

REES : Faint o afian ydych chi'ch dau yn ei gael am y fusnes hyn ?

WALTER : Petai ti Rhysyn yn gadael yr holl "science" yna a dweud fel dyn synhwyrol beth sy'n dy gorddi di . . .

REES : Pwy yw'r dyn sydd wedi'ch prynu chwi ? Mae'n rhaid i chi ddweud cyn yr ewch chi o'r ystafell yma.

WALTER : Geinor, a elli di ddylanwadu peth arno.

REES : Mae'n well i chi gyfaddef ar unwaith, rwy'n gwybod y cwbl.

WALTER : Rwy't yn gwybod mwy na fi, ynte.

REES : Rwy'n rhoi un siawns i chi eto. Os dwedwch chi wrthyf i pwy yw'r dyn a ble mae e'n aros, wna i ddim rhagor i chi.

SALI [*yn mentro*] : Miss Geinor, a oes raid i mi aros yma. Allech chi ddim dod i ben hebof i ?

REES : Geinor, paid ag ateb. Mae'n amlwg bod yn rhaid gwneud rhywbeth heblaw holi. Caua'r ffenestr yna.

[*Yn troi'n ôl at WALTER yn sydyn nes gwneud i hwnnw neidio ar ei stôl.*] Glywaist ti sôn am "third degree" ?

WALTER [*yn dechrau cael ei ofn*] : N . . . n . . . naddo fi. [*Mae SALI o hyd yn syndod o dawel.*]

REES : Wel, rwy't yn mynd i gael gwybod y pnawn yma. A chithau, [*wrth SALI nes gwneud i honno neidio. Try at GEINOR.*] A oes rhywun arall yn y tŷ ?

GEINOR : Mae modryb ar y llofft yn cael nap.

REES : Does dim gwahaniaeth os gwna'r sgrechain ei dihuno.

[*Y sigar yn ôl yn ei ben. Saif ar ganol y llwyfan ag osgo bygythiol.*]

Pan fydda i wedi gorffen â chi fe fyddwch yn mellthio'r dyn a'ch temtiodd i'm croesi. Ond fe roddaf un cynnig i chi eto. Prun ohonoch a ddygodd y darn o fwyn aur yna amser cinio ?

SALI [*yn neidio ar ei thraed*] : Ydy'r dyn hwn yn beiddio dweud fy mod i yn lleidr ? Rwy'n mynd i ddweud wrth meistres ar unwaith. Does neb yn mynd i gael fy nghyhuddo i . . .

REES [*yn fygythiol eto ond y mae SALI yn dal ei thir*] : Fe wna i ragor na hynny. [*Try gam neu ddau i ffwrd ac yna try yn ôl gan saethu'r cwestiwn.*] Beth oedd y siarad a fu rhyngoch â'r dyn hogi cyllyll bore heddiw ? [*Mae'r ergyd wedi mynd adre a syrth SALI yn ôl i'w stôl.*] E ? E ? Rwy'n gwybod gormod, ond ydw i ?

SALI : Wnes i ddim drwg i neb. Ac nid dwyn oedd e.

REES [*gydag eironi mawr*] : Dim drwg i neb ! Nid dwyn oedd mynd â'r darn mwyn yna o ben y ddesg !

SALI : Welais i ddim o'ch hen ddarn mwyn chi. Wn i ddim beth yw darn o fwyn. Siarad ydw i am bâr o sanau maestr a roddais i i'r dyn hogi cyllyll ac yr oedd tyllau yn eu sodlau y gallech chi roi eich pen trwyddyn nhw. Roedd meistres

wedi dweud eu bod nhw yn rhy ddrwg i'w trwsio. Nid dwyn oedd rhci'r rheiny i'r hen ddyn.

REES : O Ie ! A dyna'r holl siarad a fu rhyngoch ?

SALI : Ie, ac os ydych chi am wybod a oedd mesitres wedi dweud wrthyf am daflu'r sanau i ffwrdd, rwy'n fodlon i chi ofyn iddi.

REES : Neis iawn. [*Yn newid ei lais*]. A faint o arian a basiodd rhyngoch a pha bryd y rhoisoch chi'r darn mwyn iddo ?

SALI : Rydw i wedi dweud . . .

REES [*yn torri ar ei thraws ac yn dal y llaw â'r sigâr o fewn troedfedd i drwyn WALTER*] : A beth fuodd e'n ddweud wrthyf ti ? Achwyn ar "size" y tyllau oedd yn y sanau, neu beth ?

WALTER [*mae'n amlwg bod REES wedi cael ergyd adre eto*] : Fûm i ddim, fûm i ddim yn siarad â'r dyn. Welais i ddim ohono. Pwy oedd e ? Wn i ddim am beth yr ydych yn siarad.

REES : Yr ydym yn dod at wreiddyn y mater yn awr. Wyt ti'n gwadu na fuost ti'n siarad â'r dyn yna oedd yn hogi cyllyll ar yr heol bore heddiw ? Cymer amser cyn ateb.

WALTER : O ! yr hen drampyn yna sy'n dod i hogi cyllyll ? Do fe fûm yn dweud gair neu ddau wrtho.

REES : Ho ! Felly. [*Yn newid ei lais*]. A faint o arian basiodd rhyngoch ?

WALTER : Dydy e'n ddim gwahaniaeth i ti nac i neb arall faint o arian a basiodd rhyngom. Busnes i fi ac yntau yw hynny.

REES : Ai e'n wir ? [*Yn codi stem ac yn chwifio'r sigâr ryw ychydig o fodfeddi oddi wrth drwyn WALTER nes bod hwnnw yn cilio'n ôl gymaint ag a all*]. Wyddost ti beth yr wyt wedi'i wneud ? Busnes i chi eich dau ai e ? Wyddost ti ddim dy fod wedi peryglu bodolaeth fy Nghwmni Aur i, y gall y cwbl fynd yn ffradach o'th herwydd di ? Busnes i chi'ch dau, ai e ? A ble'r ydw i'n dod i mewn ? Fi wedi dod yma o Chicago, i wneud lles i'r pentre, rhoi cyfle i bawb i wneud arian, dy wneud di yn D.C. . . .

WALTER : Dydw i ddim am fod yn D.C.

REES : Fe fyddi, prun a wyt am hynny neu beidio a hynny cyn diwedd y pnawn yma. Nawr, ateb un cwestiwn. Faint o arian a basiodd rhyngoch bore heddiw ?

WALTER : Os oes rhaid i ti gael gwybod, ceiniog.

REES : Beth !

WALTER : Ceiniog, rwy'n ei ddweud wrthyf. Bob tro mae e'n cael pâr o sanau ar fy ôl i, mae cytundeb rhyngom ei fod yn rhoi ceiniog i mi, dwy geiniog os byddan nhw'n sanau gweddol.

[*GEINOR yn torri allan i chwerthin yn ddi-lywodraeth*]

REES : Geinor, bydd yn rhaid i mi dy droi allan.

GEINOR : Alla i mo'r help. Ha ! Ha ! Ha !

REES : Wyt ti'n credu'r ffwlbri hyn ?

GEINOR : Mae'n rhaid ei gredu. Fedrai neb lunio stori fel hon ar y foment. Ha ! Ha !

REES : Stori oedd y ddau wedi'i pharatoi i daflu dwst i'm llygaid i yw hi. Rwyf wedi sbwylio'r cwbl â'th chwerthin. Camgymeriad oedd i mi dy adael i aros yma. Dylaswn wybod sut y byddai hi. [*Gwél wyneb DEMETRIUS yn y ffenestr ffrensh.*] Dyma rywun ar ein traws. Fedra i wneud dim rhagor yn awr. Ond, dydw i ddim wedi goiffen â chi eich dau, nac ydw, o bell ffordd. A rhaid i chi gael gwell stori na honna erbyn y tro nesaf. Fe ellwch fynd yn awr. [*Rhed SALI allan ar unwaith*].

WALTER : Fe hoffwn i wybod pwy sydd wedi rhoi'r hawl i ti fy nghroesholi i fel hyn.

REES : Rwy'n mynd i siarad â thi eto. Bant â thi yn awr ; mae arnaf eisiau siarad â Mr. Jones. [*Yn pwyntio at y ffenestr*].

GEINOR : O ! fe sydd yna, ai e ? Fe ddeuaf gyda chwi, NWCWL. [*Â WALTER allan a GEINOR ar ei ôl ac â REES at y ffenestr ffrensh i'w hagog. Daw DEMETRIUS i mewn â gwisg yr Orsedd ar ei fraich. Sieryd wrth ddyfod i mewn*].

DEM. : Fe gefais eich neges a dyma'r wisg i chi.

REES : Dewch ymlaen i mi gael ei gweld hi.

DEM. : Chi'n gwybod wrth gwrs bod yna wahanol wisgoedd i'w cael—mae'n dibynnu pwy Urdd yr ydych yn perthyn iddo. Gwisg Urdd Cerdd Ofydd yw hon . . .

REES : Ni fydd neb yn America yn gwybod y gwahaniaeth rhwng un a'r llall. Mae'n edrych yn beth pert iawn.

DEM. : Mae arnaf ofn y bydd dipyn yn rhy fach i chi. Mae'n siŵr o fod yn rhy hir.

REES : Does dim gwahaniaeth am hynny. Rhaid i mi ddweud wrth y ffotograffer am ofalu peidio â dangos dim dan waelod y wisg yn y ffotograff, dyna'i gyd.

DEM. : O ! rydych yn bwriadu tynnu'ch llun.

REES : Ydw, ydw. Dyna'r syniad. Chi'n gweld, rwy'n siŵr na fydd gen i ddim amser i fynd i'r Eisteddfod wedi'r cwbl, a feallai y bydda i wedi cychwyn am Chicago cyn hynny. Ond rwy'n benderfynol o fynd â'r llun yn ôl gennyf—dydy "Welsh Willie" ddim i gael fy nghuro. Ac wrth feddwl am y peth, fe ddaeth sgêm dda i fy mhen. Beth sy'n fy rhwystro rhag tynnu fy llun yn y wisg cyn yr Eisteddfod ? Dim ! Dim ! A dyna setlo'r cwbl ac fe anfonais y nodyn yna i chi i ofyn am y wisg.

DEM. : Ond, dydw i ddim yn siŵr y gwedda i mi wneud hynny—hynny yw, rhoi benthyg y wisg i chi i'r pwrpas hwn.

REES : Peidiwch â gofidio dim. Fe ddanfonais i gylchlythyr at y bobl hynny y rhoddasoch eu henwau i mi yn dweud fy mod yn fodlon talu, a thalu'r dda, a gofyn beth oedd eu pris nhw. Ac fe gefais ddau ateb y bore yma. Ble maen nhw ? [*Yn chwilio yn ei bocedi*].

DEM. : Dim ond dau gawsoch chi ?

REES [*yn cael gafael ar ddau lythyr*] : Ie, ond y maent yn dangos sut y mae'r gwynt yn chwythu. Mae'r lleill yn siŵr o ddod. Chi'n gweld, mae pris gan bob dyn, a rhaid dweud, mae'r ddau sydd wedi ateb yn rhesymol iawn eu pris. Mae un boi, [*yn dangos y llythyr*] fe allem feddwl mai pregethwr yw e, yn dweud y byddai'n ddiolchgar iawn am bum punt at y gronfa i gael "harmonium" newydd yn y Capel. Syniad da iawn. Mae'r boi hwn [*yn dangos yr ail lythyr*] wedi codi'n fore iawn. Mae e'n dweud [*yn darllen o'r llythyr*] y byddai "yn falch iawn petaech yn gweld eich ffordd yn glir i roi cymorth i mi fynd i'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth i wneud *research*. Byddwn yn ei theimlo yn ffrainc i gydnabod wrth gyhoeddi ffrwyth fy ymchwil fy mod wedi cael help sylweddol gan un o garedigion y diwylliant Cymreig o Chicago." Ffordd dda i ofyn am help i gael gwyliau ar lan y môr !

DEM. : Dim ond dau ateb a ddaeth ?

REES : Ie, ie, ond mae'r lleill ar y ffordd.

DEM. : Fe fyddai'n well gen i petaech chi'n dod i'r Eisteddfod yn rheolaidd . . .

REES : Wel, mae hynny'n amhosibl. Dyma'r unig ffordd amdani. A nawr mae'n well i chi ddangos i mi sut y mae

gwisgo'r paraffernalia hwn i gyd. Prun ydw i'n ei wisgo gyntaf ?

DEM. : O ! hwn. [*Yn dal y gŵn i fyny*].

REES : A sut ydw i i ddringo i mewn i hwnna ?

DEM. [*yn dangos iddo*] : Fel hyn.

REES : O ! rwy'n gweld. [*Yn siarad a'i ben o'r golwg yn y gŵn*]. Ffotograff lliw ddylwn i ei gael, wyddoch, ond mi wn na fyddai'r "Chicago Illustrated" yn foddlon cael un lliw ac felly dydy hi o fawr werth i mi gael un. [*Ei ben yn y golwg*]. Beth nesaf ?

DEM. : Hwn, ar eich pen fel hyn.

REES : O, felna ai e ? Dwedwch, pwy infentiodd sut wisg a hon ? [*Yn rhoi'r sigâr yn ôl yn ei ben*]. Nawr te ! Ble mae'r "looking-glass." [*Â i'r cornel ger y ddesg a gwna ystumiau o flaen y drych*]. Ardderchog ! Fe fydd y llun yn "sensation" yn Chicago. Wyddoch chi, mae gwisgo'r rhain wedi fy ngwneud i deimlo yn farddonol eisoes. Petawn i ddim ond cael hanner cyfle, rwy'n siŵr y gwnawn i ysgrifennu cwpl o benillion mewn ychydig o funudau. Dwedwch, faint ydych chi'n ymofyn am y dillad yma ?

DEM. : Dydw i ddim yn siŵr fy mod i yn eich deall. Beth ydych chi'n feddwl, Mr. REES ?

REES : Rydw i am fynd a'r wisg yma yn ôl gennyf. Rydw i am ei gwisgo yng nghinio nos Gwyl Dewi Chicago ac adrodd yno—wyddoch chi beth ydw i am adrodd ? Nawr, sut mae'r pisyn yn mynd ?

[*Adrodd gan wneud ystumiau â'r llaw sy'n dal y sigâr*].

"Mab y mynydd ydyf innau,

Oddi cartref yn gwneud cân,

Ond mae nghalon yn y mynydd

Efo'r grug a'r adar mân."

Dyna beth fyddai "hit" ! Son am "Welsh Willie" ! Fe fyddai ef yn y cysgod am byth.

DEM. : Ond, ond, yr ydw i am y wisg yna yn ôl i fynd i'r Eisteddfod eleni.

REES : Faint ydych chi'n ymofyn amdanyn nhw ?

DEM. : Fentra i ddim eu gwerthu. Na wna wir.

REES : Fe roddaf i bris da. Enwch y swm.

DEM. : Na wna wir. Fe wnawn i unpeth i chi ond hynyna.

REES : Beth petawn i'n cynnig i chi gant o "shares" yn y

Cwmni Aur yma. Fe fydd y "shares" hyn yn werth rhywbeth ym mhen blwyddyn, cofiwch.

DEM. : Rydych yn fy nhentio i'n ofnadwy, Mr. Rees, ond wna i ddim, wir. Ond gan eich bod chi wedi sôn am y Cwmni Aur yna, a fydd yna gyfle i mi brynu cant neu ddau o "shares". Rydw i'n chwilio am "investment" da.

REES : Mae hwn yn "investment" da. Dim ond fy ffrindiau sy'n cael cyfle i brynu yn awr. Ond gan eich bod chi wedi rhoi benthyg y rhain i mi—a dydw i ddim wedi rhoddi heibio'r gobaith na wnewch chi eu gwerthu i mi, mae'r cynnig yn dal o hyd, cofiwch—fe ellwch gael dau gant o siarau pum dolar, hynny yw, punt yr un, ond i chwi ddod â'r arian i mi bore yfory.

DEM. : Fe roddaf i siec i chi nawr.

REES : Mae arna i ofn na allaf i wneud dim byd a siec ar hyn o bryd. Does gen i ddim "banking account" yn y wlad yma eto—dewch chi ag arian i mi ac fe fydd popeth yn iawn.

DEM. : Mae'i siarau yn werth eu prynu, onid ydynt?

REES : Gwerth eu prynu! [*Chwilio am ei boced*]. Dwedwch sut mae bois yr Orsedd yn cael gafael ar eu pocedi os bydd eisiau sychu eu trwynau arnynt yn y wisg yma? [*Yn cael gafael ar y papur y chwiliai amdano*]. Edrychwch. Report yr "Assayer." "Best sample of ore I have ever analysed." Ydych chi'n credu hwnna? Fe fydd pobl y deyrnas yma yn twmblo dros ei gilydd i brynu "shares" cyn pen mis.

DEM. : Wel, wel, a neb wedi breuddwydio bod aur yma o'r blaen.

REES : "Yes, Sir." Fi a gafodd afael ar wythien. Ydych chi'n credu y bydd pobl y pentre yn fodlon rhoi lle i fonwment i mi ar y sgwâr.

DEM. : Fe af i'n bersonol gyfrifol am hynny. Mae gen i dipyn o ddylanwad yma. Deuaf â'r ddeucant i chwi bore fory cyn gynted ag y gallaf ei gael o'r banc. Fydd hi ddim yn rhy ddiweddar? Yr ydych yn siŵr o hynny, leiciwn i ddim meddwl fy mod yn colli cyfle fel hwn.

REES : Na, na, unrhyw amser bore fory, gan mai chi ydych chi. A chofiwch, can siâr arall am y dillad yma.

[*Gwelir JANE yn y ffenestr ffrensh*].

JANE [*wrth ddod i mewn*] : Helo. A oes "fancy dress" i fod i dê, neu rhywbeth. Buoch bron â'm dychryn.

DEM. : Popeth yn iawn, Miss Oliver, popeth yn iawn.

REES : Fi sy'n treio gwisg yr Orsedd amdanaf. Sut mae'n edrych? Ydy hi yn fy siwtio?

JANE : Wel, fe fyddai'n well petai rhyw droedfedd yn hwy. Ond ble mae'r teulu i gyd? Roeddwn i'n meddwl y byddai'n ffys a ffwdan yma yn paratoi gogyfer â'r te-parti. Rydw i wedi gwisgo fy ffrog orau ar ei gyfer.

REES : Ac yr ydych yn edrych mor ifanc ag yr oeddech pan euthum i dros y môr. Ond yw hi, Mr. Jones?

DEM. : Doeddwn i ddim yn ei hadnabod y pryd hwnnw, ond os caf i ddweud . . . [*mae'n amlwg bod compliment mawr ar esgor ond y mae REES yn torri ar ei draws*].

REES [*yn ei dywys yn dyner ond yn bendant tuag at y ffenestr*] : Nawr, Mr. Jones, dewch chi â'r rheina i mi bore fory ac fe fydd popeth yn iawn. Fe gadwaf i'r dillad yma hyd nes y caf i afael ar ffotograffer a meddylwch eto am y cynnig a rois i chwi.

DEM. [*yn anfodlon ymadael*] : Roeddwn am gael gair gyda Miss Oliver . . .

REES [*yn ei wthio'n benderfynol drwy'r ffenestr*] : Rywbryd eto, Mr. Jones, rywbryd eto. Rwy'n brysur iawn y pnawn yma. Pnawn da, Pnawn da.

[*Exit DEMETRIUS*].

REES [*wrth ddod yn ôl*] : Nawr, dyma beth yw lwc. Roedd gen i bedwar peth i'w gwneud y pnawn yma. Rwyf wedi gwneud dau a chan eich bod chi yma, dyma gyfle i mi wneud y trydydd.

JANE : Rhaid eich bod yn brysur iawn.

REES : Pysur! Fûm i ddim yn fwy prysur erioed er mai ar fy ngwyliau yr ydw i. Fûm i ddim yn fwy prysur erioed.

JANE : Fyddai hi ddim yn well i chi ddiosg y wisg laes yna yn awr. Rydych yn sicr o'i rhwygo yn y man.

REES : Na, mae'r wisg yma wedi fy rhoi yn y mŵd iawn at y gwaith sydd o'm blaen. Rwy'n teimlo'n farddonol ac yn barod i unrhyw beth.

JANE : A oes raid i mi fod yn dyst.

REES : Fe fyddwch yn fwy na hynny. Eisteddwch chi fanna, ar y "Settee." [*JANE yn eistedd*]. Wyddoch chi beth, yn fy meddwl i, yw'r pisyn "poetry" gorau a ysgrifennwyd erioed. [*Yn taro osgo ddramatig ac yn adrodd*] :

“Cyfoeth nid yw ond oferedd,
Glendid nid yw yn parhau,
Ond cariad pur sydd fel y dur
Yn para tra bo dau.”

Nid nad ydw i'n credu bod yna bwrpas i gyfoeth ac nad yw glendid yn parhau, rydych chi yn profi hynny, rydych cyn laned â phan yr euthum i America, ond, wrth eu cymharu â chariad, wel, beth ydyn nhw?

JANE : Beth yw pwrpas y sylwadau athronyddol hyn?

REES : Fe ddof i at y pwrpas yn y man. Wyddoch chi, Jane, pan oeddwn i allan yn chwilio am aur yng nghanol mynyddoedd Califfornia, wrthyf fy hunan, dim un dyn o fewn milltiroedd, roeddwn yn treulio oriau yn yr hwyr yn syllu ar y lleuad ac yn dweud wrthyf fy hunan, “Yr un hen leuad wyt ti â honno oedd yn gwenu arna i a Jane yn cerdded adre gyda'n gilydd o Eisteddfodau a Chyrrddau Llenyddol.” Ac fe allwn dyngu bod y lleuad yn wincio'n ôl, cystal â dweud “Fe wn i'r cyfan.” Ddegau o weithiau bùm ar fin taflu'r cwbl heibio a dod yn ôl, ond wedi mynd mor bell pan ddôi hi'n bwynt, fedrwn ni ddim dioddef meddwl dod yn ôl heb grynhoi tipyn o arian. A dyma fi, Jane, wedi dod yn ôl a thafu'r cwbl wrth eich traed. Jane, ydych chi'n cofio'r nosweithiau hynny y buom yn cerdded adref gyda'n gilydd o ryw steddod neu'i gilydd?

JANE : Mae'n rhaid nad yw fy nghôf i ddim cystal â'ch un chi. Un tro yn unig rwy'n ei gofio.

REES : Ie, dod yn ôl o Eisteddfod y Pasg, Tre-cyll, mi fentra. Ydych chi'n cofio ni'n aros wrth fwllch dôl wair Glanrafon i weled y lleuad yn disgleirio ar yr afon?

JANE [*yn codi.*] : A oes yna ryw bwynt i sôn am beth felly yn awr?

REES : Oes, Jane. Rydw i am fynd a chi yn ôl gyda mi i Chicago,—fel partner.

JANE [*yn eistedd yn swp.*] : O'r annwyl!

REES : Wedi gweld eich bod chi'n rhydd o hyd, fe benderfynais na chollwn i mo'r cyfle eto. [*Ar ei liniau er ei fod yn cael tipyn o drafferth gyda'r wisg.*] Jane, rwy'n ddyn adnabyddus yn Chicago, ac ar ôl mynd yn ôl a dangos fy mod i'n Aelod o Orsedd y Beirdd a bod cof-golofn i mi ar sgwâr fy mhentre genedigol, byddaf yn enwog. [*Yn cydio yn ei dwy law.*]

Dwedwch y dewch chi gen i, Jane, i siario fy enwogrwydd, i fod wrth fy ochr pan fyddaf yn cael fy anrhydeddu.

JANE : Ydych chi'n siŵr eich bod chi wedi blino bod yn hen lanc? Fedra i ddim dychmygu beth fyddwch yn debyg fel dyn priod.

REES : Rydw i am eich cael chi wrth fy ochr bob amser.

JANE : Bywyd diflas iawn sydd ar fenyw sengl, mae'n rhaid dweud.

REES : Dyna hi ynte. Dwedwch y gwnewch chi.

JANE : Ac ni all neb ddweud y bydd bywyd gyda chi yn undonog. O'r gorau Rhys, fe'i mentrwn hi.

REES [*yn codi.*] : Ddifarwch chi ddim. Wna i ddim gofyn am gusan gennych yn awr. Wyddoch chi beth yr ydw i am ei wneud? Mae'r lleuad bron a bod yn llawn heno, fe edrychais yn yr Almanac, ac yr wyf am fynd i lawr ein dau i fwllch dôl wair Glanrafon a fan honno, dan olau'r lleuad, y caf i'r gusan honno yr wyf wedi dyheu amdani oddi ar noson Eisteddfod Tre-cyll. A fory, pan ddaw'r ffotograffer yma i dynnu fy llun yn y dillad hyn, fe af ag ef i lawr i dynnu llun y bwllch yna, a phan fydd hanes ein “romance” yn cael ei adrodd ym mhapurau Chicago, fe fydd y llun hwn ynddynt i ddangos “the most romantic spot in the life of Carnolyn R. Rees.” Rwy'n hoffi tipyn o “romance” mewn bywyd. Fe wna'r stori hon “hit” ym mhapurau Chicago.

JANE : Da chi, tynnwch y wisg yna i ffwrdd i chi beidio â cael rhagor o syniadau rhamantus fel yna.

REES : Chi yw'r bos yn awr [*Yn dechrau diosg.*]

JANE : Gobeithio na fydd yr ufudd-dod hwn yn diflannu.

REES [*d'i ben o'r golwg yn y wisg a hithau yn ei helpu i gael y wisg dros ei ben.*] : Fe ffeindiwch fi mor rhwydd i'w drafod a phlentyn bach, Jane. Ond y mae'n rhaid fy nhrafod yn y ffordd iawn.

JANE : Fe ddwetsoch bod gennych bedwar peth i'w gwneud. Beth yw'r pedwerydd?

REES [*ar y “Settee” wrth ei hochr.*] : A ! mae hwnnw'n gyfrinach, hyd yn oed wrthyf chi. Rwyf am iddo fod yn “surprise” bach i Mrs. Morgan. Petawn i'n dweud wrthyf chi, rwy'n gwybod na fedr yr un fenyw gadw cyfrinach—fe fyddech yn sicr o ddweud wrthi ac fe gollwn innau'r pleser o roi “surprise” iddi.

JANE.: Rhywbeth i'w wneud a'r Cwmni Aur yma, mae'n debyg.

REES : Nawr, nawr. Peidiwch â holi. Ond gan eich bod chi wedi sôn am y Cwmni, rwyf am i chi gael cyfle i brynu "shares" ynddo. Wrth gwrs, dydw i ddim am fusnesa dim yng nghylch eich arian chi—chi piau'r rheini, faint bynnag sydd gennych—mae hen ddigon gen i i ni ein dau. Ond os ydych am, wel, mae cyfle i chwi chwyddo'ch "capital" yn awr, wrth brynu "shares" yn y Cwmni hwn ar y dechrau. Maent yn sicr o ddyblu a threblu yn eu pris cyn pen fawr amser.

JANE : Wel, mae gen i ychydig o arian wrth law a chi fydd fy "financial adviser" i o hyn allan, cofiwch.

REES : Nawr, gwrandewch, ewch i'r banc bore fory a chodwch gymaint o arian ag sydd gennych a dewch â nhw i mi. Fe wna i'r fusnes i gyd i chi.

JANE : O'r gorau. Fe fydd yn braf i beidio â thrafferthu am bethau fel yna ragor.

REES : Bydd yn sioc i Mrs. Morgan i glywed ein bod ni ein dau wedi penderfynu gweithio mewn harnes dwbl.

JANE : Ydych chi am ddweud wrthi y pnawn yma ?

REES : Wrth gwrs. Fedra i ddim bod yn dawel yng nghylch y peth. Pan fydda i'n hapus rwyf am siario fy hapusrwydd â phawb—dyna sut ddyn ydw i—ac yr wyf mor hapus y pnawn yma â cheiliog bronfraith yn canu yn y gwanwyn. [Daw MRS. MORGAN i mewn drwy'r drws a MRS. POWELL-PRYCE yn ei dilyn. REES a JANE yn codi]

MRS. MORGAN : Dyma Mr. Rees, Mrs. Powell-Pryce. Fe wyddwn ei fod yn y tŷ yn rhywle. Roeddwn yn meddwl na chawn i fyth mo'r anrhydedd o'i gyflwyno i chi. Bob tro yr oeddech yn galw roedd ef allan—wrth gwrs, mae yn anodd gwybod ble i gael gafael ar ddyn â chymaint o "vitality" ynddo, ond dyma ni o'r diwedd : Mrs. Powell-Pryce, Mr. Carnolyn R. Rees o Chicago. Mr. Rees, Mrs. Powell-Pryce o "Nantgwyn Court."

REES : Falch iawn i gwrdd â chi, Mrs. Powell-Pryce. Doeddech chi ddim yn byw yn Nantgwyn pan euthum i i ffwrdd i America.

MRS. POWELL-PRYCE : O, na. Rhyw bum mlynedd sydd oddi ar pan ddeuthum i fyw yno. Rydw i wedi clywed cymaint o sôn amdanoch chi gan Mrs. Morgan yma ;

roeddwn wedi penderfynu bod yn rhaid i mi gwrdd â chi cyn i chi fynd yn ôl i Chicago. Mae'n debyg nad arhoswch chi'n hir mewn lle bach tawel fel hwn.

REES : Na, rwy'n bwriadu mynd yn ôl am spel cyn gynted ag y gorffenna i'r ychydig fusnes sydd gen i yn awr. Ac y mae gen i un peth diddorol i'w ddweud wrthyich. Pan af i yn ôl, fydda i ddim yn mynd wrthyf fy hunan.

MRS. MORGAN : O ! Mr. Rees ! Dydych chi ddim yn dweud . . .

REES : Ydw, Mrs. Morgan, dyna beth yr ydwyf yn ei ddweud.

MRS. MORGAN : Jane a chi ?

REES : Ie, Jane fydd yn mynd gyda fi.

MRS. MORGAN : O ! Jane fach. [*Yn ei chofleidio.*] Rydw i'n falch.

MRS. POWELL-PRYCE : Wel, dyma beth yw newydd da.

MRS. MORGAN : Fe wyddwn i bod rhywbeth yn y gwynt, cyn i Mr. Rees fynd i America.

MRS. POWELL-PRYCE : O, mae'n hen "romance" ydy hi ?

JANE : Roeddem yn gyfeillion pan oeddem yn ifanc.

REES : Ddegau o weithiau, pan oeddwn i wrth fy hunan yng Nghaliffornia yn chwilio am aur, ugeiniau o filltiroedd oddi wrth y dyn nesaf, y cofiais i am y nosweithiau braf hynny pan gawn i gyfle i'w hebrwng adre o Eisteddfod neu Gwrdd Llenyddol. Ac yr oeddwn i'n arfer gofyn i'r lleuad, doedd gen i neb arall i ofyn iddo, "Tybed a yw hi'n sengl o hyd." A phan ddeuais i'n ôl dyna'r peth cyntaf a ofynnais. A dyma ni, yn mynd i fod yn bartneriaid cyn gynted ag y gallwn ni gael ein clymu.

MRS. MORGAN : Fedra i ddim dweud wrthyich mor falch yr ydw i.

MRS. POWELL-PRYCE : Rhaid i chi ddod yn ôl yma yn glau, Mr. Rees a phrynu lle bach. Wyddoch chi, fe fydd "Llwynbedw Court" ar werth yn y man, tŷ yn eich siwtio chi i'r dim.

REES : Cawn weld, cawn weld. Wrth gwrs, fe fydd yn rhaid i mi gael lle bach yn yr ardal yma yn rhywle i ddod iddo ambell waith i edrych ar ôl buddiannau'r Cwmni Aur.

MRS. POWELL-PRYCE : Nawr, dyna beth yr oeddwn am siarad amdano. Y Cwmni Aur newydd yma. Rwy'n clywed bod eich gobeithion yn ddisglair iawn.

REES : Nid gobeithion ydynt mwyach. Mae'r peth yn "Cert." Dywedodd yr "Assayer"—dyma'r report [*yn ei dynnu o'i*

boced eto] mai dyma'r mwyn gorau a welodd e erioed. Wrth gwrs, does gen i ddim sicrwydd faint yw'r wythïen, ond rwy'n credu, ac y mae gen i dipyn o brofiad cofiwch, ei bod yn wythïen fawr.

MRS. POWELL-PRYCE : Ble mae'r aur ?

REES : A ! Fe hoffai llawer wybod hynny. Na, does neb yn mynd i gael gwybod nes bydd popeth yn barod.

MRS. POWELL-PRYCE : Cweit reit, Mr. Rees. Cweit reit. Ond a oes cyfle i rai fel fi i brynu ychydig o siarau.

REES : Wel, gan eich bod chi yn gyfeillgar a'r teulu hwn, os ydych chi amdanynt, dewch a'r arian i mi bore fory. Fedra i ddim aros yn hwy na hynny, ac er mwyn gwneud pethau'n rhwyddach, y cwblw mewn "notes." Fe wna i'r cwblw drosoch wedyn.

MRS. MORGAN : Rydym yn dibynnu arnoch chi, Mr. Rees. Chawsom ni ddim cyfle fel hwn o'r blaen.

REES : Mewn mater fel hwn, fe ellwch ddibynnu arna i. Rwyf wedi dod yma i wneud lles i'r ardal, hen ardal fy ngenedigaeath. Yr ardal y ffarweliais â hi . . .

[*Mae'n amlwg bod araith ar y ffordd ond daw GEINOR i mewn i dorri ar ei draws*].

GEINOR : Ym mhle yn yr ardd yr ydych chi am i Sali roi'r te allan, Modryb ?

MRS. MORGAN : O dan y goeden "cherries" [*yn troi at Mrs. POWELL-PRYCE.*] Meddyliais y byddai'n llawer gwell i gael te allan ar brynhawn mor braf. Mae'r "lawn" yn hollol breifat.

MRS. POWELL-PRYCE : Llawer iawn gwell, Mrs. Morgan.

MRS. MORGAN : Fe awn ni allan yn awr. Rwy'n siŵr eich bod chi Mrs. Powell-Pryce am gael sgwrs hir â Mr. Rees ynglŷn â'r America.

REES : Rwyf am i chi fy esgusodi am ychydig, mae gen i dipyn o fusnes i'w wneud cyn te.

MRS. MORGAN : Mae e'n ddyn prysur—dwn i ddim o ble y mae e'n cael yr holl "vitality." Dydy e ddim syndod yn y byd ei fod wedi gwneud ei ffortiwn. Dewch, fe adawn ni ef at ei faterion pwysig. [*Â Mrs. MORGAN, Mrs. POWELL-PRYCE a JANE allan*].

MRS. POWELL-PRYCE [*wrth fynd ac yn ysgwyd ei bys.*] : Cofiwch chi, Mr. Rees, byddwn yn eich disgwyl i de.

REES : Fe fyddaf i gyda chi. [*Yn edrych ar ei oriauwr arddwrn*]. [*Â'r tair o'r golwg a symuda GEINOR at y drws*].

REES [*yn siarad yn isel cyn gynted ag yr â'r tair o'r golwg*] : Geinor, aros. Wyddost ti faint o'r gloch yw hi ?

GEINOR : Mae bron â bod yn amser y cic-off, mi wn.

REES : Ble mae dy Nwncwl ?

GEINOR : Ar y llofft yn gwisgo ei ddillad gorau.

REES : Mae e wedi cael digon o amser i newid ei ddillad dair gwaith. Cerdd i'w ymofyn ar unwaith. Fe fydd Miss Owen yma unrhyw funud yn awr.

GEINOR : Miss Owen ?

REES : Ie, ie, Miss Owen o Dre-cyll.

GEINOR : O ! "barmaid" Nwncwl.

REES : Ie, ie, cerdd i ddweud wrtho am ddod ar unwaith.

[*Â GEINOR allan. Y mae REES yn cerdded o gwmpas fel petai yn meddwl am symudiadau'r olygfa sy'n dilyn. Edrych allan drwy'r ffenestr. Yn y man daw WALTER i mewn*].

REES : Ble'r wyt ti wedi bod ? Mae bron yn bryd.

WALTER : Dydw i ddim am gymryd dim rhan yn y fusnes.

REES : Beth ! A'n gadael ninnau i wneud y cwblw drosot.

WALTER : Edrych yma, ar ôl y ffordd y buost yn fy nhrin i gynnu fach . . .

REES : O ! dyna beth sy yn dy grombil di—anghafia fe, "forget it."

WALTER : Ond dydw i ddim am i Sara weld y ferch yna o gwbl.

REES : Pa wahaniaeth ei bod yn ei gweled ? Fydd hi ddim yn gwybod pwy yw hi.

WALTER : Wyt ti'n meddwl am eiliad na ffeindia Sara pwy yw hi ? A pheth arall, dydw i ddim am fynd ar y District Council.

REES : Fedri di ddim tynnu'n ôl ragor. Ti soniodd am y peth gyntaf.

WALTER : Nage. Soniais i ddim am y peth o gwbl. Sara ddechreuodd y clebran.

REES : Wel, does dim gwahaniaeth. Mae'n rhy ddiweddar nawr. Does gennynt ddim dewis ragor.

WALTER : Does gennynt tithau ddim syniad beth yr wyt yn ei wneud wrth wahodd y ferch yna i'r tŷ. Dal matsen uwchben casgen o bowdwr, dyna beth yr wyt ti'n ei wneud, a minnau yn eistedd ar y gasgen.

[*Daw* GEINOR *i mewn a FFLORRI yn ei dilyn*].

REES : Dyma ni i gyd. Does gyda ni ddim munud i'w cholli. Fe fydd John Edwards yma ar y gair. Ond y mae'n rhaid i ni fynd dros y "moves"; pawb i wybod ei waith a pha bryd i symud.

FFLORRI [*yn eistedd ar y "Settee"*]: Pwy sy'n fy nhalu i? Rwy'n ymofyn yr arian cyn mynd gam ymhellach. Deg punt a addawsoch i mi—a'r pymtheg swllt wrth gwrs.

WALTER : Dyna hi, weld di. Yr un hen stori ac fe ddaw Sara i wybod y cwblwl.

REES : Ond y mae'r arian gyda thi—tâl hi nawr.

WALTER : Gyda fi? Deg punt gyda fi?

REES : Oni ddwedais wrthyt am ofyn i Mrs. Morgan am ugain punt fel "election expenses." Fe ddwedais ugain punt i ni gael bod ar yr ochr saff.

WALTER : A fe ddwedais innau wrthyt yn bendant na wnawn i ddim o'r fath beth. Wyt ti'n meddwl fy mod i wedi colli'r ychydig synnwyr a gefais i? Gofyn i Sara am ugain punt wir!

REES : Y fi sy'n trefnu'r fusnes yma ac yr wyf yn disgwyl ufudd-dod gan bawb ohonoch a dyma tithau, oherwydd bod tipyn o ofn dy wraig arnat . . .

FFLORRI : Does dim gwahaniaeth gen i o ble mae'r arian yn dod ond heb y ddeg punt—a'r pymtheg swllt—dydw i ddim yn gwneud dim.

GEINOR : Rhwch chi Mr. Rees fenthyg yr arian iddo tan yfory. Pan ddaw Modryb i wybod ei fod yn "District Councillor" fe fydd yn fodlon talu unpeth.

REES : Mae gen i un rheol na thorrais i mohoni erioed. Dim rhoi benthyg arian i neb—dim swllt. Ceisio ei wneud e yn District Councillor yr ydym, ac efe sydd i ffeindio'r arian.

FFLORRI : Welais i ddim sut dŷ erioed. Rydych i gyd yn graig o arian ond y mae mor anodd cael ceiniog allan ohonoch chi ag yw hi i gael gwaed allan o garreg. Ond gwnewch fel y mynnoch; dydy'r ferch yma ddim yn cyffro o'r fan hyn heb y pymtheg swllt.

REES : Does gyda ni ddim amser i'w wastraffu i drafod mater dibwys fel na nawr, neu fe fydd John Edwards ar ein traws cyn bo ni'n barod. Nawr, a ydych chi i gyd yn gwybod eich gwaith. Beth amdanat ti, Geinor? Pa bryd wyt ti i fod i arwain y tair menyw yn ôl tua'r tŷ?

GEINOR : Pan fyddwch chi yn sefyll yn y ffenestr ac yn defnyddio'ch macyn poced i chwythu eich trwyn.

REES : Cofia di, nawr, gadw llygad ar y ffenestr.

GEINOR : Ond pa esgus a fydd gen i i'w cael yn ôl at y tŷ?

REES : Dy fusnes di yw hynny. Os na elli di feddwl am ryw esgus dwyt ti ddim ffit i dderbyn y cyfrifoldeb rwy'n ei roi arnat. Nawr, fe roddaf i John Edwards i eistedd fan hyn ar gornel y sofffa yng ngolwg y ffenestr a chwithau Miss Owen i eistedd ar y cornel nesaf at y ffenestr. Gwell yw i ti Wat i eistedd ar y stôl yna wrth ochr Miss Owen, ac fe gerdda i o gwmpas i gael cyfle i roi'r signal i Geinor. Nawr, Miss Owen, pan chwytha i fy nhrwyn, a gwneud sŵn cryf, dyna'r pryd i chi weithredu. Neidiwch i gôl John Edwards, fe fydd yn eistedd yn gyfleus wrth eich ochr, rhwch eich breichiau yn dynn am ei wddf a gweiddwch—does fawr o wahaniaeth beth weiddwch chi, "John bach, chei di byth fynd o 'ngolwg i eto" neu rhywbeth tebyg—dydy'r geiriau ddim yn bwysig, "Actions speak louder than words."

FFLORRI : Rydw i wedi dweud fy mod i am yr arian cyn cychwyn.

REES : Nawr, nawr, dydy lodes ysbrydol, ffein, fel chi ddim yn mynd i sbwylio'r cawl oherwydd peth bach felna. Dyma fi wedi meddwl am blan godidog—wnewch chi mo'i ddistrywio ar y funud olaf.

FFLORRI : Mae'n rhaid i mi gael pymtheg swllt yna i fynd yn ôl gennyf y pnawn yma.

REES : Wel fe af i yn gyfrifol i weld eich bod chi yn eu cael. A pheth arall, fe gewch bymtheg punt yn lle deg os aiff popeth yn iawn. Fe gaf i unrhyw beth gan Mrs. Morgan unwaith y bydd Walter yn D.C.

FFLORRI : Petawn i yn gallu byw ar addewidion fe fyddwn yn gyfoethog. Ond ni allaf fentro mynd ag addewidion yn ôl i'r bos heddiw—"cash" y mae e'n ymofyn.

[*Daw* SALI *i mewn*.]

SALI : Mae Mr. John Edwards yma yn dweud ei fod am eich gweld.

REES : Dewch ag ef i mewn. [*Â* SALI *allan*.] "Zero hour." Nawr, pobun at ei waith a chedwch eich pennau.

[*Daw* JOHN EDWARDS *i mewn*. *Dyn* byr, *gweddol* bwysig yr *olwg*, *fel y mae'n tybio y gweddai i "District Councillor" fod*.]

REES : Dewch i mewn, Mr. Edwards [*siglo* dwylo]; rwy'n

falch iawn i gwrdd â chi. Chi wyddoch pwy ydw i, mae'n debyg?

EDWARDS : Gwn, wrth gwrs. Mae pawb yn y pentre yn gwybod amdanoch. Mae'n anrhydedd i mi gwrdd ag un o fechgyn yr ardal sydd wedi gwneud mor dda, wedi dringo mor uchel, yn esiampl i fobol ifainc yr oes hon, ac eto, heb anghofio bro ddistadl ei enedigaeth. [*Yn troi at FFLORRI*]. A dyma Mrs. Rees, ai e? "Pleased to meet you, madam." [*Onibai fod REES wedi rhoi pwt galed iddi â'i benelin byddai GEINOR wedi torri allan i chwerthin. Mae'n dianc i'r ardd i gael rhoi gollyngodod i'w theimladau.*]

REES [*i'r adwy.*] : Na, dyn sengl ydw i, eto, Mr. Edwards. Fe ddylwn fod wedi'ch cyflwyno chi, Miss Owen, ffrind i mi o Dre-cyll, yw hi, Mr. Edwards.

EDWARDS : O, felly'n wir, felly'n wir.

FFLORRI [*yn gwneud lle iddo ar ei chwith.*] : Eisteddwch, Mr. Edwards. [*Yntau yn eistedd. Mae WALTER eisoes yn ei le.*]

REES : Rwy'n clywed, Mr. Edwards, mai chi yw "District Councillor" yr ardal yma.

EDWARDS : Ie, siŵr, ie siŵr. Ond y mae yna lecsiwn yn ymyl, a ŵyr dyn ddim, wrth gwrs, beth all ddiwydd.

REES : Ond y mae pobl yn dweud wrthyf i eich bod chi'n saff o fynd i mewn eto.

EDWARDS : Synnwn i fawr, synnwn i fawr. Rwy wedi gwneud llawer o gymwynasau â phobl y lle yma, rhwng popeth, a dydw i ddim yn meddwl y byddan nhw yn aniolchgar y tro hwn eto.

REES : Felly rwy'n clywed.

EDWARDS : Ond os yw'r si yr ydw i yn ei chlywed yn wir, yr ydych chi yn mynd i wneud llawer mwy dros y lle nag a wnaeth neb arall erioed.

REES : Wel, yr ydw i yma i wneud fy ngorau.

EDWARDS : Ydy'r stori eich bod chi wedi darganfod gwythien aur yn yr ardal yn wir, Mr. Rees.

REES : Fe allaf ddweud wrthyf chi fel dyn cyfrifol, gymaint â hyn—cofiwch cyfrinach yw'r peth eto, a dydw i ddim am i bawb wybod.

EDWARDS : Fe fydd yn saff gen i Mr. Rees.

REES : Yr ydw i bron yn sicr, wel, fe allaf ddweud yn hollol sicr, fy mod wedi cael gafael ar wythien aur, o'i radd orau, yn yr ardal.

EDWARDS : Mae'r peth mor bwysig, mor aruthrol o bwysig, fe ddylai'r "District Councillor" wybod, Mr. Rees. Fe fydd y pentre hwn yn un o'r lleoedd pwysicaf yng Nghymru. Byddwn fel ardal yn eich dyled am byth, Mr. Rees.

REES : Ie, roeddwn i'n meddwl y byddech chi'n teimlo felly, Mr. Edwards. A fe hoffwn i'n fawr petai'r pentre yn barod i ddangos hynny.

EDWARDS : Fe wnawn, Mr. Rees, fe wnawn.

REES : Ydych chi'n credu y byddai'r bobl yn fodlon rhoi lle ar y sgwâr i foniwment i mi?

EDWARDS : Nid yn unig rwy'n fodlon cefnogi rhoi lle i'r moniwment ond rwy'n fodlon cefnogi talu amdano. Mewn gwirionedd rwy'n credu ei bod yn ddyletswydd arnom i wneud hynny. Beth ydych chi Walter yn ei ddweud? [REES ger y ffenestr yn chwythu ei drwyn yn ddistaw. *Wedi aros i sicrhau bod y signal wedi'i weld, daw yn ôl.*]

WALTER : Ie, mae eisiau rhywbeth ar ganol y sgwâr, onid oes?

REES : Fydd dim eisiau i neb dalu am y "statue." Yr wyf wedi ordro honno ac fe dalaf amdani fy hun. Ond yr wyf am un peth arall. Chwi wyddoch i mi gael fy ngeni ym Mhistryll-y-Garn?

EDWARDS : O! dyna lle cawsoch chi'ch geni?

REES : Ie, siŵr, ac yr wyf am i'r holl fyd gofio hynny. A'r ffordd orau i wneud hynny yw trwy gael pistyll o ddŵr i redeg o hyd, pistyll na fydd byth yn sychu, o dan y moniwment.

EDWARDS : Dyna syniad gogoneddus, Mr. Rees. Anfarwoli hen fwthyn!

REES : Wel, beth amdani. Faint o amser a gymer hi i chi gael dŵr, "water supply" iawn, i'r pentre. [*Mae'n mynd i'r ffenestr i weld beth sy'n digwydd.*]

EDWARDS : Rydych yn gofyn cwestiwn mawr yn awr.

REES : Pythefnos?

EDWARDS : Pythefnos! Mr. Rees bach, dwy flynedd yn debycach. Fe gymerodd bump i ni gael dŵr i Dre-cyll. Does gennyf chi ddim syniad, mae'n debyg, sut yr ydym ni y Pwyllgorau Lleol yn gweithio. Mae'n rhaid i ni fynd ati yn bwylllog, wnaiff hi ddim o'r tro o gwbl, i ni weithio'n fyrbwyll, mae yna gymaint o gwestiynau y mae'n rhaid i ni ei setlo. Mae cael dŵr i'r pentre yn fater pwysig, aruthrol o bwysig. Mae'n sicr o gymryd chwe mis i ni i'w

drafod e ar y Pwyllgor cyn dechrau chwilio am ddŵr. Na, na, nid ar chwarae bach y cawn ni ddŵr i'r pentre.

REES : "Hustler" mae'n nhw'n galw dyn fel fi yn Chicago. Ac y mae eisiau mwy o'm siort i ar y Pwyllgorach bach yma sydd gyda chi ar hyd y wlad. Dwy flynedd wir ! Fe ddof i a dŵr i'r sgwâr yna cyn pen pythefnos ac fe fydd y pistyll yna yn rhedeg cyn pen pythefnos, bydd, a'i lun e a'r moniwment yn fy mhoced i ar y ffordd yn ôl i America.

EDWARDS [*wedi codi'i wrychyn.*] : Nid yn America yr ydych chi, nawr, Mr. Rees, ac ni wna ffyrdd America y tro yma. Mae cyfrifoldeb arnom, cyfrifoldeb aruthrol, a rhaid i ni wneud yr hyn sydd orau i'r ardal a dydyn ni ddim . . .

[REES yn chwythu ei drwyn yn uchel a gwelir MRS. MORGAN, MRS. POWELL-PRYCE a JANE yn y ffenestr. Mae GEINOR y tu ôl iddynt. Neidia FFLORRI i gôl WALTER cyn y gall hwnnw godi, a thasla ei breichiau am ei wddf a cholli'r gweddill araith EDWARDS yn y chwalfa sy'n dilyn.]

FFLORRI [*â'i breichiau yn dynn am wddf WALTER*] : Rydwyf wedi cael gafael arnoch unwaith eto, Walter bach, a chewch chi byth ymadael â mi ragor.

[Mae REES am eiliad fel petai yn meddwl ceisio tynnu breichiau FFLORRI yn rhydd ond sylweddola ei bod yn rhy ddiweddar. Cyn gynted ag y daw MRS. MORGAN i'r ystafell a gweld beth sy'n digwydd, mae'n rhoi un ochenaid uchel a llewyga gan syrthio yn ôl i freichiau MRS. POWELL-PRYCE a JANE.]

WALTER [*â breichiau FFLORRI am ei wddf.*] : Fe wyddwn i mai fel hyn y byddai pethau . . .

REES [*unwaith eto yn feistr ar y sefyllfa ac yn codi MRS. MORGAN i'r "Settee."*] : Nawr, gadewch iddi gael digon o awyr. [*Yn ei gosod ar y "Settee" a'i thraed at y gynulleidfa. Mae EDWARDS wedi codi ac yn sefyll ger y drws fel petai am ffoi.*] Fe ddaw ato ei hunan yn y man. Dewch chi i rwbio ei dwylo, Jane.

[*Â JANE ymlaen i wneud hyn ac â REES yn ôl fel petai am siarad â MRS. POWELL-PRYCE. Yn ystod yr uchod mae FFLORRI wedi rhyddhau ei gafael ar WALTER ac y mae ef wedi codi. Â ymlaen at REES yn awr. Safant ychydig i'r dde i'r ffenestr ffrensh.*]

WALTER : Faint ddwedais i wrthyt ti . . .

MRS. MORGAN [*yn dod ati ei hun.*] : Hunllef oedd y cwbl ! Dwedwch mai hunllef oedd !

JANE : Dyna fe, dyna fe. Arhoswch chi'n dawel.

MRS. MORGAN : Ydy'r ferch yna yma o hyd ?

FFLORRI : Ydy ac y mae'n bwriadu aros . . .

MRS. MORGAN [*yn rhoi sgrech eto ac yn syrthio mewn llewyg.*]

[REES yn croesi at EDWARDS ac yn dweud wrtho yn ddistaw am fynd. JANE yn parhau i rwbio dwylo MRS. MORGAN. MRS. POWELL-PRYCE yn sefyll ger y ffenestr hytrach y tuallan i'r cwbl, yn gwgu. GEINOR a FFLORRI rywle yn agos i'w gilydd a WALTER yn cilio oddi wrth bawb at y ddesg.]

FFLORRI : Fe all daflu fits am awr os yw hi am, ond dydw i ddim yn mynd oddi yma hyd nes y caf i yr arian sydd ar y dyn yna i mi [*yn pwyntio at WALTER.*]

GEINOR [*yn mynd ymlaen at JANE.*] : A oes punt gennych yn eich handbag, Modryb ?

JANE : Oes.

GEINOR : A gaf i ei rhoi i'r ferch yna iddi gael mynd ?

JANE [*yn rhoi'r handbag iddi.*] : Cei, dyna fydd orau.

FFLORRI : Nid fi achosodd y ffwdan yma. Petawn i wedi cael yr arian ni fyddwn wedi dod yn agos i'r lle. [GEINOR yn rhoi'r bunt iddi a hithau yn mynd at y drws.] Mae wedi bod yn wers i mi i beidio â chredu pob hen ddyn a ddaw i mewn i'r "Bar" i fegian. [*Â allan â'i thrwyn yn yr awyr.*]

MRS. POWELL-PRYCE : Pwy oedd y ferch ofnadwy yna ?

GEINOR : Rhywun yr oedd ar Nwncwl arian iddi.

MRS. MORGAN [*yn cymryd sylw o bethau eto.*] : Ydy hi wedi mynd ?

JANE : Cedwch chi'n dawel. Ydy, ydy, mae wedi mynd. Ydych chi'n meddwl y gallech ddod gyda mi i orwedd ar eich gwely am ychydig ? Dyna fyddai orau i chi.

MRS. MORGAN : O ! i mi erioed i orfod dioddef y fath beth !

JANE : Dyna, dyna. Mae'r cwblw drosodd yn awr. Fe awn ni i'r llofft am ychydig. Geinor, cerdd di i gadw cwmni i Mrs. POWELL-PRYCE hyd nes y deuf i lawt. Dewch Sara.

[*Â hi a MRS. MORGAN allan drwy'r drws. REES yn gofalu ei agor iddynt. Yr un pryd â GEINOR a MRS. POWELL-PRYCE allan drwy'r ffenestr.*]

GEINOR : Dewch, Mrs. Powell-Pryce fe ofynnaf i Sali ddod â the ar unwaith. Rwy'n siŵr eich bod yn barod i gwpanaid.

[*Hawdd dychmygu oddi wrth wynepryd MRS. POWELL-PRYCE nad yw GEINOR yn mynd i gael amser hapus. Edrych REES a WALTER ar ei gilydd am ennyd.*]

WALTER : Petawn i'n hanner dyn, fe'th daflwn di allan dros y trothwy.

REES : Petait ti ond chwarter dyn fe fyddit wedi cael yr arian i dalu'r ferch yna. Arnat ti mae'r bai i gyd am yr hyn ddigwyddodd.

WALTER : Dyna fe, dyna fe, beia fi eto. Fûm i ddim yn begian arnat i beidio â mynd ymlaen a sut sgêm ddwl? Fe wyddwn yr aethai rhywbeth yn rong.

REES : Ni fyddai dim wedi mynd yn rong onibai amdanat ti. Roedd y scêm fel scêm yn berffaith. Petai'r ferch yna wedi'i thalu byddet yn D.C. y funud yma.

WALTER : Os dywedi di'r llythrennau yna wrthyf eto . . .

REES : Dwyt ti ddim gwerth boddran â thi. Rwy'n mynd allan at Mrs. Powell-Pryce a Geinor.

[*Â allan drwy'r ffenestr.*]

[*Mae WALTER yn tynnu ei allweddau o'i boced ac yn datgloi drôr y ddesg. Tynn allan wydr bychan a photelaid o chwisgi. Arllwysa fesur o chwisgi â llaw grynedig i'r gwydr. Ar hyn daw pen FFLORRI i mew drwy'r drws.*]

FFLORRI : A ydych chi am goron o newid ?

Syrth y gwydr o law WALTER a thra bo'n ceisio meistrolï eu hunan, disgyn y LLEN.

ACT III.

Digwydd y chwarae ar y lawnt y tu allan i ffenestr ffrensh y "drawing room." Y mae'r ffenestr, fel yn y ddwy Act gyntaf, yn agored léd y pen drwy'r olygfa. I'r dde i'r ffenestr y mae mainc a elwir yn "rustic" â dwy neu dair clustog arni. Ar y chwith y mae dwy gadair gynfas ["camp chairs"]. Tywynna'r haul drwy'r olygfa.

Eistedd WALTER ar un o'r cadeiriau cynfas â golwg ddi-ysbryd iawn arno. Clywir llais GEINOR yn siarad cyn y daw hi a'i modryb i'r golwg o'r dde.

GEINOR [*o'r golwg.*] : Nwncwl bach, beth ydych chi'n torheulo allan fan hyn? [*Daw i'r golwg a'i modryb JANE yn ei dilyn.*] Rydech fel petaech yn rhoi gwahoddiad i holl bryfed yr ardal i ddod i'ch poeni chi yn yr haul braf yma.

WALTER [*yn ddi-ysbryd iawn*] : Mae cymaint o bethau eraill yn fy mhoeni fel nad yw brathïadau pryfetach yn menu dim arna i.

GEINOR : Rydych yn swnio'n debyg i Job pan oedd y cornwydydd ychydig yn waeth nag arfer.

WALTER : Beth wyddai Job am brofedigaethau'r byd hwn? Mae llawer gormod o sôn amdano ef a'i amynedd.

JANE : Ble mae Sara ?

WALTER : Dydych chi damaid gwell o ofyn i mi ble mae hi—yn y tŷ yn rhywle, cyn belled ag y gwn i. Yn ei gwely, fwy na thebyg.

JANE : Fe af i i chwilio amdani.

GEINOR : Fe arhosaf i i godi tipyn o galon Nwncwl.

[*Â JANE trwy'r ffenestr ffrensh i'r tŷ.*]

Mae'n rhaid gwneud rhywbeth neu fe fyddwch yng nghanol y declein dan ein dwylo.

WALTER : Fe wnei gymwynas fawr â mi os gwnei di ddal pen rheswm â mi am dipyn.

GEINOR [*yn eistedd ar y fainc.*] : Pam? Ydy hi'n unig iawn arnoch ?

WALTER : Wyddost ti nad ydw i wedi sia ad â neb ond Sali oddi ar y fusnes ofnadwy yna, pnawn echdoe ?

GEINOR : Beth am modryb a Charnolyn ?

WALTER : Mae dy fodryb, pan fydd hi allan o'i gwely—a dydy hynny ddim yn aml—yn edrych arna i fel petawn i'n rywbeth y mae'r ci wedi'i lusgo i'r tŷ. Ac am y Ianci cythrel yna . . .

GEINOR : Ust, Nwncwl ! Iaith ! Iaith !

WALTER : Dydw i ddim am siarad ag e. Dydw i ddim am ei weld e. Mae'r olwg arno fe yn ei sgidiau swêd yn fy nghynryfu. Dwed, Geinor, a oes gen ti syniad faint y mae e'n mynd i aros y ffordd hyn eto ?

GEINOR : Rhaid i chi beidio â son amdano yn y dôn yna, nawt. Mae e'n mynd i fod yn un o'r teulu.

WALTER : Beth ddwedaist ti ?

GEINOR : Mae e'n mynd i briodi, a Modryb Jane fydd y "blushing bride." Wyddech chi ddim ?

WALTER : Mae hyn yn ofnadwy. Does neb wedi dweud dim wrthyf i. Doeddwn i ddim yn cowntio rhyw lawer o'r blaen ond dydw i neb oddi ar echdoe. Ac os yw'r Ianci yn

mynd i briodi dy fodryb, fe fydd yn byw ac yn bod yma fyth mwy.

GEINOR : Wel, fe basia'r storom hon fel pob storom arall.

WALTER : Dydw i'n gweld fawr o obaith. A'r difrod wnaeth hi ! Faint wyt ti'n feddwl o'n lŵans wythnosol i a fydd ar ôl ?

GEINOR : Dydy Modryb ddim wedi'i thorri i lawr, eto ?

WALTER : Mae arna i ofn ei bod wedi'i difodi'n llwyr. Ddoe, Dydd Gwener, oedd y diwrnod rwy'n arfer ei chael ond dydw i ddim wedi'i gweld hi, eto.

GEINOR : Ie, ond fe fu modryb yn ei gwely ran fwyaf o'r dydd, ond do ?

WALTER : Fe fu ar ei thraed eithaf digon i roi'r arian i mi, petai am wneud hynny. Fe gododd yn y bore i fynd i'r Banc. Na, mae arnaf i ofn fod fy lŵans fach i wedi diflannu.

GEINOR : Mae'n rhaid i chi fynd ar streic, Nwncwl. Dyna i gyd.

WALTER : Pwy fynd ar streic a allaf i ?

GEINOR : Beth am "hunger" streic ?

WALTER : Diaist i, dyna syniad.

GEINOR : Ie. Tyngwch lw na fwytewch chi ddim briwsionyn hyd nes y cewch chi'ch lŵans yn ôl.

WALTER : Wyt ti'n meddwl y gwnâi hynny doddi calon dy fodryb ?

GEINOR : Ddim ar unwaith efallai. Fe gymerai wythnos, mae'n debyg.

WALTER : Dwyt ti ddim yn disgwyl i mi starfio am wythnos ?

GEINOR : Mae Gandhi yn starfio am fis yn aml.

WALTER : Ie, ac edrych sut olwg sydd arno fe.

GEINOR : Wel fe allech scwlcan o'r pantri ganol nos ambell waith.

WALTER : Ac fe allwn gael tipyn o fwyd yma a thraw yn y pentre. Ddeuai Sara byth i wybod. Ie, Geinor, dyna beth wna i. Os na cha i'r lŵans heno rwy'n mynd i fygwth y bydd "hunger" streic yn dechrau bore fory. Dyna beth a ddaw â hi i'w synnwyr. [*Mae wedi codi tipyn o'i galon erbyn hyn, ac yn cerdded yn ôl a blaen.*]

GEINOR : Cofiwch beidio â son wrth neb mai fi awgrymodd y syniad i chi. Mae fy stoc i ddigon isel fel y mae.

WALTER : Wrth gwrs, y mae yna un ffordd arall rwydd iawn i ti wella pethau i ni ein dau.

GEINOR : Fi ? Fentra i ddim agor fy ngheg ar eich rhan chi. Rwy'n gorfod gwyllo fy nghamre yn ofalus iawn y dyddiau'r rhain.

WALTER : Prioda di Demetrius Jones, a dyna bunt yr wythnos i mi, ar unwaith.

GEINOR : Mae'r "hunger" streic yn llawer gwell syniad na hwnna, Nwncwl.

WALTER : Beth wnei di os yw dy fodryb yn mynd i briodi'r Ianci ? Fe fydd yn rhaid i ti ddod i fyw yma—cofia di fe fydda i'n falch iawn dy gael di—ond rwy'n gwybod yn iawn na fedri di a'th fodryb fyth gytuno.

GEINOR : Mae'r pwynt yna wedi fy nharo innau. Ond dydw i ddim wedi colli pob gobaith eto na fydda i yn y "London School of Dramatic Art" cyn pen mis neu ddau.

WALTER : Dydy Demetrius ddim yn fachgen ffol, weld di . . .

GEINOR : Nwncwl, mae'r cwestiwn yna yn tabŵ. Rydych yn actio'n gywir fel un o'r bobl sy'n rhedeg y "White Slave Traffic"—fy ngwerthu i er mwyn punt yr wythnos. Rwy'n werth llawer mwy na hynny, beth bynnag. Na, Nwncwl, mae gen i obaith y bydd pethau yn edrych yn fwy disglair cyn nos. Dwedwch, ble mae'r Ianci heddiw ?

WALTER : Mae e ar y cyfyl yn rhywle. Mae'n debyg bod ffotograffer yn dod i dynnu ei lun yng ngwisg Demetrius y pnawn yma, os clywaist ti erioed am sut ddwli. Sali ddwedodd wrthyf i—hi yw'n "Reuter's Correspondent" i y dyddiau yma.

GEINOR : Mae'n rhaid cael gweld y seremoni. Ydych chi'n meddwl y byddai'n fodlon i mi fod yn y llun hefyd—dyma gyfle gogoneddus i gael fy llun yn y "Chicago Illustrated."

WALTER : Yn y "Police Gazette" y dylai ei lun e fod. Mae ei well e lawer iawn yn hwnnw yn aml. [*Clywir rhywun yn agoshau o'r tŷ yn chwibanu'r ddwy linell :*

*"Ond cariad pur sydd fel y dur,
Yn para tra bo dau."*]

GEINOR : Ust ! Dyma fe'n dod. [*Eistedd WALTER yn y gadair eto.*]

[*Daw REES allan drwy'r ffenestr ffrensh â gwisg yr Orsedd ar ei fraich. Mae'n amlwg ei fod yn ei hwyliau gorau. Ni chymer*

WALTER sylw ohono.]

REES : Wyddost ti, Geinor, mi gefais syniad ardderchog y funud yma ?

GEINOR : Mae'ch pen chi'n byrlymu o syniadau.

REES : Mae hynny'n eithaf gwir. Ond mae hwn yn well nag arfer. Rydw i am i'r pentre hwn i gofio fy nydd pen blwydd am byth. Rydw i'n mynd i wneud fy nydd pen blwydd yn ddydd o lawen chwedl yn y lle yma, fel bo'r plant i gyd yn edrych ymlaen ato.

GEINOR : A sut ydych chi'n mynd i gael hynny i ben ?

REES : Yn rhwydd iawn. Rwy'n mynd i roi lot o "flood-lights" o gwmpas y moniwment yna ar y sgwâr ac fe fydda'n trefnu iddynt daflu goleuni llachar ar y moniwment nos dydd fy mhen blwydd. Bydd fel golau dydd ar y sgwâr drwy'r nos ac fe fydd pawb yn y lle yn cofio pwy gafodd ei eni ym Mhistyll-y-Garn ar y dydd hwnnw flynyddoedd lawer yn ôl.

GEINOR : Mae'n rhaid bod rhyw allu rhyfedd yn eich ymenydd i feddwl am bethau felna.

REES : O oes. Nid blawd llif sydd yn fy mhen i. Ond, dywed, ydy Demetrius ddim wedi cyrraedd eto ?

GEINOR : Dydw i ddim wedi'i weld y pawns yma.

REES : Mae e'n hwyr. Roedd i ddod yma i'm helpu i wisgo'r paraffernalia hwn [*dangos gwisg yr Orsedd*] erbyn y daw'r ffotograffer. Rwy'n methu'n lân a'i wisgo fy hun. Does gen i'r un syniad pa ochr sydd i fod y tu blaen na dim.

GEINOR : Hoffech chi ddim fy nghael i i sefyll wrth eich ochr ? Byddai gweld merch fach ddiniwed fel fi yn eich ymyl yn apelio at deimladau pobl.

REES : Na, Geinor. Un o'r gwersi yr ydw i wedi'i dysgu yn fy oes yw peidio byth a thynnu llun gydag unrhyw ferch. Mae'n nhw mor debyg o redeg ar ôl dyn wedyn a defnyddio'r llun fel "evidence." Mistec mawr yw rhoi achos i hynny. Fe welaist beth ddigwyddodd yma echdoe.

WALTER [*hanner siarad â'i hunan.*] : Ianci cythrel a'i sgidiau swêd.

REES : Beth ddwedaist ti ?

WALTER : Wyt ti am i mi ei ddweud yn uwch ? Cerdd â dy sgidiau menywaidd yn ôl i Chicago neu Galiffornia neu o ble bynnag y deuaist ti.

REES [*wrth GEINOR.*] : Dyna'r diolch rwy'n ei gael am geisio gwneud tro da. Treulio amser i feddwl am sgêm . . .

WALTER : Fe fyddai plentyn yn "Standard Two" wedi meddwl

am well sgêm mewn dwy funud. Ti a dy Chicago "methods."

REES : Dyn yn byw ar hanner coron yr wythnos a gwerthu sanau . . .

WALTER [*wedi codi*] : Mae'n ganmil gwell gen i wneud hynny na dod y ffordd hyn i fyw ar gefn gwragedd sy'n cael eu dallu gan sôn am arian mawr. Milionêr ! Hy ! A neb wedi gweld lliw ei arian oddi ar iddo ddod i'r pentre.

REES : Petait yn dweud geiriau felna wrthyf yn Chicago . . .

WALTER : Diolch i Dduw mai yng Nghymru yr ydw i . . .

GEINOR [*yn codi a dod rhyngddynt.*] : Nawr, nawr, dyna ddigon o dafodi. Os ydych chi'ch dau am ddifriô'ch gilydd mae'n well i chi fynd i ben mynydd lle na bydd neb yn eich clywed. Dacw Demetrius yn dod—fe gâi ei galon fach ef sioc ofnadwy i glywed y fath iaith.

WALTER : Carniolyn a ddylai ei enw fod.

GEINOR [*yn ei wthio yn ôl i'w gadair*] : Nwncwl, behafiwch !

DEM. [*yn dod i'r golwg o'r dde hytrach allan o wynt.*] : Mae'n rhaid i mi ymddiheuro am fod yn hwyr. Ond nid arna i yr oedd y bai. Fe alwodd yr awen heibio . . .

REES : Fe alwodd pwy ?

DEM. : Yr awen wyddoch. "Llety'r Awen" yw enw'r tŷ—yr awen farddonol. Euthum allan i'r ardd ar ôl cinio a beth welais i yng nghornel yr ardd ond wiwer fach a dyma'r awen yn cnocio a rhaid oedd i mi fynd i'r stydi ac ysgrifennu pwt o delyneg i'r bitw fach a'i chynffon hir. Ac wrth ymgodymu a'r odlau—pethau rhyfedd yw odlau—fe aeth yr amser heibio heb ymwybod i mi a phan edrychais i ar y cloc, roedd hi'n chwarter wedi tri a minnau wedi addo bod yma erbyn tri. Ac fe redais allan i starto'r car bach. Fe gewch chi weld y delyneg yn yr "Hysbysydd" nesaf. Rwy'n credu bod ynddi ambell linell swynol dros ben—er na ddylwn i, yr awdur, ddim dweud hynny. Dyna fy esgus dros fod yn hwyr, Mr. Rees—rydym ni'r beirdd yn greaduriaid rhyfedd pan fydd yr awen yn galw heibio.

REES : Rwy'n falch eich bod chi wedi dod, beth bynnag. Mae gwisgo'r gŵn hwn y tu hwnt i fy ngallu i. Ac yn awr yr ydw i am fynd i chwilio ble yn yr ardd y cawn ni'r "back-ground" gorau i'r llun. Dewch i lawr i'r berllan. Man hynny, yng nghanol y coed y byddai orau, rwy'n credu.

GEINOR : A dydw i ddim i gael bod yn y llun ?

REES : Nac ydwyt. Aros di yma. Os daw'r ffotograffer, dwed wrtho am ddod i lawr ar ein hól a dangos y ffordd iddo. Dewch, Mr. Jones. [*Ant allan i'r chwith.*]
[*Ennyd o ddistawrwydd.*]

GEINOR : Fe fydd yn neis i gael "flood-lights" ar y sgwâr a chael "Fete and Gala" bob pen blwydd Carnolyn.

WALTER : Wyddost ti, Geinor, os rhoir moniwment i'r asyn yna ar y sgwâr—a dydw i ddim yn credu am foment y gwneir, dim ond ei siarad e yw'r cwbl—ond os gwneir, wyddost ti beth wna i? Fe fynaf pum pwnd o ddeinamait ac fe'i rhoddaf o dan y moniwment ryw noson dywyll a fe'i chwythaf yn deilchion. Gwnaf, Geinor, hyd yn oed os bydd yn rhaid i mi dreulio'r gweddill o'm hoes mewn carchar.

GEINOR : Dyna'r sgêm orau a glywais eto. Pan fyddwch yn barod, rhowch wybod i mi ac fe ddof gyda chwi i gael y pleser o ddal y fatsen i gynnu'r ffiws. Ni allai dim roi mwy o bleser i mi ac fe awn i'r carchar yn eich lle, Nwncwl.

WALTER : A mae meddwl bod dy fodryb Jane yn mynd i briodi sut iolyn . . .

GEINOR : Fe all llawer o bethau ddigwydd cyn hynny . . .
[*Daw SALI i'r ffenestr ffrensh â cherdyn yn ei llaw.*]

SALI [*yn ymestyn y cerdyn i* WALTER.] : Mae yna ddyn wrth y drws a gofynnodd i mi roddi hwn i chi a gofyn a allai eich gweld am ychydig.

WALTER [*yn darllen*] : "D . . . D . . . Det . . . Detective-Sergeant T . . . Thomas." Wyt . . . wyt ti'n siŵr mai fi ddwedodd e?

GEINOR : Beth ydych chi wedi bod yn ei wneud, nawr, Nwncwl?

WALTER : Gwneud rhyw fistec dwl wyt ti, Sali. Cerdd nôl a gofyn iddo . . .

SALI : Nage'n wir, mishtir. Mr. Morgan ddwedodd e yn ddigon plaen.

GEINOR : Roeddwn i'n dweud o hyd mae yn y "lock-up" y gorffennech chi'ch gyrfa.

WALTER : Geinor fach, nid amser i siarad yn ysgafn yw hi a'r dyn yna yn y tŷ. A oes rhaid i mi ei weld?

GEINOR : Chi sy'n gwybod beth ydych chi wedi bod yn ei wneud.

WALTER : Ond dydw i ddim wedi gwneud dim mas o'i le.

GEINOR : Wel, os yw'ch cydwybod chi yn glir, mae'n well i chi ei weld e. Dewch ag ef i mewn i'r "drawing room," Sali.

SALI [*wrth fynd*] : A yw hi'n well i mi ddweud wrth meistres?

WALTER [*yn hanner gweiddi*] : Nag yw! [*SALI yn diflannu trwy'r ffenestr.*] Beth ar wyneb y ddaear yw ei neges? Beth mae e'n ymofyn fy ngweld i?

GEINOR : Efallai bod Fflorri wedi clebran . . .

WALTER : Clebran am echdoe?

GEINOR : Ie, dallaf i ddim meddwl am reswm arall.

WALTER : O'r arswyd! Dydw i ddim yn aros. Fe gei di siarad ag ef. [*Yn cychwyn ar ei ffordd i'r dde.*] Dwed fy mod wedi mynd am dro.

GEINOR [*yn ei ddal gerfydd ei gôt.*] : Nwncwl bach, dwli yw treial dianc. Mae'n rhaid i chi ei weld yn awr. Dyma Sali yn dod ag ef. Dewch i mewn a pheidiwch ag edrych mor euog. [*Arwain ef i mewn trwy'r ffenestr. Maent o'r golwg pan siaradant â'r DETECTIF.*]

[*Pan ddaw'r DETECTIF i'r golwg yn nes ymlaen ceir gweld mai dyn ifanc yn cario "bowler hat" yw e.*]

DET. : Pnawn da. Chi yw Mr. Walter Morgan?

WALTER : Ie, ie. Fi yw e. Beth ydych chi'n ymofyn â mi?

GEINOR : Mae Nwncwl wedi'i upsetio ychydig y pnawn yma.

DET. : Mae'n ddrwg gen i am hynny.

GEINOR : A rhaid i chi beidio ag upsetio rhagor ohono fe.

[*Daw REES i'r golwg o'r chwith a gwisg yr Orsedd amdano. Mae'n cerdded yn naturiol hyd nes y clyw'r DETECTIF yn dweud y gair "Police." Yna saif yn stond fel ci yn codi'i wrychyn a gwrendy yn astud.*]

DET. : Wel, mae'n rhaid i mi fel aelod o'r "Police Force" i wneud fy nyletswydd. Ac yr wyf am ofyn rhai cwestiynau i chi Mr. Morgan. A dylaswn eich rhybuddio fod y mater yn un pwysig.

WALTER : Rydw i wedi cadw'r gyfraith ar hyd fy oes. Rwy'n ddyn respectabl.

DET. : Nawr, nawr. Mr. Morgan, dydw i ddim wedi'ch cyhuddo chi o gwbl. Dod yma wnes i i holi cwestiynau.

WALTER : Ond pam y mae'n rhaid i chwi holi cwestiynau i mi o bawb?

DET. : Nawr, Mr. Morgan, rwy'n begian arnoch i fod yn dawel. Dydw i ddim yn credu eich bod chi wedi gwneud

dim o'i le. Ond y mae'n bosibl bod eraill wedi'ch defnyddio.

[*Mae cymaint â hyn yn ddigon i REES. Diflanna yn ddistaw tua'r dde.*]

GEINOR : Ie, dyn yn cael ei ddefnyddio yw Nwncwl.

DET. : Dyna beth sydd yn fy meddwl innau a dyna paham yr wy'n gofyn iddo beidio â chynhyrfu ei hunan. Mr. Morgan a fuoch chi yn y "Prince of Wales" . . .

[*Cyn bo'r DETECTIF yn cael amser i ofyn rhagor mae WALTER yn ffoi drwy'r ffenestr a'r DETECTIF ar ei ôl a deuant i olwg y gynulleidfa. Pan yw'r ddau drwy'r ffenestr mae'r DETECTIF yn cael gafael ar goler côt WALTER ac yn ei ddal yn ôl. Daw GEINOR ar eu hól trwy'r ffenestr.*]

DET. [*yn siarad yn fwy awdurdodol.*] : Wnaiff hyn ddim o'r tro o gwbl, Mr. Morgan. Yr ydych yn actio yn hollol fel dyn euog. Nawr, eisteddych ar y fainc yma a chofiwch nad wyf yn eich cyhuddo o ddim. Gofyn cwestiynau yn unig ydwyf. [*Eisteddant ill dau ar y fainc.*]

WALTER : Digon hawdd dweud hynny. Ond beth yw pwynt y cwestiynau ?

DET. : Ond i chi eu hateb, fe fydd popeth yn iawn. Nawr, a fuoch chi yn y "Prince of Wales" yn Nhre-cyll, yn ddiweddar ?

WALTER : Beth os do fe ? A oes gen i ddim hawl i fynd yna. Mae hon yn wlad rydd, ond yw hi ?

DET. : Does neb yn dweud . . .

WALTER : A oes rhyw ddrwg i ddyn droi i mewn yno i gael ambell lasaid ?

DET. : Dim o gwbl, Mr. Morgan.

WALTER : Pa eisiau holi ynghylch fy ymweliadau i â'r "Prince of Wales" sydd ynte ?

DET. : Ydych chi yn adnabod merch o'r enw Fflorri Owen . . .

[*Neidia WALTER ar ei draed â golwg wyllt arno ond cydia'r DETECTIF yn ei fraich a gwna iddo eistedd drachefn.*]

Mae hi yn dweud i chi fod yno yng nghwmni Americanwr.

WALTER : Edrychwch yma, dydw i ddim yn mynd i ateb rhagor o'ch cwestiynau. Os ydych chi wedi bod yn gwrando ar y faeden yna . . . wŷr hi ddim beth yw'r gwahaniaeth rhwng gwir a chelwydd.

DET. : Fe ellwch ateb yn awr neu ddod gen i i'r "Police Station" i gael eich holi yno.

GEINOR : Does dim byd amdani, Nwncwl. Mae'n well i chi ateb.

WALTER : Ond does gen i ddim ateb i'w roi.

DET. : Beth yw achos eich holl bryder?—ofn y byddaf yn eich holi ynghylch eich partner ?

WALTER : Partner. Pwy bartner ? Does gen i ddim partner i'w gael—os nad ydych chi'n golygu'r wraig ?

DET. : A oedd dim partner gennyh yn y "Prince of Wales" ?

WALTER : Wn i ddim beth ar ddaear Dduw yr ydych yn siarad amdano.

DET. : Ydych chi'n gwadu na welwyd chi yng nghwmni dyn diertth o America ?

WALTER : Nac ydw i ddim yn gwadu. Amdano fe yr ydych chi'n siarad ?

DET. : Ydych chi'ch dau ddim yn bartners ?

WALTER : Nac ydym. Fe fyddai'n well gen i fod yn bartner i un o "Storm Troopers" Hitler. Petaech chi wedi dweud mai yn ei gylch ef y daethoch yma . . .

DET. : Fyddech chi ddim wedi ceisio dianc.

WALTER : Na fydd . . . Cheisiais i ddim dianc. Dod allan i gael tipyn o awyr iach wnes i. Roedd hi'n ofnadwy o drymaidd yn y tŷ.

[*Ennyd.*]

DET. : A ydy'r Mr. Rees yna o gwmpas y lle o hyd ?

WALTER : Ydy, am a wn i. Os ydych am wybod rhywbeth yn ei gylch, holwch ef ei hun.

DET. : Mae ganddo gyfrinachau nad yw yn eu siario â'i bartner ?

WALTER : Ond ydw i wedi dweud wrthyhch nad yw e ddim yn bartner i mi. Da chi, rhowch y syniad yna heibio. Geinor, er mwyn popeth, ceisia ei ddarbwylllo fy mod i'n dweud y gwir.

DET. : Ble mae e'n awr ?

GEINOR : Cyn belled ac y gwyddom ni, y mae i lawr yn y berllan gyda Mr. Demetrius Jones yn paratoi i dynnu ei lun.

DET. : Fe af i'w chwilio yn y man. [*Try at WALTER eto.*] Pam y daeth e i aros gyda chi os nad ydych yn bartner iddo ?

WALTER [*yn colli ei amynedd ac yn codi'i lais.*] : Oherwydd ei fod yn adnabod y wraig yn dda cyn iddo fynd i America.

Ac os gellwch chi ei godi oddi yma fe fyddaf i'n ddiolchgar iawn i chi.

DET. : A thebyg eich bod chi i gyd wedi prynu "shares" yn ei gwmi aur newydd ef?

WALTER : Does gen i ddim arian i brynu shares yng nghwmni neb. Gwell i chi ofyn y cwestiwn yna i rywrai eraill.

DET. : A ydych chi fel un o'r "Directors" wedi prynu "shares"?

WALTER : Y nefoedd â'n helpo i ! Beth gwell ydw i i siarad â'r dyn yma ? Rydw i wedi dweud . . .

DET. : O'r gorau, o'r gorau. Arweiniwch fi i lawr i'r berllan ato.

GEINOR : A ydych am i mi ddod ?

DET. : Na, fe fydd Mr. Morgan yn ddigon.

WALTER : A ydy hynny yn golygu eich bod wedi gorffen â mi ?

DET. : Fe gawn ni weld. Dewch.

[*Â'r DETECTIF o'r golwg i'r chwith. Saif GEINOR am ennyd yn edrych ar eu hôl. Yn sydyn gwelir REES yn y ffenestr ffrensh yn cario dau fag. Y mae yng ngwisg yr Orsedd o hyd. Saif yn y ffenestr ond ni ddaw allan drwyddi.*]

REES [*mewn llais isel, treiddgar.*] : Geinor.

GEINOR : Helo.

REES : Helpa fi i dynnu'r paraffernalia hwn i ffwrdd.

GEINOR : Pa bryd y penderfynasoch chi mai'r cam cyntaf yw'r cam gorau ?

REES : Ble mae'r cop yna ? Ydy e'n ddigon pell ?

GEINOR : Dydy e ddim yn rhy bell fel na fedraf ei alw yn ôl.

Dwn i ddim beth wnaiff e pan wêl e nad ydych yn y berllan.

REES : Helpa fi i dynnu hwn i ffwrdd ar unwaith i mi gael mynd cyn y daw yn ôl.

GEINOR : Faint o werth fydd hynny ?

REES : Faint o beth ?

GEINOR : Beth yw'r pris ? Faint o werth fydd fy help i chi ?

REES : Nawr, paid a baldorddi rhagor o ddwli. Dere i mewn yma o'r golwg.

GEINOR : Rwy'n disgwyl gwybod pa gyfran o'r "swag"—dyna'r gair iawn, onid e ?—sydd gennych yn y bagiau yna yr ydych yn mynd i'w roi i mi am beidio â gweiddi "Tali Ho" a rhoi'r helpa ar eich trac.

REES : Dere i mewn man hyn a gwna beth yr ydw i'n ei ddweud wrthy, ar unwaith.

GEINOR : O Ie ! [*"Oh, yeah" yr Americanwr.*]

[*Mae REES fel petai am symud cam ati yn fgythyol.*]

Symudwch chi un cam arall tuag ataf ac fe sgrechaf dros y lle ; chi'n deall ? [*REES yn cilio.*] Rown i'n meddwl y gwnaech chi. Fe allwn siarad tra bo dau neu dri cam rhyngom. Efallai yr hoffech chi wybod mai fi aeth â'ch darn mwyn chi echdoe. Ac y mae wedi'i analeisio—does dim eisiau i mi ddweud faint o aur oedd ynddo.

REES : Y bitsh fach felltgedig !

GEINOR : "Double crosser" yw'r term technegol yn Chicago, ynte ? Rydych mewn cornel, Carnolyn R. Rees. Nawr, beth am siario'r swag yna ?

REES : Rwy'n mynd.

GEINOR : Fe sgrechaf yn ddigon uchel i'r pentre fy nghlywed cyn y byddwch trwy ddrws y tŷ. Na, na, gorau i gyd os sylweddolwch nad oes dim dianc i chi. Fi sydd i osod y telerau a dyma nhw. Os rhowch chi i mi yr arian a gawsoch gan Modryb Jane a Modryb Sara i brynu "shares" fe gewch chi fynd. [*Newid ei llais.*] A dim cyn hynny. Ac fe gewch adrodd yn Chicago sut yr aeth merch fach o Gymru dros eich pen chi. Beth amdani ? Does gennych chi ddim llawer o amser. Fe ddaw'r detectif yn ôl unrhyw eiliad.

REES : Petawn i yn cael fy nwylo arnat . . .

GEINOR : Ond chewch chi ddim. Yr ydych mewn cornel, ac fe ellwch rincian eich dannedd faint a fynnoch, ond chodwch chi ddim ofn arna i. Beth amdani ?

REES : O'r gorau. [*Yn tynnu enfelop allan o boced y tu fewn i'w wasgod.*] Feddyliais i erioed bod cymaint o'r diafol ynot. Dere i mewn yma i gael yr arian.

GEINOR : O, na, Mr. Rees, mae'r tric yna yn rhy hen. Dydych chi ddim yn mynd i weld y ferch hon o fewn hyd braich. Rhowch chi'r enfelop i lawr wrth eich traed, fan yna, ac ewch chi yn ôl ddigon pell. Chewch chi ddim cyfle i gael eich dwylo arna i.

[*REES yn ufuddhau ac yn symud yn ôl gam neu ddau. Cyfyd GEINOR yr enfelop gan gadw ei llygad ar REES. Yna daw yn ôl o'r ffenestr a thynn nodau banc allan o'r enfelop gan eu cyfri.*]

Fedra i ddim gweld faint sydd yma i gyd ond fe wnânt y tro. Gellwch fynd yn awr.

REES : Tynn y wisg yma i ffwrdd.

GEINOR : Ie, neis iawn ! Cyfle ardderchog arall i gael eich dwylo arnaf. Na, doedd hynny ddim yn y cytundeb. [*Edrych i'r chwith.*] Rwy'n clywed lleisiau'n agoshau, os ydych chi am fynd mae'n well i chi gyffro.

REES [*Yn codi'r ddau fag.*] : Os caf i gyfle i dalu nôl i ti am hyn . . .

GEINOR : Chollaf i ddim cysgu wrth feddwl am hynny.

[*Disflanna REES trwy'r "drawing room."* Y mae GEINOR yn syn-fyfyrio ac yna rhoi'r enfelop y tu mewn i fynwes ei ffrog. Yn union clywir lleisiau'n agoshau.]

DEM. [*o'r golwg.*] : Fel y dwedais i, dim ond dod i'r tŷ i ymofyn llyfr a wnaeth e. [*Daw i'r golwg o'r chwith a'r DETECTIF a WALTER yn ei ddilyn.*] Meddyliodd y byddai'n edrych yn fwy dysgedig yn y llun petai llyfr ganddo yn ei law. Dweddodd y byddai'n ôl un union. Rwy'n methu dyfalu beth sydd wedi digwydd iddo.

DET. [*yn sychaidd*] : Rwyf innau hefyd.

DEM. : Gobeithio eich bod yn credu fy mod yn dweud y gwir.

WALTER : Dydy'r bachgen hwn yn credu neb. [*Daw MRS. MORGAN a JANE allan trwy'r ffenestr ffrensh. Ceir ennyd lletchwith.*]

DET. : Mrs. Morgan ?

MRS. MORGAN : Ie, siŵr. Fi yw Mrs. Morgan. A ydw i i fod i'ch adnabod chi ?

DET. : Na, "Detective-Sergeant Thomas" ydw i. Rwyf yma yn gwneud ymholiadau ynghylch Mr. Rees, eich "visitor," ac y mae wedi disflannu rhwng ein dwylo.

MRS. MORGAN : Ynghylch Mr. Rees ! O ! dydych chi ddim yn dweud bod pobl yn ceisio dwyn ei wythien aur e, "Sergeant" ?

DET. : Na, nid hynny yn hollol, Mrs. Morgan. Ydych chi wedi prynu "shares" yn y cwmni ?

MRS. MORGAN : Cwestiwn i fi fy hunan yw hynny.

DET. : Wel, gobeithio na fydd e ddim yn fater i minnau hefyd.

MRS. MORGAN : Does gennych chi mo'r hawl i siarad yn y dôn yna. Mae Mr. Rees yn filionêr, ac y mae wedi dod yn ôl yma i'w hen gartref i wneud lles ac nid wyf yn mynd i adael neb neb. i'w redeg i lawr yn fy nghlyw i.

DET. : Pwy ddwedodd wrthyich chi ei fod e'n filionêr ?

MRS. MORGAN : Dydw i ddim yn mynd i ateb cwestiwn mor insylting.

DET. : Efe ei hun ?

MRS. MORGAN : Mae Mr. Rees yn llawer rhy fodest i frolio ynghylch ei arian.

WALTER : Nac i ddangos eu lliw. Chefais i ddim pris . . .

MRS. MORGAN : Walter, dydych chi ddim i siarad felna yng nghlyw pobl.

DET. : Wel, mae'n rhaid i mi gael gafael ar Mr. Rees i ofyn cwestiwn neu ddau iddo. [*Wrth MRS. MORGAN.*] A wyddoch chi ble mae e ?

MRS. MORGAN : Dydw i ddim yn mynd i ateb cwestiwn eto yn ei gylch.

DET. : Mae'n well i mi weld ei ystafell wely.

MRS. MORGAN : Gweld ei ystafell wely ! Chlywais i erioed sut beth ! Na, chewch siŵr. Feddyliwn i ddim gwneud y fath beth.

DET. : O'n wir !

MRS. MORGAN : Mae Mr. REES wedi gofyn oddi ar pan ddaeth ef yma na chai neb fynd i'w ystafell—hyd yn oed y forwyn i wneud ei wely—oherwydd bod pethau cyfrinachol iawn ganddo yno.

DET. : Ie, wel, dyna'r pethau yr wyf am eu gweld. Mae'r forwyn, mae'n debyg, yn gwybod prun yw hi. [*Yn cychwyn at y drws.*]

MRS. MORGAN : Rwy'n dweud yn bendant nad ydych chi ddim i wneud y fath beth. Does gennych mo'r hawl i fynd lle y mynnoch mewn tai preifat.

JANE : Paid â bod yn rhy wyllt. Sara.

MRS. MORGAN : Rwy'n gwybod y gyfraith. Does ganddo mo'r hawl.

DET. : O'r gorau mi af i ymofyn gwarant i gael chwilio'r tŷ. Mae'n rhaid i mi gael gweld yr ystafell yna.

WALTER : Pa ddrwg sydd iddo gael golwg ar yr ystafell. Fe af i fyny gydag ef i weld bod popeth yn iawn.

MRS. MORGAN : Mae'n annioddefol bod rhywun yn gallu cerdded i mewn i dŷ a chwilio pob man.

DET. : Gwneud fy ngwaith yr ydw i. Nawr, a wyf i gael gweld yr ystafell yna, neu a oes raid i mi ymofyn gwarant.

MRS. MORGAN : Na, mae'n well gen i i hynny beidio â digwydd. Gofynnwch i'r forwyn ddangos y drws i chi. Dwn i ddim sut y gellwch chi fynd i mewn, mae'r allwedd gan Mr. Rees.

DET. : Fe wna i o'r gorau am hynny. Arhoswch chi i gyd yma hyd nes y deuaif yn ôl. [*Â i mewn drwy'r ffenestr.*]

WALTER [*cyn gynted ag y bo o'r golwg.*] : Fe wyddwn i! Fe wyddwn i!

MRS. MORGAN : Beth wyddech chi?

WALTER : Bod yna dro yng nghynffon Rhysyn yn rhywle. Efe a'i "Chicago methods"! Fy nghyhuddo i o fod yn lleidr!

MRS. MORGAN : Pa bryd oedd hynny?

WALTER : Dweud fy mod i a Sali wedi dwyn pisyn o'i ddarn mwyn e.

MRS. MORGAN : Rhyw gamgymeriad mawr yw'r cwbl. Pan ddaw Mr. Rees yn ôl fe setla'r tipyn "Sergeant" hwn mewn ychydig funudau.

JANE : Does yr un ohonoch yn meddwl amdanaf i.

WALTER : Nawr, Sara, rhaid i mi gael gwybod. A ydych chi wedi prynu siariau yn ei gwmni e?

MRS. MORGAN : Mater i mi . . .

WALTER : Nage. Mae'n fater i minnau hefyd. Os ydych chi wedi gwneud peth felna heb fy nghonsyltio i fe fydd gen i ryw beth go bwysig i'w ddweud.

GEINOR : Aruthrol o bwysig!

MRS. MORGAN : Ydych chi wedi anghofio'r olygfa gywilyddus a welais i yma echdoe?

WALTER : Nac ydw. A dydw i ddim yn debyg o'i hanghofio. A'r cwbl oherwydd y dyn yna yr ydych chi'n meddwl cymaint ohono.

DEM. : Y . . . Y . . . mae'n well i mi fynd efallai.

GEINOR : Chi'n gwybod beth ddwedodd y detectif—pawb i aros.

MRS. MORGAN : Beth ddwetsoch wrth y dyn yna cyn i mi ddod i mewn? Pam na fuasech chi wedi danfon amdanaf i ar unwaith pan ddaeth i'r tŷ.

GEINOR : Gofyn am Nwncwl wnaeth e.

MRS. MORGAN : Ydych chi, Walter, wedi bod yn dweud rhywbeth wrth y polis ynghylch Mr. Rees? Pwy soniodd wrtho am y Cwmni—roedd hwnnw i fod yn gyfrinach. Mae'n amlwg bod rhywun sy'n genfigennus ei fod yn aros gyda ni wedi bod yn siarad.

WALTER : Roedd e'n clebran cymaint ei hunan, doedd dim eisiau i neb arall ddweud dim. Petaech yn ei glywed yn

y "Prince of Wales" . . . [*Gwél ei gamgymeriad ac erys ar hanner brawddeg.*]

MRS. MORGAN : O'n wir. A phryd oedd hynny?

WALTER [*yn ysgafn iawn.*] : Ddoe neu echdoe, ryw bryd, dydw i ddim yn cofio'n iawn.

MRS. MORGAN : Ac yr oedd yn rhaid i chi ei lusgo i mewn gyda chi?

WALTER : Mynd mewn i'w lusgo allan a wnes i. Roeddwn wedi blino disgwyl y tu allan.

MRS. MORGAN : Mynd ag ef i mewn i dafarn isel felna! I ddangos y faeden ddigywilydd yna iddo, mi fentra. Dydw i ddim yn credu bod Mr. Rees yn cwrdd â'r peth yfed. Ni welais ei ôl arno unwaith.

[*Daw'r DETECTIF yn ôl yn cario dwy botel whisci wâg yn ei law.*]

DET. : Doedd dim eisiau i chi ofidio rhyw lawer yng nghylch dangos yr ystafell yna i mi. Dyma'r cwbl oedd yno. [*yn dangos y ddwy botel.*]

WALTER : A dim lemonêd oedd yn y rheina, Sara.

MRS. MORGAN : Ond dydw i ddim yn deall. Mae pethau Mr. Rees i gyd yn ei ystafell.

DET. : Dyma'r cwbl oedd yno yn awr.

MRS. MORGAN : Roedd dau fag ganddo pan ddaeth yma.

DET. : Mae'r rheiny wedi diflannu hefyd.

MRS. MORGAN : Ond, i ble?

DET. : Mae gen i syniad go lew.

DEM. : Beth am fy nillad Gorsedd i?

DET. : Dydyn nhw ddim yn yr ystafell, sut ddillad bynnag ydynt, os nad gwisg anweledig yw. Fe ellwch fynd i chwilio mae'r drws yn agored.

DEM. : Ond y mae hyn yn ofnadwy. Beth wna i? Rhoi eu benthyg yn unig a wnes i.

DET. : Mrs. Morgan, ar ôl y ffordd y ceisioch fy rhwystro i rhag chwilio yr ystafell, rhaid i mi ofyn cwestiwn difrifol iawn i chi. A wyddech chi fod yr ystafell yn wag? Cym-erwch amser cyn ateb.

MRS. MORGAN : Dydw i ddim yn eich credu. Ceisio fy rhwydo yr ydych. Mae'n rhaid bod pethau Mr. Rees yn ei ystafell. Ai e ddim oddi yma heb ddweud wrthyf.

DEM. : Beth am fy nillad Gorsedd i?

DET. : Rwyf am fynd â'r poteli yma gennyf—tebyg bod ei "finger prints" arnynt. Peth arall, fe wn sut y dihangodd

e o'r tŷ. Gwelodd y forwyn ef yn mynd mewn car oedd o flaen y tŷ.

DEM. : Fy nghar bach i! [*Rhed allan i'r dde.*]

DET. : Rydw i am gael defnyddio eich teliffon i roi gwybod i'r "Police Station." [*Gan nad oes neb yn ateb â'r DETECTIF i mewn drwy'r ffenestr.*]

WALTER : Wel, dyma beth yw picil pert.

MRS. MORGAN : Peidiwch â siarad felna.

WALTER : Arna i mae'r bai eto! Fi ddaeth ag ef i'r tŷ! Fi roddodd yr holl groeso iddo! Fi a fu yn ei ddangos ar hyd y lle fel rhyw filionêr dof! Wyddoch chi, dydw i ddim wedi cael munud o dawelwch oddi ar pan ddaeth e yma. [*Rhuthra DEMETRIUS yn ôl o'r dde.*]

DEM. : Mae fy nghar bach i wedi mynd. Does dim ar ôl ond diferyn bach o oil ar yr heol i ddangos ble roedd e'n sefyll. O diar! Beth wna i! Gobeithio y bydd yn ei drin yn dyner.

MRS. MORGAN : Rydych yn siŵr o gael eich car yn ôl, Mr. Jones. Mae digon o ffydd gen i yn Mr. Rees.

WALTER : Ffydd! Edrychwch yma. Rydw i am gael gwybod—mae hawl gen i gael gwybod. A ydych wedi prynu siariau yn y Cwmni yma?

MRS. MORGAN : Mae yna esboniad syml ar y cwbl.

WALTER : Fe wn i'r esboniad yn iawn—ac esboniad syml yw e? Faint o siariau brynsoch chi?

MRS. MORGAN : Dydw i ddim yn mynd i ddweud nes ein bod yn sicr beth sydd wedi digwydd i Mr. Rees. Hyd yn oed petai wedi gorfod mynd i ffwrdd heb ddweud wrthyf i, fe fyddai'n sicr o ddweud wrth Jane.

WALTER : A ydych chi, Jane, wedi prynu siariau?

JANE : Ydw, fwy nag a ddylswn i.

WALTER : A chithau [*wrth DEMETRIUS*]. [*Yn troi at GEINOR.*]

Ti a fi yw'r unig ddau a thipyn o synnwyr yn yr holl le.

GEINOR : A hynny oherwydd nad oes gennym geiniog goch rhyngom.

MRS. MORGAN : Rwy'n gwrthod credu bod dim byd o'i le.

[*Daw SALI drwy'r ffenestr ffrensh a MRS. POWELL-PRYCE yn ei dilyn.*]

SALI : Mrs. Powell-Pryce i'ch gweld chi. [*Â allan.*]

MRS. POWELL-PRYCE : Pwy yw'r bachgen yna sy'n ffonio yn eich "Hall" chwi? Roeddwn i yn ei glywed yn dweud

wrth rywun am roi gwybod rhywbeth ar unwaith i bob plismon yn yr ardal. Beth sy'n bod yma? Ble mae Mr. REES?

MRS. MORGAN [*yn siarad hytrach yn wyllt*] : Mr. Jones sydd wedi colli ei gar, rhywrai wedi'i ddwyn ac y mae'r polis yn ceisio cael gafael arno a dal y lladron.

MRS. POWELL-PRYCE : O! Dyna i gyd sy'n bod. Gobeithio y cewch chi ef yn ôl yn glau, Mr. Jones.

DEM. : Ie, ond . . .

MRS. MORGAN [*yn torri ar ei draws yn bendant.*] : Dewch ymlaen, Mrs. Powell-Pryce. Rwy'n falch iawn i chi alw. Dewch am dro i'r ardd. Mae'n dipyn yn boeth yn yr haul man hyn.

MRS. POWELL-PRYCE : Galw i weld Mr. Rees, roeddwn i. Roedd yna fater bychan ynglŷn â rhyw "shares" a brynais ychydig yn ôl yr oeddwn am ei farn arno. Mae'r bobl yma sy'n trin materion ariannol bob dydd o'u hoes yn gwybod cymaint yn fwy na ni am bethau felly.

MRS. MORGAN : Dewch i'r ardd, Mrs. Powell-Pryce. Efallai—efallai ei fod e yn y berllan. Dydw i ddim yn siŵr ble mae e'r funud yma.

MRS. POWELL-PRYCE : Pa bryd y mae'r briodas, Miss Oliver? Ydych chi wedi penodi'r dydd. Rydw i wedi bod yn edrych allan am rywbeth bach fel present i chi.

MRS. MORGAN : Yr ydych yn garedig iawn—rhy garedig o lawer. [*Y mae bob tro yn cymryd cam neu ddau at y chwith ac yna yn dod yn ôl pan wêl nad yw MRS. POWELL-PRYCE yn ei dilyn.*]

MRS. POWELL-PRYCE : A beth wnewch chi, Geinor, nawr? Byddaf yn disgwyl clywed newydd da amdanoch chithau a rhywun yr wy'n ei weld yn aml iawn yn y tŷ yma yn ddiweddar, yn fuan iawn cofiwch.

GEINOR [*â min ar ei thafod.*] : Fe redaf atoch yn union, Mrs. Powell-Pryce, i ddweud wrthyf chi o flaen pawb.

MRS. MORGAN : Dewch Mrs. Powell-Pryce. Efallai bod Mr. Rees yn y berllan. [*Daw'r DETECTIF trwy'r ffenestr ffrensh.*]

DET. : Fyddwn ni ddim yn hir cyn dod o hyd iddo yn awr. Fe'i gwelwyd yn mynd i gyfeiriad Drenwydd mewn "two-seater." Dyna beth yw'ch car chi, ynte, Mr. Jones.

DEM. : Ie, ond y mae'n gallu dal tri yn achlysurol. Ydych chi'n meddwl bod gobaith y caf i fy nghar bach yn ôl.

DET.: O oes, mae gobaith. Dydy'r wlad yma ddim mor fawr ag America. Ond, rhaid i mi fynd yn awr—fe'm gwelwch eto mae'n debyg. [*Symuda tuag at y ffenestr.*]

MRS. POWELL-PRYCE: Arhoswch "officer." Am bwy yr ydych yn siarad?

DET.: Am y dyn a oedd yn aros yn y tŷ hwn ac yn ei alw ei ei hun yn Carnolyn Rees. Mae polis Chicago am ofyn rhai cwestiynau iddo.

MRS. POWELL-PRYCE: Ond dydw i ddim yn deall . . .

DET.: Cymerwch chi amser, fe ddewch chi i ddeall.

MRS. POWELL-PRYCE: Ddwetsoch chi ei fod wedi dianc?

DET.: Do. Mae e'n fachgen smart. Does gen i'r un syniad sut y daeth i wybod fy mod i yn y tŷ.

MRS. POWELL-PRYCE: A beth am ei Gwmni Aur?

DET.: Stori'r Tylwyth Teg—dyna'r cwbl.

MRS. POWELL-PRYCE: Ond rydw i wedi rhoi arian iddo—arian mawr—i brynu "shares" ynddo.

DET.: Ac yr ydych chithau yn un o'r rhai a oedd am wneud ffortiwn yn glau. Wel, fe ddysgwch synnwyr ryw bryd efallai. Ond rhaid i mi fynd. Does dim amser i'w gollu wrth gwrsio Carnolyn, Prynawn da.

[*Â i mewn drwy'r ffenestr.*]

DEM.: Nid yn unig y mae wedi mynd â gwisg yr Orsedd a'm harian ond fe aeth â'r car bach hefyd.

MRS. POWELL-PRYCE: Doedd hi ddim yn beth rhyfedd o gwbl eich bod yn awyddus i'm tywys i'r ardd cyn i'r "Officer" yna ddod yn ôl.

MRS. MORGAN: Rydym i gyd wedi'n syfrdanu, Mrs. Powell-Pryce.

WALTER: Dydw i ddim beth bynnag. Fe wyddwn i o'r dechrau . . .

MRS. POWELL-PRYCE: Rydw i'n eich dal chi'n gyfrifol os collaf i'r arian a roddais iddo . . .

MRS. MORGAN: Ond fe roddais i arian iddo fy hun . . .

WALTER: Dyma'r gwir yn awr. Faint o arian . . .

MRS. POWELL-PRYCE: Dydw i ddim am aros i glywed eich scwablo teuluol chwi. Fe welais ddigon o hwnnw y dydd o'r blaen. Dylaswn wybod beth i'w ddisgwyl wedi gweld sut beth cywilyddus.

WALTER: Ond efe oedd yn cynllunio popeth. Mae e wedi profi hynny wrth redeg i ffwrdd. Rydych i gyd yn siarad

am eich colledion. Beth am yr hyn y gorfu i mi ei dioddef oherwydd ei gynlluniau dwl.

MRS. POWELL-PRYCE [*yn codi stêm.*]: Milionêr o America! Dylaswn fod yn ddigon call i wybod na ddeuai yr un dyn o'r fath i aros yn y tŷ hwn. Wedi'r ffordd yr ydych yn actio y pnawn yma, gallaf gredu eich bod chwi yn y cynllun ac yn cael rhan o'r arian a ddygodd oddi ar bobl fel fi. Mae'n ofnadwy meddwl am y pethau a wnaethoch i'm twyllo i.

WALTER: Nawr dyna ddigon. Neu rwy'n mynd i ddechrau adrodd hanes yr hen Powell-Pryce a'r ffordd y gwnaeth ef ei arian. Mae pawb yn y tŷ yma—ond y fi—wedi eu twyllo.

MRS. POWELL-PRYCE: Hy!

WALTER: Fe ellwch chi ddweud "Hy!" Mae'n bryd i mi ddechrau actio fel meistr y tŷ. A'r peth cyntaf yw eich troi chwi allan.

MRS. POWELL-PRYCE: Rwy'n mynd. Gan ysgwyd y llwch oddi ar fy esgidiau.

WALTER: A gofawch chi, os clywaf eich bod yn ymestyn eich tafod y tu allan fe wn i ddigon am yr hen Powell-Pryce. [*MRS. POWELL PRYCE wedi mynd o'r golwg i'r dde.*]. [*Ennyd.*]

Wel, nawr, wedi cael gwared ar honna, fe allwn ddechrau cael gwybod ble'r ydym ni'n sefyll. Sara, faint o arian a gollasoch chi?

MRS. MORGAN: O! y gwarth, y gwarth! Fedra i ddim codi fy mhen yn y lle yma eto.

WALTER: Does dim gwahaniaeth am hynny. Faint o arian roesoch chi i'r Ianci? Dyna'r pwynt yn awr.

MRS. MORGAN: Rwyf ofn dweud wrthy chwi, Walter.

WALTER: Hanner cant?

MRS. MORGAN: Mwy na hynny.

WALTER: Cant?

MRS. MORGAN: Mwy na hynny.

WALTER: Fenyw, roisoch chi ddim deucant?

MRS. MORGAN: Roeddwn i'n meddwl ei bod yn gyfle mor dda—pum cant.

WALTER: Beth, pum cant o'm henillion i. Y chi sydd wedi bod yn pregethu drwy'r blynyddau oherwydd i mi gollu deucant ar y "Stock Exchange." Dyma'r diwedd. Rwy'n mynd i gael fy hawliau yn ôl—o'r funud hon.

JANE : Does neb yn meddwl amdanaf i.

GEINOR [*yn mynd i eistedd wrth ei hochr a rhoi ei llaw ar ysgwydd ei modryb.*] : Oes, modryb. Rydw i'n meddwl amdanoch chi.

JANE : Addo fy mhriodi echdoe a rhedeg i ffwrdd ar ôl fy nhwylo i roi'r rhan fwyaf o'm harian iddo. Mae digon gyda chi ar ôl—does gen i fawr.

DEM. [*yn syrthio ar ei liniau wrth ei hochr.*] : Mae'r cwbl sydd gen i ar ôl at eich gwasanaeth. Rwy'n foddlon iddo fe gael yr arian, a'r car, ydw, a gwisg yr Orsedd os caf i chi.

GEINOR : Mr. Jones ! Peidiwch a dweud mai fi oedd y "chaperone" wedi'r cwbl.

DEM. : Rydw i wedi bod yn erfyn am ddigon o nerth i allu dweud hyn wrthyh ers misoedd.

GEINOR : Beth oeddech yn peidio â rhoi un hint fach i mi. Fe fyddwn i wedi gofalu eich bod yn cael digon o gyfle.

DEM. : Petaech chi ond yn gwybod sut yr oeddwn yn teimlo wedi i mi glywed fy mod wedi'ch colli . . .

GEINOR : Ond dydych chi ddim wedi'i cholli. Dyma'r peth gorau a ddigwyddodd erioed. Rwy'n barod i gynnig ein diolchgarwch gwresocaf i Mr. Rees o Chicago am ddod yr holl ffordd i ddwyn hyn i ben.

JANE : Cymryd trugaredd arnaf yr ydych, Mr. Jones . . .

DEM. : Chi fydd yn cymryd trugaredd arnaf i os gwnewch fy nerbyn.

GEINOR : Dewch chi heibio bore fory, Mr. Jones. Fe ddi-flannaf i o'r golwg fel wenci. Wedi toddi'r ia fel hyn bydd y gweddill yn rhwydd i chi. Dyma'r newydd gorau a gefais i ers blynnyddoedd. Rwy'n teimlo fel mynd allan i'r hewl a gweiddi "Hip, hip, hwre."

WALTER : Pan fyddi di, Geinor, wedi gorffen dy *antics*, fe awn ni yn ôl at y pwynt a oedd dan sylw. Fy hawliau i fel meistr y tŷ yma.

GEINOR : Mae gen innau rywbeth i'w ddweud hefyd. Fe wyddwn mai "fraud" oedd Carnolyn oddi ar ddoe.

WALTER : Fe wyddit ! Pam na fuasit wedi dweud ynte ?

GEINOR : Oherwydd na chredai neb mohonof i.

WALTER : Fe gredwn i . . .

GEINOR : Fe gredech chi unpeth amdano ar ôl echdoe. Gadewch i mi fynd ymlaen. Chi'n cofio'r darn mwyn hwnnw y bu'r holl ffys yn ei gylch. Y fi aeth ag ef.

WALTER : A thithau yn gwranddo ar yr Ianci yn fy nghyhuddo i a mynd trwy'r holl berfformans . . .

GEINOR : Doeddwn i ddim am iddo wybod mai fi oedd y lleidr. Fe es â'r mwyn i Arthur ac fe fu hwnnw yn ei analeiso a dywedodd wrthyf ddoe nad oedd dim aur ynddo.

WALTER : Ond fe ddwedodd yr "Assayer" mai dyna'r mwyn gorau . . .

GEINOR : Hen dric, meddai Arthur. Digon hawdd dod â mwyn o Galiffornia. Ac fe gefais gyfle y pnawn yma i roi'r sgrîw ar y gwalch. Fe gafodd brofi tipyn o fethods Chicago ei hun. Gweithredais ar yr hen egwyddor—

"Nid twyll yw twyllo twyllwr,

Nid brâd bradychu bradwr,

Nid lladrad chwaith mi wn yn dda,

Lladrata oddi ar ladratwr."

Ac fe fynais eich arian yn ôl oddi wrtho cyn iddo ddiffannu.

WALTER : Arian pwy ?

GEINOR : Eich arian chi ac arian Modryb Jane.

WALTER : } (Ble mae'n nhw ?

MRS. MORGAN : } [*gyda'i gilydd*] } (Beth wnest ti â nhw ?

JANE : } (Ydy nhw'n saff ?

GEINOR : Mae nhw'n eithaf saff.

MRS. MORGAN : Diolch am hynny. Chi'n gweld, Walter, Dydy'r arian ddim wedi'i colli.

WALTER : Geinor fach, pam na fuasit wedi cadw'r newydd hwn hyd nes y byddwn i wedi ail-ennill fy hawliau ?

DEM. : Chawsoch chi ddim o'm harian i ?

GEINOR : Na, wyddwn i ddim eich bod chi wedi rhoi arian iddo.

MRS. MORGAN : Ble mae'r arian, Geinor ?

GEINOR : Mae nhw'n saff—hollol saff.

WALTER : Mi fûm mor agos i fod yn feistr y tŷ unwaith eto.

GEINOR : Chi gewch yr arian yn ôl ar un amod. [*Ennyd.*]

A'r amod yw fy mod yn cael mynd i Lundain y term nesaf.

Fe safiais gryn dipyn yn fwy i chi na'r gost o fy nghadw i yno.

WALTER [*yn wyllt.*] : Mae yna un amod arall. Fy mod i yn gallu seinio "cheques" o hyn allan.

GEINOR : O'r gorau, Nwncwl. [*Yn rhoi ei braich trwy ei un ef.*]

Dau o blant y gaethglud yn sefyll ar eu sodlau ! Beth amdani, Modryb ?

JANE : Mae'n well i ti roi i mewn, Sara. Mae'n nhw wedi'th guro.

SARA : O'r gorau. Ble mae'r arian, Geinor ?

GEINOR [*yn tynnu'r enfelop allan.*] : Dyma nhw. Wn i ddim faint roisoch chi iddo fe—dyma faint ddywedodd e. Rwy'n eu rhoi i chi, Nwncwl, fel meistyr y tŷ ac fe fydda i'n dibynnu arnoch chi i weld bod pawb yn sticio at y fargen.

WALTER : Gelli ddibynnu arna i. Rwy'n ddyn unwaith eto ac yr wyf yn mynd i actio fel dyn. Ac os ydych chi am i fi fynd ar y "District Council," Sara, rwy'n fodlon rhoi cynnig iddi. Fe fyddai'n well gen i beidio ond rwy'n fodlon gwneud cymaint a hynny.

MRS. MORGAN : Rwy'n falch eich clywed yn siarad felna, Walter.

WALTER : Edifarhewch chi ddim i chi roi fy hawliau yn ôl i mi, Sara.

GEINOR : Os byddwch chi am help i'w handlo fe eto, Modryb, rhowch wybod i mi ; "Chicago methods" amdani !

WALTER : Fe gei di fynd i Lundain o'r ffordd ar unwaith, neu dyn a wŷr pa ddrygioni a wnei di.

GEINOR [*wrth JANE a DEMETRIUS, y ddau'n eistedd ochr yn ochr ar y fainc.*] : Ac os bydd un ohonoch chi'ch dau eisiau cyngor, fe fydd gair i Lundain yn ddigon.

DEM. [*yn cydio yn llaw JANE.*] : Fe ddown ni i ben heb eich help chi, Geinor.

WALTER : Petai rhywun wedi dweud wrthyf awr yn ôl y byddwn i'n teimlo mor hapus cyn tē . . . [*yn rhoi ergyd ysgafn â'i law i ysgwydd GEINOR.*] Dim rhagor o fyw ar hanner coron yr wythnos, Geinor.

GEINOR [*yn gwneud yr un peth iddo ef.*] : Dim rhagor o wastraffu amser a dyheu am fynd i Lundain, Nwncwl.

WALTER [*ergyd arall iddi*] : Dim rhagor o "hunger strikes."

GEINOR [*ergyd iddo yntau*] : Dim rhagor o werthu sanau i gael arian baco.

MRS. MORGAN [*yn siarh.*] : Beth ddwedaist ti, Geinor ?

WALTER : Dim byd, dim byd, mae'r cwbl drosodd nawr. [*Daw SALI i'r ffenestr ffrensh.*]

SALI : Mae ffotograffer wrth y drws yn gofyn am Mr. Rees.

WALTER : Dwed wrtho fe ei fod yn rhy ddiweddar—mae'r deryn wedi codi ar ei aden.

